Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Comisiwn y Cynulliad

Lleoliad:
**Conference Room 4B - Ty Hywel**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 14 Gorffennaf 2011**

Amser:
**12:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Helen Finlayson, 029 2089 8705**
Ysgrifenyddiaeth

## Agenda
AC(4)2011(3)

### 1. Cyflwyniad

**Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

**Datganiadau o fuddiant**

**Cofnodion y cyfarfod ar 29 Mehefin 2011** (Tudalennau 1 - 5)

### 2. Strategaeth ddrafft ddiwygiedig y Comisiwn 2011-16 (Tudalennau 6 - 7)

### 3. Strategaeth cyllideb ddrafft y Comisiwn (Tudalennau 8 - 18)

### 4. Gwasanaethau dwyieithog (Tudalennau 19 - 65)

### 5. System rheoli achosion (Tudalennau 66 - 69)

### 6. Penderfyniad ac adroddiad y Bwrdd Taliadau (Tudalennau 70 - 184)

### 7. Papur i'w nodi - adroddiad blynyddol Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad (Tudalennau 185 - 194)

### 8. Papur i'w nodi - rhestr contractau (Tudalennau 195 - 198)

**9. Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad** (Tudalennau 199 - 201)

**10. Unrhyw Fusnes Arall**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

**NAFWC 2011**
**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2011**

**Dyddiad:** 14 Gorffennaf 2011
**Amser:** 12:00
**Lleoliad:** Ystafell gynadledda 4B

# Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2011

**Yn bresennol:**
Y Llywydd, Cadeirydd
Peter Black AC
Angela Burns AC
Sandy Mewies AC
Rhodri Glyn Thomas AC

**Swyddogion yn bresennol:**
Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc
Dianne Bevan, Prif Swyddog Gweithredu
Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Craig Stephenson, Pennaeth Gwasanaethau i'r Comisiwn ac i'r Aelodau
Helen Finlayson, Ysgrifenyddiaeth
Steven O'Donoghue, Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad – eitemau 2 a 3
Non Gwilym, Pennaeth Cyfathrebu – eitem 4

**Cynghorwr annibynnol:**
Mair Barnes

**Eraill:**
David Melding AC, y Dirprwy Lywydd

**NAFWC 2011**
**Minutes of 14 July 2011 meeting**

## 1. Cyflwyniad y Cadeirydd

Diolchodd y Llywydd i staff y Cynulliad, yn enwedig Claire Clancy, Keith Bush ac Adrian Crompton, am y gefnogaeth a'r cyngor a roddwyd mewn perthynas ag ethol dau unigolyn i'r Cynulliad pan oeddent wedi'u hanghymhwyso. Roedd y Comisiwn yn ddiolchgar am gefnogaeth swyddogion i ddatrys sefyllfa gymhleth a digynsail cyn gynted ag y bo modd, drwy broses deg a chyfreithiol gadarn.

Nododd y Llywydd fod y trefniadau newydd ar gyfer ateb Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Comisiwn wedi gweithio'n dda ar 6 Gorffennaf, a bod adborth gan Aelodau wedi bod yn gadarnhaol.

Cytunodd y Comisiwn y byddai papurau briffio'r Aelodau yn cael eu dosbarthu ar ôl cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Ymddiheuriadau**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**Datganiadau o ddiddordeb**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2011**

Cytunwyd ar y cofnodion yn ffurfiol.

**Materion yn codi o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2011**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

## 2. Strategaeth ddrafft diwygiedig y Comisiwn ar gyfer 2011-16

Mae'r strategaeth ddrafft ar gyfer 2011-16 wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu sylwadau gan y Comisiynwyr am eu blaenoriaethau a'u dyheadau ar gyfer y sefydliad.

Cytunwyd ar y fersiwn ddiwygiedig o'r datganiad o bwrpas a'r nodau strategol drafft, yn amodol ar fân newidiadau pellach y gofynnodd y Comisiynwyr amdanynt, i symleiddio geiriad y strategaeth.

## 3. Drafft o strategaeth gyllideb y Comisiwn

Trafododd y Comisiynwyr y gwasanaethau sydd eu hangen ar y Cynulliad fel deddfwrfa sydd â phwerau deddfu llawn yn dilyn y refferendwm. Cytunwyd bod y Cynulliad, fel sefydliad sy'n tyfu, angen safon uchel o wasanaethau cymorth priodol i alluogi'r Aelodau i gyflawni eu rolau. Rhoddwyd adborth ar yr effaith a gaiff gostyngiadau yng nghyllideb y gwasanaeth ymchwil ar Aelodau.

Trafodwyd blaenoriaethau'r Comisiynwyr ar gyfer darparu gwasanaethau craidd, gan gynnwys cefnogaeth arbenigol benodol ar gyfer pwyllgorau'r Cynulliad, Gwasanaeth Ymchwil cryf, gwasanaethau cyfreithiol, ac adnoddau TGCh arbenigol ar gyfer datblygu'r strategaeth TGCh. Rhoddwyd arweiniad ar y dull cyffredinol o weithredu strategaeth y gyllideb ar gyfer 2011–16, ac ar y lefel orau o gydbwysedd rhwng gwelliannau / twf a chost. Roedd y Comisiynwyr yn teimlo ei bod yn bwysig i gyflwyno cyfanswm cyfunol cyllideb Gwasanaethau'r Cynulliad a chyllideb yr Aelodau gyda'i gilydd.

Bydd cynigion cyllidebol manwl—gan amlygu lle gellid gwneud arbedion a lefel yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer pob gwasanaeth—a strategaethau cyfathrebu drafft yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

**Cam i'w gymryd:** Swyddogion i wneud gwaith manwl yn ystod yr haf, gan weithio gyda deiliaid portffolio. Bydd y Comisiwn yn trafod y gwaith ym mis Medi.

**4. Gwasanaethau dwyieithog**

Cafodd y Cofnod o Drafodion y Cyfarfod Llawn ei drafod, gan ystyried yr adroddiad gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sylwadau a wnaed gan Aelodau a rhanddeiliaid, yr egwyddor o fynediad i drafodion y Cynulliad drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, a'r angen i sicrhau gwerth am arian. Cytunodd y Comisiwn y dylai ymchwiliadau i ddarparu cofnod dwyieithog barhau, a gofynnodd am ragor o wybodaeth fanwl am gyfanswm y costau tebygol, gan gynnwys strwythur tâl y gwasanaeth Google Translate o fis Rhagfyr 2011 ymlaen. Dywedodd y Comisiwn bod angen i unrhyw drefniant fod yn gynaliadwy. Fodd bynnag, os gellid dod o hyd i ateb hirdymor am bris rhesymol, mewn egwyddor, mae'r Comisiwn yn awyddus i ddarparu Cofnod gwbl ddwyieithog. Yn y cyfamser, bydd trefniadau presennol yn parhau. Bydd y Llywydd yn ysgrifennu at Fwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn â'r mater.

Yn amodol ar ddiwygiadau i adlewyrchu'r penderfyniadau hyn, cytunwyd ar Fil drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch Ieithoedd Swyddogol, y Cynllun Ieithoedd Swyddogol drafft a'r amserlen ymgynghori. Gofynnodd y Comisiynwyr bod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cynnwys rhanddeiliaid o bob cwr o Gymru, gan gynnwys awdurdodau lleol.

**Camau i'w cymryd:** Swyddogion i ddarparu rhagor o fanylion am gostau defnyddio Google Translate o fis Rhagfyr 2011 ymlaen.

Y Llywydd i ymateb i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ran Comisiwn y Cynulliad.

**5. System rheoli gwaith achos**

Darparwyd gwybodaeth am nifer yr Aelodau sy'n defnyddio'r system; cost y system hyd yn hyn; goblygiadau o ran diogelu adnoddau pan fydd staff y comisiwn yn ymwneud â'r broses o ofyn am ddata o'r gofrestr etholiadol a chael y data hynny; a'r risgiau o'r data yn cael ei ddefnyddio ar gyfer mantais wleidyddol.

Codwyd pryderon ynghylch costau'r prosiect hyd yn hyn, a gofynnwyd am fwy o waith i gael ei wneud ar brosiectau tebyg yn y dyfodol i sefydlu gofynion defnyddwyr, amcangyfrif y nifer a fydd yn ei ddefnyddio, a sicrhau bod amcangyfrifon o'r costau yn gadarn.

Cytunodd y Comisiwn i wneud cais i'r Comisiwn ddod yn gorff a enwir yn Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001.

**Cam i'w gymryd:** Keith Bush i ofyn am newid i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 i gynnwys Comisiwn y Cynulliad fel corff a enwir.

**6. Penderfyniad ac adroddiad y Bwrdd Taliadau**

Gwnaeth y Bwrdd Taliadau ei Benderfyniad cyntaf ym mis Mawrth 2011, ond ar y pryd nid oedd yn gallu gwneud penderfyniadau terfynol o ran y cyflogau ychwanegol sy'n daladwy i rai deiliaid swyddi yn y Cynulliad. Mae'r Penderfyniad bellach wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu penderfyniadau ar gyflogau ychwanegol sy'n daladwy i Gomisiynwyr, arweinwyr y pleidiau, cadeiryddion pwyllgorau a rheolwyr busnes, a derbyniwyd y Penderfyniad yn ffurfiol yng nghyfarfod y Comisiwn. Roedd y Comisiynwyr o'r farn nad oedd y trefniadau cyflog ychwanegol i reolwyr busnes y pleidiau yn ddigonol o ran adlewyrchu gwahaniaethau yn y nifer o seddi sydd gan bob plaid.

Codwyd materion gyda'r Llywydd a'r Comisiynwyr eraill am y cap misol ar lety ar rent ac am y meini prawf o ran pellter i fod yn gymwys i gael cymorth llety yn seiliedig ar yr etholaeth neu'r rhanbarth y mae'r Aelod yn ei gynrychioli. Cytunodd y Comisiwn y byddai'r Llywydd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Bwrdd Taliadau.

**Camau i'w cymryd:** Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu gosod y Penderfyniad a'r adroddiad, ac anfon y dogfennau i Aelodau'r Cynulliad a'u staff.

Y Llywydd i ysgrifennu at Gadeirydd y Bwrdd Taliadau yn nodi pryderon yr Aelodau am y cyfyngiadau ar gymhwyster ar gyfer cymorth llety.

**7. Adroddiad blynyddol Pwyllgor Archwilio'r Comisiwn**
Nodwyd yr adroddiad blynyddol.

**8. Rhestr o gontractau**
Nodwyd y rhestr o gontractau. Gofynnodd y Comisiynwyr bod yr amserlen yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu dyfarnu'r contract arlwyo.

**9. Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad**
Nodwyd y rhaglen dreigl.

**10. Unrhyw fusnes arall**
Nid oedd unrhyw fusnes arall.

**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2011 (Papur 2 Rhan 1)**
**Strategaeth Ddrafft y Comisiwn 2011-16**

**Dyddiad:** 14 Gorffennaf 2011
**Amser:** 12.00-14.00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Claire Clancy, estyniad 8233

# Strategaeth ddrafft ddiwygiedig y Comisiwn ar gyfer 2011-16

## 1.0 Diben a chrynodeb o'r prif faterion

1.1. Ystyried strategaeth y Comisiwn ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad. Yn y strategaeth ddiwygiedig, rydym wedi ceisio adlewyrchu'r sylwadau a gafwyd gan y Comisiynwyr yn ystod y cyfarfod ar 29 Mehefin.

## 2.0 Argymhellion

2.1. Bod y Comisiynwyr yn rhoi sylwadau ar y drafft diwygiedig o'r Datganiad o Ddiben a Nodau Strategol yn yr Atodiad fel y gallwn sicrhau bod y fersiwn derfynol yn adlewyrchu eu blaenoriaethau a'u huchelgais ar gyfer y Comisiwn.

**6 Gorffennaf 2011**

## Strategaeth Comisiwn y Cynulliad ar 2011-16

### Datganiad o Ddiben

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol i feithrin sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar a deddfwrfa sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

### Nodau Strategol

- **Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf**
  Byddwn yn helpu Aelodau'r Cynulliad i gyflawni eu cyfrifoldebau i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

- **Ymgysylltu'n frwd ac eang â phobl Cymru**
  Byddwn yn creu amgylchedd sy'n annog pobl Cymru i ymddiddori yng ngwaith y Cynulliad ac sy'n eu hwyluso i ymgysylltu â swyddogaethau deddfu, craffu a chynrychioli y Cynulliad, a sicrhau bod y Cynulliad yn cael budd o'r egni creadigol sy'n deillio o'r ymgysylltiad hwnnw.

- **Gweithio fel llysgennad i Gymru dros y byd**.
  Byddwn yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd yn y DU a thramor i hybu Cymru a gwaith y Cynulliad, a chwarae ein rhan yn natblygiad democratiaeth seneddol mewn gwledydd eraill dros y byd.

- **Cryfhau hyder Aelodau'r Cynulliad a phobl Cymru yn y modd rydym yn darparu gwasanaethau ac yn rheoli costau**
  Byddwn yn gwneud defnydd da o arian y trethdalwr, ac yn rheoli adnoddau er mwyn darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol sy'n fwy effeithlon ac yn cynnig gwell gwerth am arian.

Wrth gyflawni'r nodau hyn, byddwn yn:

- gweithredu gydag uniondeb a thegwch, ac yn ddiduedd;
- cryfhau ethos dwyieithog y Cynulliad;
- gosod safonau uchel;
- bod yn agored a thryloyw;
- gweithio'n gynaliadwy.

**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2011 (Papur 3 Rhan 1)**
**Strategaeth cyllideb ddrafft y Comisiwn**

**Dyddiad:** 14 Gorffennaf 2011
**Amser:** 12:00–14:00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Claire Clancy, estyniad 8233

# Strategaeth cyllideb ddrafft y Comisiwn

## 1.0 Diben a chrynodeb o'r prif faterion

1.1. Yn y cyfarfod ar 29 Mehefin, dechreuodd y Comisiynwyr ystyried eu strategaeth cyllideb ar gyfer 2011–16. Gofynnodd y Comisiynwyr am bapur wedi'i seilio ar weithgaredd er mwyn deall yn well beth a ellid ei gyflawni gyda rhagor o adnoddau.

1.2. Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o ddwy sefyllfa bosibl:

(i) Canlyniadau parhau â'r strategaeth cyllideb flaenorol (Atodiad 1)

(ii) Gwelliannau y byddai modd eu gwneud pe byddai gennym gyllideb fwy (Atodiad 2).

## 2.0 Argymhellion

2.1. Gofynnir i'r Comisiwn nodi'r cyfeiriad ar gyfer y llwybr cyffredinol y mae am ei ddilyn o ran y gyllideb a lefel y cydbwysedd y mae'n ei ffafrio rhwng gwelliannau/twf a chost.  Yna gwneir gwaith manwl dros yr haf a'i gyflwyno i'r Comisiwn ar gyfer ei ystyried ym mis Medi.

## 3.0 Goblygiadau ariannol

3.1. I aros yn ein hunfan yn unig, byddwn angen ein cyllideb bresennol, a chostau ychwanegol anochel o £1.8m.

3.2. Byddai twf yn arwain at gostau ychwanegol, y byddai angen eu hariannu drwy adnoddau ychwanegol neu arbedion (trwy wneud pethau'n fwy effeithlon a/neu leihau gwariant mewn rhai meysydd)

3.3. Y goblygiadau ariannol ar gyfer y rhestr gyflawn o welliannau a nodwyd yn Atodiad 2, a fyddai'n cael eu cyflwyno'n gynyddrannol dros y tair neu bedair blynedd nesaf, fyddai:

- ar gyfer 2012-13, cynnydd yn y gyllideb o £2.8m (8.8 y cant) ar y gyllideb bresennol ar gyfer gwasanaethau'r Cynulliad.
- hyd at £1m bob blwyddyn a fyddai'n golygu y byddai'r gyllideb ar gyfer 2014-15 hyd at £5m yn uwch na'r flwyddyn bresennol.
- o fewn y berthynas 0.2 y cant arfaethedig â Bloc Cymru.

3.4. Byddai'r Comisiwn yn adolygu'r strategaeth cyllideb fel rhan o broses pennu'r gyllideb flynyddol

**6 Gorffennaf 2011**

**Y sefyllfa gyffredinol os byddwn yn parhau â'r strategaeth cyllideb flaenorol**

1. Mae'r strategaeth a nodwyd yn 2010 yn gwneud cyllideb y Comisiwn am wasanaethau'r Cynulliad yn gydnaws â newidiadau canrannol ym mloc Cymru. Byddai cadw'r strategaeth hon yn golygu ein bod yn cael yr un swm o arian am y ddwy flynedd nesaf yn fras. Rydym, serch hynny'n wynebu'r codiadau anochel a ganlyn yn ein costau:

   - effaith chwyddiant ar feysydd gwariant mawr (er enghraifft, cyfleustodau a gwasanaethau mawr wedi'u contractio): a amcangyfrifir sy'n £0.2m / 0.5 y cant;

   - taliadau cynyddrannol cyflogau staff dan gontract: £0.5m / 1.6 y cant; a

   - codiadau anochel mewn costau sefydlog neu gostau contractio (er enghraifft, rhent Tŷ Hywel a dibrisiant asedau sefydlog): £1.1m / 3.6 y cant.

2. Byddai rhagor o godiadau anochel ar gyfer costau cynyddrannol ac effaith chwyddiant yn dilyn dros y blynyddoedd nesaf, ynghyd ag unrhyw wariant newydd a fyddai'n ofynnol ar gyfer prosiectau buddsoddi neu i adnewyddu contractau. Nid oes darpariaeth ar gyfer ariannu codiad cyflog i staff y Cynulliad pan fydd y trefniadau presennol yn dod i ben ym mis Mawrth 2012.

3. Byddai'n rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd o dalu am y prinder arian cyffredinol bob blwyddyn. Byddai'n rhaid gwneud hyn drwy ail-ddyrannu adnoddau presennol. Yr opsiynau fyddai:

   - lleihau staff y Cynulliad ymhellach drwy gynllun diswyddo gwirfoddol neu drwy beidio â llenwi swyddi pan ddônt yn wag;

   - gostwng safonau contractau neu safonau'r gwasanaethau a gaiff eu contractio;

   - lleihau meysydd gwariant dewisol a meysydd gwariant lle y gallwn reoli galw ;

   - adolygu natur darparu gwasanaethau (ystyried a ddylid contractio mwy o wasanaethau allan er mwyn arbed arian) er mwyn adnabod unrhyw bosibiliadau ar gyfer gwneud arbedion;

- darparu prosiectau buddsoddi-i-arbed er mwyn cyflawni arbedion tymor hirach (er y byddai angen rhagor o arian ychwanegol cychwynnol arnom); a

- cynyddu incwm drwy ddull gweithredu mwy masnachol (o anghenraid o fewn y fframwaith cyfreithiol a heb fygwth busnes y Cynulliad).

4. Byddai cyfrifoldebau statudol y Comisiwn yn parhau i gael eu cyflawni - byddai busnes ffurfiol y Cynulliad yn digwydd: byddai pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn yn cyfarfod, byddai deddfu, byddai'r broses o bennu cyllidebau'n digwydd. Byddai swm ac ansawdd y cymorth a fyddai'n cael ei ddarparu i Aelodau'n gostwng, fodd bynnag, a byddai ein dyheadau sy'n batrwm i'w gopïo gan eraill, yn dioddef. Mae'r pwyllgorau yn un enghraifft. Ar hyn o bryd, mae gan bob pwyllgor hawl i gael clerc a thîm cysylltiedig, sydd wedi'i neilltuo fel arfer i un neu ddau bwyllgor. Mae hyn eisoes yn adnodd sydd ar lefel is na'r hyn a ddarperir yn Senedd yr Alban (lle mae gan bob pwyllgor ei dîm ei hun, ac mae pob un ohonynt yn gymaint o faint, os nad yn fwy nag un o'n timau aml-bwyllgorau ni) neu San Steffan (lle y bydd tîm wedi'i neilltuo o oddeutu chwech o staff yn cefnogi Pwyllgor Dethol, sydd ar lefel cyfatebol neu uwch na'r lefelau yma). Dros y pedair blynedd nesaf, effaith y gostyngiadau mewn termau real a ragwelir yn y strategaeth cyllideb bresennol yw y byddai'r adnoddau hyn yn cael eu taenu'n deneuach rhwng pwyllgorau.

5. Mae'n debygol mai'r canlyniadau eraill o ran Busnes y Cynulliad fydd:

- llai o gymorth ar gael i Aelodau a phwyllgorau sy'n cyfyngu ar faint o waith craffu deddfwriaethol a chraffu ar bolisi y byddai modd ei wneud ar unrhyw adeg ac ar ansawdd y cymorth a roddir i'r gwaith hwnnw ;

- amseroedd ymateb arafach a ffocws ar sicrhau anghenion hanfodol rhesymegol pwyllgorau - mannau cyfarfod, trefniadau ar gyfer tystion, gofynion cyfreithiol a gofynion o ran y Rheolau Sefydlog - yn hytrach na chyngor gradd uwch a gwaith dadansoddi neu waith rhagweithiol;

- ni fyddai gwybodaeth a chefnogaeth ymchwil ar gael ym mhob maes y darperir gwybodaeth amdanynt ar hyn o bryd; a

- byddai'r wybodaeth a'r cyngor a ddarperir gan glercod a staff ymchwil yn llai arbenigol. Er mwyn ateb gofynion gwasgfa gyllidebol yn y flwyddyn bresennol, er enghraifft, mae'r gwasanaeth ymchwil eisoes wedi lleihau niferoedd eu staff ac wedi llenwi swyddi gwag 'arbenigol' yn fewnol â staff sydd â set sgiliau mwy cyffredinol yn hytrach na

recriwtio arbenigwyr mewn meysydd penodol.  Byddai'n rhaid i'r arfer hwn barhau.

6. Y canlyniadau tebygol o ran cymorth i'r Cynulliad mewn meysydd eraill fydd:

- profiad llai safonol i rai sy'n ymweld ag ystad y Cynulliad gyda thoriadau yn y gwasanaethau glanhau; cynnal a chadw; gwasanaethau i ymwelwyr a'r rhaglen addysg;
- ymestyn targedau talu anfonebau er mwyn hwyluso amseroedd talu hirach oherwydd bod llai o staff i'w prosesu;
- llai o weithgarwch cyflogwr enghreifftiol er mwyn rhoi blaenoriaeth i weithgaredd gweithredol yn lle mentrau ychwanegu gwerth; a
- llai o waith allgymorth a chyfathrebu er mwyn ymdopi â nifer llai o staff; arbedion cost drwy ddileu bws y Cynulliad.

**Gwelliannau y byddai modd eu hystyried gyda rhagor o arian**

1. Ni fydd pob gweithgaredd ychwanegol yn rhai dewisol. Mae cydberthynas uniongyrchol rhwng rhai gwasanaethau a ddarperir gan y Comisiwn a niferoedd a hyd Cyfarfodydd Llawn a phwyllgorau. Ymhlith y gwasanaethau hyn mae cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg, cofnod y trafodion, cymorth TGCh pwrpasol yn y Cyfarfod Llawn gan dîm TGCh y Comisiwn ei hun a chan gontractwyr allanol, diogelwch, ymdrin ag ymwelwyr a chofnodi /darlledu. Hefyd bydd sefyllfa gyfansoddiadol newydd y Cynulliad a disgwyliad yr Aelodau'n creu mwy o alw am gymorth gan staff y Comisiwn o'i gymharu â Chynulliadau blaenorol. Mae staff y Swyddfa Gyflwyno yn nodi cynnydd yn eu gweithgaredd am fod gennym dair gwrthblaid erbyn hyn a'r llywodraeth heb fod â mwyafrif cyffredinol. Mae aangen digon o adnoddau arnom i fod yn hyderus ein bod diwallu'r gofynion cynyddol hyn.

2. Gellid osgoi toriadau sy'n deillio o bwysau cost yn unig (fel y nodir yn Atodiad 1) a chynnal lefelau gwasanaethau. Byddwn yn chwilio'n gyson am economi ac effeithiolrwydd yn y modd y byddwn yn darparu gweithgareddau fel rhan o'r ymdrech i sicrhau effeithiolrwydd cyffredinol gwasanaethau'r Cynulliad.

**Twf**

3. Mae gweddill y papur hwn yn nodi gwelliannau posibl mewn pedwar maes gweithgaredd ac mae'n dangos amcangyfrif o'r costau ychwanegol y flwyddyn pe baent yn cael eu gweithredu'n llawn:

   - cynyddu busnes y Cynulliad a gwaith rhyngwladol;
   - gwella technoleg a buddsoddi er mwyn gwneud arbedion;
   - dod yn arweinydd ym maes cydraddoldeb, cynaliadwyedd, gwasanaethau dwyieithog a chyflogwr o ddewis; a
   - buddsoddi yn ystad y Cynulliad, diogelwch a chaffael gwell.

**Cynyddu busnes y Cynulliad a gwaith rhyngwladol (gwariant ychwanegol posibl £1.3m y flwyddyn pan fyddai ar waith yn llawn)**

**Pwyllgorau**

4. Byddai'n bosibl:

- cynyddu gweithgarwch a dylanwad y pwyllgorau; cynnal pwyllgorau y tu allan i Gaerdydd ar gyfer cyfarfodydd ac ymweliadau casglu tystiolaeth; darparu rhagor o gyngor arbenigol allanol a chael y Gwasanaeth Ymchwil i ddarparu rhagor o gymorth gwirioneddol arbenigol i bwyllgorau. Byddai gan bob pwyllgor ei dîm clercio ei hun i roi cymorth iddo a'r pwyllgor hwnnw fyddai unig gyfrifoldeb y tîm clercio.

  Er enghraifft, byddai'r Pwyllgor Cyllid yn cael cymorth arbenigwr cyllid cyhoeddus a fyddai'n canolbwyntio'n unig ar ddarparu data a chyngor angenrheidiol i'r Pwyllgor er mwyn dadansoddi'r gyllideb a dwyn y llywodraeth i gyfrif am ddefnyddio arian o'r Gronfa Gyfunol. Byddai'r gefnogaeth honno wedi'i chanoli ar y Pwyllgor, heb fod yn gyfrifol hefyd am fathau eraill o waith fel y maent ar hyn o bryd. Byddai modd i ni ymestyn ein cymorth i bwyllgorau fel y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Deisebau, sy'n cael cymharol ychydig o gymorth mewnol ar hyn o bryd;

- byddai gan bwyllgorau'r modd i deithio, yn genedlaethol a rhyngwladol, er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer eu hymchwiliadau;

- byddem yn gweithredu rhaglen o waith gweithdrefnau mwy strwythurol ar gyfer y Pwyllgor Busnes ac Aelodau'n gyffredinol; a

- byddem yn rhoi mwy o ymdrech i weithio gyda rhanddeiliaid allanol i ehangu a gwella dealltwriaeth am weithdrefnau, biliau, ymchwiliadau, deddfwriaeth ddrafft ac ymgynghoriadau perthnasol er mwyn cryfhau'r ymgysylltiad â gweithgareddau'r Cynulliad.

**Deddfwriaeth**

5. Byddai digon o arbenigedd gweithdrefnol ar gael yn y Swyddfa Ddeddfwriaeth i gynorthwyo'r Aelodau a phwyllgorau drwy gydol y broses ddeddfwriaethol heb fod ansawdd nac argaeledd y cymorth hwnnw'n mennu dim ar y gwaith craffu a ddarperir gan y Cynulliad.

6. Byddai cymorth ar gyfer deddfwriaeth Breifat Aelodau'n cael blaenoriaeth, yn hytrach na'i fod yn elfen sy'n ychwanegol at swyddi sy'n bodoli, sydd eisoes o dan faich gwaith, drwy greu tîm cymorth pwrpasol.

**Y Gwasanaeth Ymchwil**

7. Byddai arbenigedd polisi dilys yn cael ei recriwtio er mwyn cryfhau'r gwasanaeth ymchwil mewn sawl maes – ym maes cyllid cyhoeddus ac ystadegau, polisi iechyd a pholisi tai fel y rhai mwyaf brys.

8. Y mae enghreifftiau o'r math o waith y byddem yn ei wneud heddiw gyda rhagor o adnoddau yn cynnwys rhagor o ymchwil trylwyr a rhagweithiol i:

- ddeddfwriaeth berthnasol yr UE/DU;
- cynigion cydsyniad deddfwriaethol (yn debygol o gynyddu'n sylweddol o ran nifer o ganlyniad i'r refferendwm);
- dadansoddiad ac asesiad ar ôl deddfu;
- gwaith cyrff annatganoledig sy'n berthnasol i Gymru;
- modelau ariannu gwahanol ar gyfer datganoli; ac
- ariannu seilwaith yng nghyd-destun lleihau cyllideb gyfalaf.

**Gwasanaethau Cyfreithiol**

9. Darperir cymorth gan y gwasanaeth cyfreithiol i ochr fusnes y Cynulliad (deddfwriaeth, craffu ac ymchwil), i'r ochr weithredol (staff, adeiladau a chyfleusterau) ac mewn cysylltiad â gweithgareddau corfforaethol (rhyddid gwybodaeth, gwarchod data ac ati.)

10. Mae gwasanaethau cyfreithiol ym mhob un o'r meysydd hyn yn cael eu darparu yn ôl y galw. Bydd y galw hwnnw'n cynyddu. Mae tri maes yn benodol yn debygol o dyfu'n sylweddol. Bydd swm y ddeddfwriaeth (yn cynnwys y ddeddfwriaeth a gaiff ei hyrwyddo gan Aelodau unigol a chan bwyllgorau) yn cynyddu. Mae'n debygol y bydd y Cynulliad yn ymgysylltu'n agosach ynghylch materion deddfwriaeth Ewropeaidd mewn ymateb i bwysigrwydd cynyddol yr egwyddor o sybsidiaredd. Bydd angen rhagor o gymorth ar weithgareddau caffael y Comisiwn fel y daw cyfraith caffael gyhoeddus yn fwy cymhleth a chyfreithgar.

11. Byddai angen cynyddu maint y gwasanaeth cyfreithiol ychydig er mwyn ateb y galw cynyddol hwn. Byddai angen oddeutu dau gyfreithiwr ychwanegol, ynghyd â'r cyfleuster i ddefnyddio sgiliau drafftio deddfwriaethol allanol i ddiwallu'r galw'n llwyr (sy'n fras yn gynnydd o oddeutu 25 y cant yng nghyllideb bresennol y gwasanaeth cyfreithiol).

**Gwaith rhyngwladol**

12. Byddai adnoddau ychwanegol yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i gyflawni ei amcanion strategol o gael a rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth well o arferion seneddol rhyngwladol da. Gellid cyflawni hyn drwy gynorthwyo datblygiad democratiaethau sy'n tyfu mewn rhannau eraill o'r byd, ymweld â seneddau rhyngwladol pan fyddwn yn ystyried ein gwaith yn deddfu ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Byddai cyfleoedd i'r Cynulliad groesawu cynadleddau rhyngwladol gyda siaradwyr nodedig er mwyn arddangos gwaith y Cynulliad lle y mae'n gosod patrwm ar y llwyfan rhyngwladol ee dinasyddion yn cymryd rhan; e-ddemocratiaeth; craffu'n effeithiol ar y Llywodraeth; a democratiaeth gynaliadwy a thryloyw.

**Gwella technoleg a buddsoddi er mwyn arbed (gwariant ychwanegol posibl o £1.0m y flwyddyn pan fyddai ar waith yn llawn)**

**Technoleg**

13. Rydym wedi creu llwyfan annibynnol i ni ein hunain a thros y tair blynedd nesaf, byddai modd i ni drawsnewid y modd rydym yn darparu gwasanaethau TGCh, gyda rhagor o hyblygrwydd a rheolaeth, gan symud oddi wrth ddarparwr gwasanaethau TGCh mawr efallai, tuag at ddull mwy modwlar. Eto, gallai hyn roi cyfleoedd i fusnesau llai a mwy lleol. Fodd bynnag, byddai angen i ni brynu neu ddatblygu mwy o sgiliau'n fewnol a gallai agweddau ar y fath ddull fod yn fwy drud na'r gwasanaeth cyfredol, nad yw wedi'i deilwra'n benodol.

**Buddsoddi er mwyn arbed**

14. Mae meysydd lle y gallem weithio'n fwy doeth i sicrhau arbedion, gan symleiddio prosesau, defnyddio systemau i gymryd lle gweithgaredd dynol, cynyddu ein gallu i reoli newid ac ychwanegu gwerth at weithgarwch gweithredol. Byddai modd i un system integredig gymryd lle ein systemau ar wahân presennol ar gyfer Adnoddau Dynol a'r Gyflogres, gan leihau gweithgaredd trafodion a lleihau costau gorbenion.

**Bod ar flaen y gad ym meysydd cydraddoldeb, cynaliadwyedd, gwasanaethau dwyieithog ac fel cyflogwr o ddewis (gwariant ychwanegol posibl o £1.0m y flwyddyn pan fyddai ar waith yn llawn)**

**Cynaliadwyedd**

15. Byddwn yn gosod targed i ni ein hunain i leihau allyriadau carbon yr ystad o 40 y cant erbyn 2015. Rydym wedi gwneud cynnydd rhagorol hyd yma drwy gamau cymharol rwydd, ond bydd angen i ni fuddsoddi i gynnal y gwaith hwn. Byddai buddsoddi rhagor yn galluogi'r Cynulliad i fod ar flaen y gad yn y maes hwn, i ddarparu ein rhaglen yn gynt, a rheoli ein costau ynni dros amser (neu fel arall mae costau ynni yn debygol o godi yn y dyfodol).

**Gwasanaethau Dwyieithog**

16. Pe bai mwy o arian yn cael ei roi i ddarparu ein Cynllun Ieithoedd Swyddogol arfaethedig byddai modd darparu gwasanaethau gwell yn gynt ac o bosibl gyda rhagor o ddylanwad.

**Cydraddoldebau**

17. Gallem anelu at hygyrchedd i'r ystad a deunydd cyfathrebu i fod y gorau posibl, a darparu mwy o gyfleoedd i fwy o bobl gael eu cyflogi yma, efallai drwy gefnogi prentisiaethau strwythuredig neu raglenni profiad gwaith. Hefyd byddai modd i ni ddarparu rhaglen newydd i ehangu ymgysylltiad y cyhoedd â gwleidyddiaeth a democratiaeth.

**Cyflogwr o ddewis**

18. Rydym yn darparu cyfleusterau a chyfleoedd da i bawb, fel y gwelir drwy ein statws Buddsoddwr mewn Pobl gradd Aur, ond mae ffyrdd y gallem wella. Gallem ymestyn ein cyfleusterau hyfforddi a datblygu ymhellach, gan gynnig mwy i gynorthwyo staff a chontractwyr, i hyrwyddo'r Cynulliad fel lle da i weithio a chynnig mwy o gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer grwpiau dan anfantais.

19. Byddai staff yn ymgymryd â'r hyfforddiant y mae ei angen arnynt er mwyn gwella yn eu rolau. Er bod symiau digonol ar gael o hyd i hyfforddi a datblygu staff, rydym wedi torri'n ôl ac nid oes modd i ni elwa o lawer o gyfleoedd datblygu a fyddai'n ein helpu i gynyddu galluoedd ein staff.

20. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth am godiad cyflog ar gyfer staff y Cynulliad yng nghyllidebau'r blynyddoedd nesaf. Mae codiad cyflog o 1 y cant yn costio oddeutu £150,000.

**Buddsoddi yn ystad y Cynulliad, diogelwch a gwell dulliau caffael (gwariant ychwanegol posibl o £1.0m y flwyddyn pan fyddai ar waith yn llawn)**

**Diogelwch**

21. Mae cynlluniau presennol yn cynnwys arbedion targed o £150,000 ar y cytundeb gwasanaeth gyda Heddlu De Cymru. Byddai modd atal y toriadau hyn, er y byddem yn parhau i geisio gwerth am arian o hwn a'n holl wasanaethau a gontractiwyd. Hefyd byddai modd i ni gynyddu nifer a hyblygrwydd ein swyddogion diogelwch er mwyn sicrhau ein bod yn ddibynadwy o ran amseroedd agor adeiladau a rhoi mwy o amser i ddatblygiad personol unigolion.

**Ystad y Cynulliad**

22. Byddai modd defnyddio'n hadeiladau nodedig yn ehangach o wneud addasiadau, i gynhyrchu rhagor o incwm. Er enghraifft, byddai uwchraddio cegin y Pierhead yn hwyluso defnyddio'r ganolfan ar gyfer swyddogaethau mwy masnachol ar adegau pan na fydd y Cynulliad angen defnyddio'r cyfleusterau.

**Caffael a rheoli contractau**

23. Rydym yn buddsoddi rhagor mewn caffael er mwyn sicrhau bod ein dulliau llywodraethu'n gryf yn y maes hwn, ond gellid gwella ein perfformiad ymhellach drwy gynyddu sgiliau a defnyddio mwy o adnoddau yn y maes. Gallem fod yn fwy creadigol ynglŷn â chyflwyno cyfleoedd i gontractio gyda'r Cynulliad, drwy sicrhau mwy o ddulliau cynaliadwyedd, amrywiaeth a chynhyrchu lleol, gan helpu i ehangu lle yn y farchnad pan fo'n bosibl.

**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2011 (Papur 4 Rhan 1)**
**Gwasanaethau dwyieithog**

**Dyddiad:** 14 Gorffennaf 2011
**Amser:** 12.00–14.00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Non Gwilym, estyniad 8647

# Gwasanaethau dwyieithog

## 1.0 Diben a chrynodeb o'r materion

1.1. Disgrifia'r papur hwn nifer o faterion yn ymwneud â'n gwasanaethau dwyieithog, gan gynnwys cyfieithu Cofnod y Trafodion, yr ymchwiliad gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a'r cynigion ar gyfer darpariaethau deddfwriaethol.

## 2.0 Argymhellion

2.1. Gofynnir i Gomisiwn y Cynulliad roi eu sylwadau a chytuno ar:

- y ffordd ymlaen ar gyfer Cofnod y Trafodion (paragraffau 5.1 i 5.11);
- yr ymateb drafft i'r ymchwiliad gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (Atodiad A);
- Bil (Drafft) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) (Atodiad B);
- y Cynllun Ieithoedd Swyddogol drafft (Atodiad C); a
- yr amserlen ar gyfer ymgynghori ar y Bil drafft a'r Cynllun drafft (Atodiad CH).

Gwasanaethau dwyieithog

**Cefndir**

## 3.0 Cronoleg

3.1. Cafodd y penderfyniad i roi'r gorau i gyfieithu Cofnod y Trafodion o'r Saesneg i'r Gymraeg ei wneud gan y Comisiwn yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2009. Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2009, ar ôl cael sylwadau gan Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd, cytunodd y Comisiwn i barhau i gyfieithu trafodion y Cyfarfod Llawn o'r Saesneg i'r Gymraeg o fewn 3-5 diwrnod (yn hytrach nag o fewn 24 awr fel yr arferid ei wneud), nes ei fod wedi clywed argymhellion panel annibynnol a oedd i gael ei sefydlu ar ddechrau 2010 i adolygu ein gwasanaethau dwyieithog, gan gynnwys Cofnod y Trafodion, ac wedi iddo ystyried yr argymhellion hynny.

3.2. Trafodwyd adroddiad ac argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol ar Wasanaethau Dwyieithog gan y Comisiwn yn ei gyfarfod ym mis Mai 2010. Dywedai'r argymhellion y dylai'r Cynulliad gynyddu'i wasanaethau dwyieithog er mwyn gwella'i ymgysylltiad â'r cyhoedd a'i wasanaethau i Aelodau. Yn hytrach nag adfer y broses o gyfieithu'r Cofnod yn llawn, argymhellodd y Panel 'bod y Cofnod testun gair am air o drafodion ond yn cael ei gyhoeddi yn yr iaith/ieithoedd gwreiddiol a draddodwyd, ynghyd â chofnod o'r cyfieithiad ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg, fel y'i traddodwyd yn y Siambr ar y pryd'. Awgrymodd y Panel hefyd y dylid datblygu cyfres o ddulliau o gael mynediad at y trafodion sydd wedi'u seilio ar dechnoleg, a fyddai'n sicrhau bod trafodion y Cynulliad yn fwy hygyrch i bawb. Yn unol ag argymhelliad y Panel, daeth yr arfer o gyfieithu cyfraniadau Saesneg i'r Gymraeg yn y Cyfarfod Llawn i ben o fis Medi 2010.

3.3. Cynigiodd y Panel 29 o argymhellion, am bob agwedd ar weithrediadau dwyieithog y Comisiwn, a derbyniwyd pob un ohonynt gan y Comisiwn. Mae holl argymhellion y Panel naill ai wedi eu gweithredu'n gyflawn neu y mae camau sylweddol wedi'u cymryd i'w gweithredu. Mae llawer wedi'u hymgorffori yn ein Cynllun Ieithoedd Swyddogol drafft. Nodir hynt y 29 argymhelliad yn eu cyfanrwydd yn Atodiad D.

Gwasanaethau dwyieithog

3.4. Yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd 2010, cytunodd y Comisiwn ar gynigion i wneud deddfwriaeth i osod dyletswyddau'r Cynulliad a'r Comisiwn mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau dwyieithog ar sail statudol gadarn. Cytunwyd hefyd ar drefniadau i lunio Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd o dan y fframwaith deddfwriaethol arfaethedig.

3.5. Cytunodd y Comisiwn i ymgynghori'n eang ar y cynigion newydd hyn, ond yn ei gyfarfod ym mis Mawrth eleni, penderfynodd y byddai'n amhriodol ymgynghori ar fater a oedd o gymaint o ddiddordeb i'r cyhoedd, yn ystod cyfnod diddymu'r Cynulliad, ac y dylid cynnal yr ymgynghoriad yn yr haf.

**4.0 Ymchwiliad Bwrdd yr Iaith Gymraeg**

4.1. Ysgrifennodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg at y Prif Weithredwr ar 24 Medi 2009 yn dweud ei fod am gynnal ymchwiliad ffurfiol i benderfyniad y Comisiwn i roi'r gorau i gynnwys cyfieithiad i'r Gymraeg o gyfraniadau a wnaed yn Saesneg yn y Cyfarfod Llawn yn y Cofnod o Drafodion, ac i p'un a yw hyn yn torri amodau Cynllun Iaith Gymraeg y Cynulliad ai peidio.

4.2. Gan fod y Panel Adolygu Annibynnol ar Wasanaethau Dwyieithog (y Panel Adolygu) wedi'i sefydlu a bod y Cofnod o Drafodion cwbl ddwyieithog wedi'i adfer hyd nes y cafwyd casgliadau'r Panel, ni fu gweithredu pellach gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar y pryd. Ond, ar ôl gweithredu penderfyniad gwreiddiol y Comisiwn ym mis Medi 2010, edrychodd y Bwrdd ar y mater eto ac, ym mis Tachwedd 2010, lansiodd ei ymchwiliad ffurfiol.

4.3. Dadl y Comisiwn oedd:

- mai Cynllun y Cynulliad oedd y Cynllun yn hytrach na Chynllun y Comisiwn, gyda'r canlyniad fod y mater y tu allan i bwerau statudol Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ymchwilio; ond
- beth bynnag fo'r sefyllfa, nad oedd y newid i'r trefniadau ar gyfer cyfieithu'r cofnod mewn gwirionedd yn mynd yn groes i ofynion y Cynllun a oedd, pan ddarllenwyd hwy yng ngoleuni'r trafodaethau gyda'r Bwrdd pan oedd y Cynllun yn cael ei baratoi, wedi'u bwriadu i'w gwneud yn ofynnol bod pob cyfraniad yn

Saesneg, p'un ai fod hynny mewn Cyfarfod Llawn neu mewn cyfarfod pwyllgor, yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg.

4.4. Cytunodd y Comisiwn, er ei fod yn glynu at ei safiad nad oedd gan y Bwrdd bwerau statudol i ymchwilio i dorri honedig ar amodau'r Cynllun, i gydweithredu'n llwyr â'r ymchwiliad, a chyhoeddwyd canfyddiadau'r ymchwiliad ar 17 Mehefin 2011. Canfu'r Bwrdd bod y Comisiwn wedi methu â chydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg drwy 'beidio darparu Cofnod cwbl ddwyieithog o drafodion Cyfarfod Llawn y Cynulliad'. Gwnaeth y Bwrdd bum argymhelliad, sef:

- y dylai'r Comisiwn ddarparu 'Cofnod trafodion y cyfarfod llawn yn gwbl ddwyieithog yn unol â'r arfer cyn Medi 2009' ar unwaith;
- y dylai ymchwilio sut y gellid gwneud hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol a darbodus bosibl, gan ddefnyddio technoleg gwybodaeth i helpu i hwyluso hyn;
- er y dylid ymchwilio i ddulliau eraill o ddarparu'r cofnod, dylid parhau i ddarparu Cofnod ysgrifenedig llawn sy'n gwbl ddwyieithog yn y cyfamser;
- dylid annog y defnydd o'r Gymraeg gan Aelodau'r Cynulliad a staff; a
- dylai'r Comisiwn ymgynghori'n gynnar â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynghylch cynigion sy'n debygol o effeithio ar y Cynllun Iaith Gymraeg.

4.5. Mae'r Llywydd, Aelodau'r Cynulliad a'r Prif Weithredwr wedi cael sylwadau amrywiol gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg dros y chwe mis diwethaf yn gofyn am adfer Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog cyn gynted â phosibl. Cafwyd cais o dan amodau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i gael gweld gohebiaeth y Comisiynwyr mewn cysylltiad â'r penderfyniad i newid y trefniadau ar gyfer cyfieithu Cofnod y Trafodion, a datgelwyd yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani (yn amodol ar rai eithriadau) ym mis Mai 2011. Mae rhannau o'r wasg a'r cyfryngau Cymraeg hefyd wedi cymryd diddordeb parhaus yn y mater. Ar 10 Mehefin 2011, cyflwynwyd deiseb yn galw am adfer

Gwasanaethau dwyieithog

Cofnod cwbl ddwyieithog o drafodion y Cynulliad gan Catrin Dafydd o Gymdeithas yr Iaith, ac mae dros 1,000 o lofnodion ar y ddeiseb hyd yn hyn.

4.6. Mae ymateb drafft i adroddiad y Bwrdd yn amgaeedig fel Atodiad A. Mae hwn, wrth gwrs, yn ddibynnol ar ystyriaeth y Comisiwn o'r materion dan sylw a'r penderfyniadau y mae'n eu gwneud yn y cyfarfod hwn.

## 5.0 Cofnod y Trafodion

5.1. Roedd adroddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn argymell: 'Yn syth ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad, dylai'r Comisiwn ddarparu Cofnod trafodion y cyfarfod llawn yn gwbl ddwyieithog yn unol â'r arfer cyn Medi 2009.'

5.2. Wrth ystyried sut y bydd yn ymateb, bydd y Comisiwn yn ystyried:

- y cyngor ar statws ei Gynllun Iaith (paragraffau 7.1 a 7.2);
- cost unrhyw benderfyniad i adfer y broses o gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, o ran y gyllideb sydd ar gael am weddill y flwyddyn hon a'r cyllidebau y mae'n eu pennu ar gyfer 2012-13 a thu hwnt;
- unrhyw effaith, oherwydd y goblygiadau cost, ar gyflawni argymhellion eraill y Panel annibynnol a gynlluniwyd i gryfhau'r modd rydym yn darparu gwasanaethau dwyieithog; ac
- nad yw cyfraniadau Saesneg i gyfarfodydd Pwyllgor erioed wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg. Efallai y bydd y Comisiwn am gofio hefyd bod gennym ddull cyffredin o gyfieithu trafodion y Cyfarfod Llawn a phwyllgorau ar hyn o bryd. Yn amlwg, byddai rhagor o oblygiadau o ran cost pe byddai trafodion y pwyllgorau yn cael eu cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg.

5.3. Mae cost cyfieithu'r Cofnod yn dibynnu ar dri ffactor amrywiol, sef: nifer y geiriau a siaredir, yr amser a bennir ar gyfer gwneud y cyfieithiad, a chost cyfieithu'r geiriau hynny (ee, y gyfradd am bob 1,000 o eiriau)

Gwasanaethau dwyieithog

5.4. Cododd gwir gost cyfieithu'r Cofnod o'r Saesneg i'r Gymraeg, heb TAW, yn y Cynulliad diwethaf o ychydig dros £200,000 yn 2006-07 i oddeutu £290,000 yn 2008-09. Cafwyd cynnydd yn bennaf oherwydd amseroedd eistedd hwy yn y Cyfarfod Llawn. Daeth y gost i lawr i £220,000 yn 2009-10 oherwydd, am ran sylweddol o'r flwyddyn, roedd angen cyfieithiad o fewn pum diwrnod gwaith yn unig (am gost o £84 am bob 1,000 gair) yn hytrach na thros nos (£127 am bob 1,000 gair).

5.5. Pe bai'r Comisiwn yn dymuno adfer y broses o gyfieithu'r Cofnod o'r Saesneg i'r Gymraeg ar ryw ffurf neu'i gilydd, byddai modd defnyddio tri dull i wneud y gwaith cyfieithu, neu gellid eu cyfuno. Y dulliau fyddai:

- anfon y gwaith cyfieithu i gyflenwyr allanol;
- defnyddio cyfieithu peirianyddol ynghyd â gwasanaeth prawfddarllen a sicrhau ansawdd;
- defnyddio ein staff ein hunain i gyfieithu.

*Cyfieithu allanol*

5.6. Yn 2010, 45,000 oedd nifer y geiriau a lefarwyd mewn Cyfarfod Llawn ar gyfartaledd ac, ar gyfartaledd, roedd 36,000 o'r geiriau hynny yn Saesneg. Bu'r Cyfarfod Llawn yn y Cynulliad hwn yn hwy hyd yn hyn – oddeutu 50,000 o eiriau i gyd – ond mae'r cyfrifiadau yn y papur hwn wedi'u seilio ar niferoedd cyfartalog y flwyddyn ddiwethaf. Byddai'r gost flynyddol o gyfieithu 36,000 o eiriau o bob Cyfarfod Llawn mewn blwyddyn o fewn pum diwrnod gwaith, pan fyddai'r Cynulliad yn eistedd am 33 wythnos, yn costio oddeutu £200,000 heb TAW (£240,000 yn cynnwys TAW).

5.7. Byddai modd lleihau'r symiau hyn pe byddai'n dderbyniol gosod amseroedd hwy ar gyfer dychwelyd y gwaith, er y byddai'r gost isaf bosibl, gan gynnwys TAW, yn fwy na £175,000 o hyd.

*Adnoddau mewnol*

5.8. Byddai ymgymryd â'r gwaith hwn yn ei gyfanrwydd yn fewnol yn ddrutach. Ar gyfartaledd, byddai cyfieithydd profiadol yn

cyfieithu oddeutu 2,500 gair y dydd. Felly, byddai angen cael saith neu wyth o gyfieithwyr llawn amser i wneud y gwaith yn ystod yr wythnosau mae'r Cynulliad yn eistedd, a fyddai'n costio oddeutu £350,000.

*Cyfieithu peirianyddol*

5.9. Yr wythnos ddiwethaf, cynhaliwyd ymarfer peilot gennym i ganfod a allai gwasanaeth cyfieithu peirianyddol ar y we fod yn ddewis amgen posibl i waith cyfieithu a gomisiynir yn allanol. Llwythwyd adran gyda 5,000 o eiriau o gofnod y Cyfarfod Llawn yn llwyddiannus ar *Google Translate* a gwiriwyd ansawdd y cyfieithiad gan aelod o staff profiadol. O ganlyniad, rydym yn amcangyfrif y byddai angen gwneud 36 awr o waith prawfddarllen ar gyfer Cyfarfod Llawn arferol, a fyddai'n costio £39 yr awr. Byddai'r gost flynyddol felly oddeutu £110,000, gan gynnwys TAW.

5.10. Er bod rhaglen gyfieithu Google yn rhad ac am ddim i ddefnyddwyr ar hyn o bryd, yn ddiweddar, cyhoeddodd Google ei fwriad i ddileu'r rhaglen[1] a'i bod yn bosibl y bydd gwasanaeth y telir amdano yn cymryd ei le. Pe bai'r Comisiwn yn dymuno dewis yr opsiwn hwn, dylid cymryd yn ganiataol y byddai cost ychwanegol am ddefnyddio gwasanaeth y telir amdano. Er gwaethaf cyhoeddiad Google, byddai'n strategaeth beryglus dibynnu ar unrhyw raglen rad ac am ddim ar gyfer darparu'r Cofnod. Cyn cyfarfod y Comisiwn, byddwn yn ceisio cael rhagor o wybodaeth ynghylch a oes unrhyw wasanaeth cyfatebol diogel ar gael a faint y mae'n ei gostio.

5.11. Mae'r amrywiadau ar yr opsiynau hyn a gostiwyd ar gyfer darparu Cofnod o'r Trafodion sy'n gwbl ddwyieithog wedi'u nodi yn Atodiad DD.

**6.0 Bil (Drafft) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol)**

6.1. Ar hyn o bryd, mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi:

[1] http://googlecode.blogspot.com/2011/05/spring-cleaning-for-some-of-our-apis.html

Gwasanaethau dwyieithog

*'The Assembly must, in the conduct of Assembly proceedings, give effect, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality.'*
(Adran 35(1))

ac

*'In the exercise of the functions of the Assembly Commission effect must be given, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality.'*
(Atodlen 2, paragraff 8(3))

6.2. Mae'r ddadl ynghylch penderfyniad y Comisiwn i newid y trefniadau ar gyfer cyfieithu Cofnod y Trafodion, ac yn benodol yr ansicrwydd ynghylch sefyllfa gyfreithiol y Cynllun Iaith Gymraeg a'r berthynas rhwng y Cynulliad, y Comisiwn, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Gweinidogion Cymru, wedi arwain at roi ystyriaeth i egluro a chryfhau'r darpariaethau deddfwriaethol sy'n ymwneud â sefyllfa'r iaith Gymraeg ym materion y Cynulliad a'r Comisiwn.

6.3. Rhoddwyd ysgogiad pellach i'r mater hwn gan y newidiadau yn y gyfraith a wnaed gan Fesur arfaethedig y Gymraeg, a ddaeth yn gyfraith eleni, a gwaith y Panel Adolygu Annibynnol ar Wasanaethau Dwyieithog (y Panel Adolygu).

6.4. Er nad oedd darpariaethau deddfwriaethol manwl o fewn cylch gwaith penodol y Panel Adolygu na'i argymhellion, teimlai'r Panel Adolygu ei bod yn werth dweud ei fod: 'yn credu ei bod hi'n werth ymchwilio ymhellach i rinweddau Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd)'. Seiliwyd y farn hon ar dystiolaeth a gyflwynwyd gerbron y Panel Adolygu ynghylch y modd roedd y dyletswyddau sy'n ymwneud â darpariaeth ddwyieithog yn cael eu diffinio yn neddfwriaeth gwledydd dwyieithog neu amlieithog eraill fel Canada, Iwerddon a'r Swistir.

6.5. Nid yw'r fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli darpariaeth gwasanaethau dwyieithog y Cynulliad wedi'i ddiweddaru oherwydd ei fod wedi'i fodelu ar Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

(a ddisodlwyd bellach gan Fesur y Gymraeg 2011). Yn unol ag egwyddorion cyfansoddiadol sylfaenol, nid yw'r Cynulliad na'r Comisiwn yn ddarostyngedig i'r trefniadau newydd hyn ond maent yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau a osodwyd gan Ddeddf 2006 (gweler paragraff 6.1 uchod).

6.6. Am y rhesymau hyn, cytunodd y Comisiwn i gynnig deddfwriaeth newydd i osod dyletswyddau'r Cynulliad a'r Comisiwn mewn perthynas â darparu gwasanaethau dwyieithog ar sail statudol gadarn. Amlinellir y darpariaethau hyn yn Atodiad B fel Bil (Drafft) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol), a gofynnir i'r Comisiwn gymeradwyo eu cynnwys.

**7.0 Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol arfaethedig newydd**

7.1. Adolygwyd y Cynllun Iaith Gymraeg presennol yng ngoleuni adroddiad y Panel Adolygu, cynigion deddfwriaethol Bil (Drafft) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol), ein profiadau dros gyfnod y Trydydd Cynulliad, yr ymgynghoriad â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac arferion da mewn deddfwrfeydd dwyieithog eraill. Gallai'r Cynllun, o gael ei fabwysiadu, gael ei adolygu o dro i dro yn amodol ar yr un gofynion ar gyfer ymgynghori a chymeradwyo gan y Cynulliad ag sy'n berthnasol i'r Cynllun gwreiddiol ei hun.

7.2. Mae'r Cynllun (Atodiad C):

- yn nodi'n glir bod y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol yn y Cynulliad ac y dylid eu trin yn gyfartal;
- yn nodi'r trefniadau ymarferol i alluogi'r Cynulliad i weithredu'n ddwyieithog;
- yn sicrhau hawl pawb sydd am gymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad (fel tystion yn ogystal ag Aelodau) i wneud hynny yn y naill iaith neu'r llall o ieithoedd swyddogol y Cynulliad;
- yn nodi sut y bydd y Cynulliad yn darparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd;

Gwasanaethau dwyieithog

- yn amlinellu sut y bydd trefniadau corfforaethol y Cynulliad yn gwireddu ein huchelgais i ddarparu gwasanaethau dwyieithog ac yn cefnogi'r uchelgais honno; ac

- yn egluro ein gweithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch diffyg cydymffurfio â'r Cynllun, gan Aelodau neu gan y cyhoedd.

**8.0 Ymgynghori**

8.1. Cynigir bod ymgynghoriad cyhoeddus ar y Bil drafft a'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol drafft yn cael ei gynnal o fis Awst i fis Hydref 2011, fel y nodir yn Atodiad CH. Yna byddai modd ystyried y sylwadau a gwneud gwelliannau i'r Cynllun drafft dros dymor yr hydref, cyn cyflwyno'r Bil ar gyfer craffu arno.

Barnwyd nad yw r papur hwn yn addas i w gyhoeddi yn unol â'rheolau r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Barnwyd nad yw r papur hwn yn addas i w gyhoeddi yn unol ârheolau r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Barnwyd nad yw r papur hwn yn addas i w gyhoeddi yn unol ârheolau r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Barnwyd nad yw r papur hwn yn addas i w gyhoeddi yn unol âr heolau r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Barnwyd nad yw r papur hwn yn addas i w gyhoeddi yn unol âr heolau r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Barnwyd nad yw r papur hwn yn addas i w gyhoeddi yn unol ârheolau r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2011 (Papur 5)**
**System rheoli achosion y Cynulliad**
**(cofrestrau etholwyr)**

**Dyddiad:** Dydd Iau 14 Gorffennaf 2011
**Amser:** 12.00–14.00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw a rhif ffôn yr awdur:** Dianne Bevan, estyniad 8991

## System rheoli achosion y Cynulliad

### 1.0 Diben a chrynodeb o'r prif faterion

1.1 Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiwn am system rheoli achosion y Cynulliad ("y sytem gwaith achos").

1.2 Yn ei gyfarfod ar 16 Mehefin 2011, gwahoddwyd y Comisiwn i ystyried newid y rheoliadau a fyddai'n caniatáu i staff y Cynulliad (yn ogystal ag Aelodau ar hyn o bryd) lwytho'r gofrestr o etholwyr ar y system gwaith achos.

1.3 Gofynnodd y Comisiwn am ragor o wybodaeth am nifer yr Aelodau sy'n defnyddio'r system gwaith achos, y costau sy'n gysylltiedig â'r system hyd yn hyn, goblygiadau defnyddio adnoddau'r Comisiwn, a chost a diogelwch y data wrth ganiatáu i staff y Comisiwn wneud cais am ddata oddi ar gofrestrau etholwyr, a chael mynediad at y wybodaeth honno, a'r risg i'r data gael ei ddefnyddio i roi mantais i blaid wleidyddol.

### 2.0 Argymhellion

2.1 Gwahoddir Comisiwn y Cynulliad i nodi'r wybodaeth a ddarparwyd a phenderfynu a ddylid gwneud cais i'r Comisiwn gael ei restru yn *Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001*, a fydd yn golygu bod Swyddogion Canlyniadau yn

gallu anfon cofrestrau etholwyr yn uniongyrchol at staff y Cynulliad yn hytrach na thrwy Aelodau Cynulliad unigol.

## 3.0 Trafodaeth

3.1 Bwriad y system gwaith achos yw cynnig ffordd gyson o weithio i Aelodau a staff cymorth a allai ddisodli nifer o systemau gwahanol nad oes modd i'r Cynulliad ddarparu cymorth ar eu cyfer. Y system hon oedd y cyntaf o'i bath i unrhyw gorff seneddol yn y Deyrnas Unedig. Roedd datblygu'r system yn gam arloesol, ond roedd ansicrwydd ynghylch faint o ddefnydd fyddai'n ei chael gan mai'r Aelodau oedd yn cael dewis defnyddio'r system a'i peidio.

### Nifer y defnyddwyr ar y system

3.2 Ar hyn o bryd, mae'r system gwaith achos yn rhedeg i'w llawn gapasiti o 204 o drwyddedau defnyddwyr. Ers i'r system gael ei hintegreiddio'n llawn i'r rhwydwaith TGCh newydd, ac yn dilyn etholiad y Pedwerydd Cynulliad, mae'r ceisiadau am gyfrifon newydd wedi cynyddu. Disgwylir i nifer y defnyddwyr ddisgyn cyn hir wrth i drwyddedau Aelodau nad ydynt yn dychwelyd, a'u staff cymorth, gael eu hail-ddefnyddio ar ôl y cyfnod dirwyn i ben. Mae'r defnydd o'r system wedi cynyddu tua 70 y cant dros y pedwar mis diwethaf, fel y nodir isod:

| Cyfnod | Gweithgarwch yn y system |
|---|---:|
| O 1 Tachwedd 2010 i 14 Chwefror 2011 | 1,892 |
| O 15 Chwefror 2011 i 29 Mehefin 2011 | 2,716 |

3.3 Ar 1 Gorffennaf 2011, roedd dros 4,700 o achosion ar y system gwaith achos, a oedd yn cael eu rhannu rhwng 41 o swyddfeydd Aelodau Cynulliad.

### Costau'r prosiect

3.4 Datblygwyd y cynnig gan ddefnyddio cronfeydd cychwyn prosiectau gwerth £50,000. Amcangyfrifwyd costau ychwanegol o £200,000 a oedd yn dwyn i ystyriaeth nifer y trwyddedau a oedd yn angenrheidiol, costau'r darparwr a chostau i ddatblygu'r dechnoleg. Cost terfynol y prosiect oedd £414,000. Roedd rhesymau dros y cynnydd yn cynnwys:

- angen mwy o drwyddedau na ragwelwyd (er y trafodwyd prisiau'r trwyddedau o flaen llaw a chafwyd gostyngiad yn y pris);
- cynnydd yn nifer y dyddiau rheoli prosiect a oedd yn angenrheidiol;
- angen gwaith datblygu pellach gan y darparwyr oherwydd yr heriau cyfreithiol a thechnegol a ddeilliodd o ofynion y defnyddwyr;
- TAW anadferadwy yn cael ei godi ar y trwyddedau defnyddwyr, yn dilyn newid mewn cyfraddau TAW na ystyriwyd ar ddechrau'r prosiect.

Ceir costau cynnal a chadw blynyddol o £43,000 hefyd, sydd wedi'u cynnwys o fewn y cyllidebau perthnasol.

**Cofrestr etholwyr a'r system gwaith achos**

3.5 Ar hyn o bryd, mae'r system gwaith achos yn cynnwys yr holl gofrestrau etholwyr yng Nghymru, a osodwyd ar y system gyda chymorth gan brif staff cymorth pob plaid wleidyddol. Nid yw'r system yn ddibynnol ar y cofrestrau etholwyr, a gallai weithio hebddynt. Fodd bynnag, mae'r data hwn yn hwyluso'r broses o wirio bod unrhyw un sy'n ysgrifennu at Aelod am gymorth yn etholwr neu o fewn rhanbarth yr Aelod.

3.6 Gofynnodd y Comisiynwyr a fyddai data etholaeth ar y system gwaith achos yn caniatáu i'r system gael ei defnyddio at ddibenion pleidiau gwleidyddol. Ni all y system gwaith achos arddweud cynnwys llythyron neu negeseuon e-bost – mater i'r Aelod dan sylw fydd hynny. O ran y potensial i'r system gael ei defnyddio at ddibenion gwleidyddol, nid yw'r system yn cefnogi defnyddio gwybodaeth oddi ar gofrestrau etholwyr er mwyn

anfon swp-lythyrau at etholwyr neu bobl sy'n byw mewn ardal neu stryd benodol.

3.7 Fodd bynnag, os yw grŵp o etholwyr yn ysgrifennu at Aelod ynghylch problem, a bod manylion eu cyfeiriadau wedi'u bwydo i'r system, gellid cynhyrchu ymateb neu'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer y grŵp hwnnw o'r system gwaith achos. Cynnwys yr ohebiaeth fydd yn diffinio a yw'r ymateb yn ddefnydd dilys o adnoddau'r Cynulliad neu yn ohebiaeth wleidyddol.

3.8 Pe byddai Comisiwn y Cynulliad yn cael ei enwi fel corff yn *Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001*, gallai staff y Cynulliad gael copïau o gofrestrau etholwyr yn uniongyrchol gan y Swyddog Cofrestru ymhob awdurdod lleol heb fod yn rhaid i Aelodau neu staff cymorth Aelodau orfod casglu a fformadu'r deunydd.

3.9 Bydd fformadu a llwytho cofrestrau etholwyr Cymru yn eu cyfanrwydd ar y system rheoli achos yn cymryd tua 30 awr. Gellir gwneud hyn unwaith y flwyddyn gan ddefnyddio adnoddau staff sydd eisioes ar gael yn y Cynulliad, heb ddim costau ychwanegol, gan ddefnyddio staff y gwasanaeth TGCh. Os yw'n well gan Aelod gael diweddariadau misol, gallant wneud cais am gopïau gan y Swyddog Cofrestru, eu fformadu, a'u hanfon ymlaen i'r gwasanaeth TGCh i'w rhoi ar y system - fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

3.10 Gofynnodd y Comisiywnyr am oblygiadau diogelwch y data os yw staff y Cynulliad yn cael y cofrestrau'n uniongyrchol gan y Swyddogion Cofrestru. Byddai'r Comisiwn yn dod yn reolwr data i'r dibenion hyn. Caiff y wybodaeth ei chasglu a'i storio mewn rhan ddiogel o'r system. Gall Aelodau a'u staff gael mynediad at y wybodaeth fel ar hyn o bryd, a byddai'n rhaid iddynt brosesu'r wybodaeth yn unol â deddfwriaeth diogelu data, ond ni fyddai hyn yn newid y sefyllfa bresennol.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bwrdd Taliadau

# Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau (Rhif 2)

Gorffennaf 2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Bwrdd Taliadau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bwrdd Taliadau

# Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau (Rhif 2)

Gorffennaf 2011

# Cynnwys

Dehongli...... ............ 2
Pennod 1: Rhagymadrodd ac egwyddorion cymorth ariannol ............ 3
Pennod 2: Rheolau cyflwyno ceisiadau ............ 6
Pennod 3 : Cyflogau'r Aelodau ............ 9
Pennod 4: Gwariant ar Lety Preswyl ............ 11
Pennod 5: Siwrneiau'r Aelodau ............ 16
Pennod 6: Costau Swyddfa ............ 25
Pennod 7: Staff cymorth Aelodau'r Cynulliad ............ 32
Pennod 8: Cymorth i Grwpiau ............ 38
Pennod 9: Cydraddoldeb a mynediad ............ 43
Pennod 10: Aelodau sy'n ymadael â'u swydd ............ 45

## Dehongli

Yn y Penderfyniad hwn:

ystyr "**Ardal Allanol**" yw'r ardal o fewn ffiniau rhanbarthau etholaethol Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru fel y maent yn sefyll ar ddechrau pob Cynulliad;

ystyr "**Ardal Fewnol**" yw'r ardal o fewn ffiniau rhanbarthau etholaethol Gorllewin De Cymru, Canol De Cymru a Dwyrain De Cymru fel y maent yn sefyll ar ddechrau pob Cynulliad;

ystyr "**blwyddyn**" yw'r 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

ystyr "**Caerdydd**" yw unrhyw fan o fewn cylch pum milltir o gwmpas adeilad y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd;

ystyr "**cyflog**" yw'r swm gros sy'n daladwy i Aelod cyn didynnu unrhyw beth er enghraifft treth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol;

ystyr "**y Ddeddf**" yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006;

ystyr "**Prif Gartref**" yw'r cartref y mae Aelod wedi'i gofrestru gyda'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau;

ystyr "y **Prif Weithredwr a'r Clerc**" yw Clerc y Cynulliad yn unol â'r diffiniad yn adran 26 o'r Ddeddf;

ystyr "**Staff**" yw Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad (oni nodir yn wahanol).

Mae i bob term arall yr un ystyr â'r termau Saesneg cyfatebol yn y Ddeddf neu, yn ôl fel y digwydd, yr un ystyr â'r termau yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad.

# Pennod 1: Rhagymadrodd ac egwyddorion cymorth ariannol

## 1.1 Rhagymadrodd

1.1.1 Mae'r Penderfyniad hwn wedi'i wneud gan Fwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Bwrdd Taliadau") o dan adran 3 o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010. Enw'r Penderfyniad hwn yw Penderfyniad Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Rhif 2) 2011 a daw i rym ar 15 Gorffennaf 2011.

1.1.2 Mae'r Penderfyniad hwn yn disodli Penderfyniad Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011.

## 1.2 Egwyddorion cymorth ariannol

1.2.1 Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ar gael ar-lein yn http://www.cynulliadcymru.org/memhome/mem-commissioner-standards/cod-ymddygiad.htm ac mae'n cynnwys nifer o argymhellion cyffredinol ynglŷn ag ymddygiad personol sydd wedi'u seilio ar y saith egwyddor a nodwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweiniad. Mae'r egwyddorion bras isod yn deillio o'r Cod Ymddygiad a dyma sail y rheolau ar gyfer gweinyddu lwfansau o dan y Penderfyniad hwn. Rhaid i Aelodau'r Cynulliad gadw at yr egwyddorion a ganlyn wrth wneud cais am y lwfansau y mae ganddynt hawl i'w cael.

## 1.3 Egwyddorion

### Gwariant

1.3.1 Dim ond am wariant y bu'n rhaid ei ysgwyddo er mwyn i ddyletswyddau'r Aelod fel Aelod Cynulliad gael eu cyflawni y caniateir i gais gael ei wneud.

### Defnyddio adnoddau

1.3.2 Rhaid i'r ceisiadau fod yn fanwl-gywir, gan adlewyrchu'r union adnoddau sydd wedi'u defnyddio ac y gwneir y cais ar eu cyfer.

**Pleidiau gwleidyddol**

1.3.3 Dim ond pan fo'r gwariant yn ymwneud ag Aelod wrth iddo gyflawni dyletswyddau Aelod Cynulliad y caiff lwfansau eu talu neu eu had-dalu. Rhaid peidio â gwneud cais am wariant sy'n ymwneud â gweithgareddau plaid wleidyddol.

**Ffynonellau eraill**

1.3.4 Rhaid i'r Aelodau beidio â gwneud cais am lwfans ar gyfer unrhyw beth y mae ganddynt yr hawl i'w geisio o unrhyw ffynhonnell arall.

**Budd personol**

1.3.5 Rhaid i'r Aelodau sicrhau na fydd ceisiadau'n arwain at fudd ariannol personol uniongyrchol neu anuniongyrchol amhriodol iddynt eu hunain nac i neb arall, gan gynnwys er lles mudiad gwleidyddol.

**Bod yn agored**

1.3.6 Rhaid i'r Aelodau ymrwymo i egwyddor bod yn agored ac yn dryloyw. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r System Cyhoeddi Lwfansau sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd am y gwariant sy'n cael ei ysgwyddo gan yr Aelodau.

**Cyfrifoldeb personol**

1.3.7 Yr Aelodau unigol sy'n gwbl gyfrifol am yr holl gostau sy'n cael eu hysgwyddo, am wneud ceisiadau ac am gadw cofnodion sy'n ddigonol i ategu ceisiadau a wneir yn unol â'r Penderfyniad hwn. Serch hynny, nid yw'r uchod yn atal y gweithgareddau hyn rhag cael eu dirprwyo i bobl eraill.

**Gwerth am yr arian a rhesymoldeb**

1.3.8 Rhaid i'r Aelodau geisio sicrhau bod unrhyw wariant a ysgwyddir yn cynnig gwerth am yr arian i'r trethdalwr, mai dyna'r opsiwn mwyaf cynaliadwy a rhesymol sydd ar gael, ac nad yw'n cael effaith negyddol ar enw da y Cynulliad neu ei Aelodau.

1.3.9 Wrth asesu a yw gwariant yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau, rhoddir sylw i sut mae unrhyw geisiadau tebyg wedi'u trin. Asesir a yw gwariant yn rhesymol ai peidio drwy gymharu â chostau yn yr ardal leol, neu o fewn Cymru, fel sy'n briodol. Er enghraifft, bydd dyfarniad ynghylch cost resymol rhentu swyddfa yn cael ei wneud

yng nghyd-destun cost rhentu swyddfa leol (ac nid drwy gymharu, dyweder, â chost rhentu swyddfa yng nghanol Llundain).

1.3.10 Derbynnir nad yr opsiwn rhataf ar gyfer eitem unigol o wariant fydd yr opsiwn mwyaf cost-effeithiol neu fwyaf rhesymol mewn ambell achos, o'i chymryd ar y cyd â ffactorau eraill. Er enghraifft, gallai prynu tocyn teithio cynharach a drutach olygu y gellir osgoi talu cost am aros dros nos: mae'n bosibl felly mai dyna fyddai'r opsiwn mwyaf cost-effeithiol ar y cyfan.

**Dogfennau**

1.3.11 Rhaid rhoi tystiolaeth ddogfennol i ategu'r ceisiadau, ac eithrio lle mae'r Penderfyniad hwn yn cadarnhau nad oes angen tystiolaeth o'r fath.

**1.4 Y broses apelio**

1.4.1 Mae unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r hawl i gael lwfans yn unol â'r Penderfyniad hwn i'w hateb, yn y lle cyntaf, gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau ond caiff Aelod, os yw'n anfodlon gyda'r penderfyniad, ofyn i'r mater gael ei gyfeirio at y Prif Weithredwr a'r Clerc i'w benderfynu. Cyn penderfynu ar unrhyw gwestiwn o'r fath, caiff y Prif Weithredwr a'r Clerc ofyn i'r Bwrdd Taliadau, os yw'n angenrheidiol neu'n ddymunol gwneud hynny, am eglurhad ynghylch sut i ddehongli'r Penderfyniad. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Prif Weithredwr a'r Clerc osgoi datgelu enw'r Aelod unigol, cyn belled ag y bo modd.

1.4.2 Er mwyn hybu sicrwydd a chysondeb wrth gymhwyso'r Penderfyniad hwn, rhaid i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau gadw a chyhoeddi cofnod o unrhyw gwestiwn a gyfeirir at y Prif Weithredwr a'r Clerc o dan baragraff 1.4.1, o'r penderfyniad a wnaed ac o'r rhesymau drosto. Rhaid i'r cofnod sy'n cael ei gyhoeddi hepgor, cyn belled ag y bo modd, unrhyw wybodaeth sy'n datgelu enw'r Aelod unigol.

**1.5 Canllawiau**

1.5.1 Cyfeirir Aelodau'r Cynulliad at y canllawiau sy'n cael eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Does dim bwriad i'r canllawiau effeithio ar gynnwys y Penderfyniad hwn. Yn hytrach, eu diben yw helpu Aelodau'r Cynulliad i ddeall y Penderfyniad

## Pennod 2: Rheolau cyflwyno ceisiadau

### 2.1 Lwfansau am ran o flwyddyn

2.1.1 Pan fo lwfans yn cael ei bennu drwy gyfeirio at derfyn ariannol ar gyfer blwyddyn, mae'r terfyn hwnnw'n cael ei ostwng mewn perthynas ag Aelod sy'n ymuno neu sy'n ymadael â'r Cynulliad ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn ar sail pro-rata. Nid yw'r Aelodau wedi'u cyfyngu i unrhyw derfyn wrth wneud cais o fis i fis cyhyd ag nad yw'r cyfanswm y maent wedi'i hawlio hyd yn hyn yn fwy na'r terfyn am y flwyddyn. Fodd bynnag, pan fo'r Aelod hwnnw'n peidio â bod yn Aelod ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn ariannol, gall hynny arwain at hawlio ad-daliad oddi ar yr Aelod hwnnw (neu at osod y gordaliad yn erbyn unrhyw hawliadau eraill) os yw'r swm y mae'r Aelod eisoes wedi'i hawlio hyd at pryd y bydd yn ymadael yn fwy na'r terfyn sydd wedi'i ostwng pro-rata. Er enghraifft, pe bai'r terfyn blwyddyn gyfan ar lwfans penodol yn £4,000, a bod Aelod wedi gwneud cais am £3,000 cyn ymadael ar ddiwedd mis Rhagfyr, byddai angen adennill gordaliad o £1,000. Bydd dull pro-rata yn cael ei ddefnyddio hefyd os bydd terfyn ariannol lwfans yn cael ei newid yn ystod y flwyddyn ariannol.

### 2.2 Os yw Aelod sy'n dychwelyd yn marw neu'n cael ei atal fel arall drwy afiechyd rhag tyngu'r llw ffyddlondeb neu rhag rhoi'r cadarnhad cyfatebol

2.2.1 Os bydd unigolyn sy'n peidio â bod yn Aelod mewn etholiad cyffredin yn rhinwedd adrannau 3 a 14 o'r Ddeddf ond sydd wedyn yn cael ei ethol yn yr etholiad hwnnw yn marw cyn tyngu'r llw ffyddlondeb neu roi'r cadarnhad cyfatebol sy'n ofynnol o dan adran 23 o'r Ddeddf, neu os yw fel arall yn cael ei atal rhag gwneud hynny, bydd Lwfans Dirwyn i Ben ar gael o dan y telerau a nodir ym mhennod 10 o'r Penderfyniad hwn.

### 2.3 Rheolau cyflwyno ceisiadau

2.3.1 Mae'r egwyddorion sy'n sail i ad-dalu costau wedi'u nodi yn adran 1.3 o'r Penderfyniad hwn. Nod y rheolau a ganlyn yw ategu'r egwyddorion sylfaenol hynny.

2.3.2 Rhaid i'r Aelodau sicrhau bod y ffurflen gais berthnasol yn cael ei llenwi'n fanwl-gywir a'i chyflwyno'n brydlon i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

2.3.3 Rhaid i eitemau sy'n costio £750 neu ragor, neu unrhyw rwymedigaeth gontractiol sydd â gwerth oes o £750 neu ragor, gael ei gyfeirio at y tîm Cymorth Busnes i Aelodau i'w cymeradwyo cyn i unrhyw gost gael ei hysgwyddo neu cyn y llofnodir contract. Er enghraifft, rhaid cyfeirio cytundeb/prydles rhentu am dair blynedd am offer swyddfa, sydd â chost flynyddol o £500, fel ei werth oes sef £1,500.

2.3.4 Rhaid cyflwyno'r anfonebau gwreiddiol a/neu'r derbynebau gwreiddiol (fel y bo'n briodol) gyda'r ceisiadau. Rhaid i'r anfonebau a/neu'r derbynebau hyn fod wedi'u cyfeirio naill ai at yr Aelod, neu at ei staff. Os digwydd fod anfoneb neu dderbynneb wedi'i chyfeirio at berson arall, rhaid cyflwyno prawf dogfennol er boddhad y tîm Cymorth Busnes i Aelodau fod y gwariant yn ymwneud â chyflawni dyletswyddau'r Aelod fel Aelod Cynulliad yn unig.

2.3.5 Nid yw'n ofynnol i'r Aelodau gyflwyno anfonebau a/neu dderbynebau ategol ynglŷn ag ad-dalu costau sy'n gysylltiedig â cheisiadau am filltiroedd am ddefnyddio cerbydau preifat. Er hynny, dim ond os yw'r Aelod yn dangos ei fod wedi teithio i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau fel Aelod Cynulliad y caiff symiau o'r fath eu talu.

2.3.6 Rhaid cyflwyno'r anfonebau a/neu'r derbynebau gwreiddiol i ategu pob cais arall sy'n gysylltiedig â theithio. Yn unol â'r egwyddorion sydd wedi'u nodi ym mharagraffau 1.3.8, 1.3.9 ac 1.3.10 ac yn adran 5.2, disgwylir i'r Aelodau deithio drwy ddefnyddio'r dull mwyaf cost-effeithiol. Disgwylir i'r Aelodau roi cyfiawnhad i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau dros unrhyw gais am siwrnai sydd ym marn y tîm y tu allan i'r egwyddorion hyn.

2.3.7 Gall methu darparu'r dogfennau angenrheidiol a/neu'r derbynebau gwreiddiol arwain at ohirio neu wrthod ad-daliad.

2.3.8 Rhaid i'r ceisiadau gael eu cyflwyno o fewn tri mis ar ôl diwedd y mis y mae'r gwariant yn perthyn iddo, oni bai bod amserlen wahanol yn cael ei rhoi gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau (er enghraifft ar ddiwedd y flwyddyn ariannol) neu oni bai bod yr Aelod yn gallu rhoi cyfiawnhad rhesymol. Mae hyn yn arbennig o bwysig os oes angen talu'n uniongyrchol i gyflenwr, er mwyn i'r taliad gael ei wneud i'r cyflenwr yn unol â pholisi Comisiwn y Cynulliad. Gall cais sy'n cael ei gyflwyno'n hwyr (ar ôl y cyfnod o dri mis), heb

reswm digonol, gael ei wrthod. Aelodau o'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau a fydd yn asesu a yw'r rhesymau dros geisiadau hwyr yn ddigonol, a gallant gyfeirio achosion lle ceir amheuaeth neu achosion lle ceir materion newydd neu ddadleuol at y Prif Weithredwr a'r Clerc i gael eu penderfynu.

2.3.9 Rhoddir terfynau amser arbennig i'r Aelodau ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol i alluogi Comisiwn y Cynulliad i gydymffurfio â'r gofynion ynglŷn â chwblhau ac archwilio'i gyfrifon blynyddol. Gall hyn arwain at amserlen fyrrach i wneud ceisiadau. Gall ceisiadau nad ydynt yn cael eu cyflwyno yn unol â'r amserlenni diwygiedig hyn gael eu gwrthod neu eu talu o lwfansau'r flwyddyn ariannol ganlynol, a hyn yn ôl disgresiwn absoliwt y Prif Weithredwr a'r Clerc.

2.3.10 Mae unrhyw gwestiwn ynghylch yr hawl i gael lwfans i'w ateb, yn y lle cyntaf, gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau, ond caiff Aelod, os yw'n anfodlon gyda'r penderfyniad, ofyn i'r mater gael ei gyfeirio at y Prif Weithredwr a'r Clerc i gael ei benderfynu yn unol â'r weithdrefn a nodir ym mharagraff 1.4.1.

## Pennod 3: Cyflogau'r Aelodau

### 3.1 Y swm sy'n daladwy

3.1.1 Y cyflog blynyddol sy'n daladwy i'r Aelodau yw £53,852, ynghyd â chyflog deiliad swydd ychwanegol os yw Aelod[1] yn gwneud un o'r swyddi sydd wedi'u rhestru ym mharagraffau 3.13 a 3.1.4. Nid yw cyflog Aelod yn daladwy nes iddo dyngu'r llw ffyddlondeb neu roi'r cadarnhad y mae'r gyfraith yn gofyn amdano yn unol ag adran 23 o'r Ddeddf.

3.1.2 Bydd Aelodau sydd hefyd yn Aelodau Seneddol neu'n Aelodau o Senedd Ewrop yn gweld gostyngiad yn eu cyflog yn y Cynulliad, yn unol ag adran 21 o'r Ddeddf, yn ôl swm sy'n hafal i ddwy ran o dair o'r cyflog sylfaenol y byddai gan yr Aelod hwnnw hawl i'w gael fel arall.

3.1.3 Mae gan Aelodau sy'n gwneud unrhyw un o'r swyddi a ganlyn hawl i gael cyflog blynyddol[2] ychwanegol fel a ganlyn:

| **Swydd** | **Cyflog Ychwanegol Deiliad y Swydd** |
|---|---|
| Y Prif Weinidog | £80,870 |
| Y Dirprwy Brif Weinidog/Gweinidogion Cymru/y Cwnsler Cyffredinol (os yw'n Aelod Cynulliad)/y Llywydd | £41,949 |
| Dirprwy Weinidog/y Dirprwy Lywydd | £26,385 |
| Comisiynwyr y Cynulliad | £12,420 |
| * Cadeiryddion y pwyllgorau a ganlyn:<br>– Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc; | £12,420 |

*[1] Yn unol â'r Ddeddf, mae lwfansau penodol i ddeiliaid swyddi'n parhau'n daladwy drwy gydol cyfnod diddymiad ac wedyn hyd yn oed os yw cyfnod y deiliad swydd fel Aelod wedi dod i ben oherwydd y diddymiad. At ddibenion hawliadau o dan y rhan hon o'r Penderfyniad, dylai'r diffiniad o 'Aelod' gael ei ddarllen fel pe bai'n cynnwys y rhai sy'n parhau'n ddeiliaid swyddi, er eu bod wedi peidio â bod yn Aelod oherwydd diddymiad.*

*[2] Er gwaethaf y dyddiad y bydd y Penderfyniad hwn yn dod i rym, bydd cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol yn cael eu hôl ddyddio i ddyddiad eu penodi i'r swydd berthnasol yn y Pedwerydd Cynulliad.*

| | |
|---|---|
| – Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd;<br>– Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol;<br>– Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol;<br>– Y Pwyllgor Menter a Busnes;<br>– Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol;<br>– Y Pwyllgor Cyllid;<br>– Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. | |
| * Cadeiryddion y pwyllgorau a ganlyn:<br>– Y Pwyllgor Deisebau;<br>– Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. | £8,280 |
| Arweinydd grŵp gwleidyddol heb swyddogaeth weithredol:<br>– Cyfrifir cyflog deiliad y swydd ychwanegol fel a ganlyn: lefel sylfaenol o £12,420 a £1,000 ychwanegol ar gyfer pob Aelod o’r grŵp hyd at uchafswm cyflog o £41,949. | |
| Rheolwyr busnes y grwpiau gwleidyddol:<br>– Cyfrifir cyflog deiliad y swydd ychwanegol fel a ganlyn: lefel sylfaenol o £6,210 a £250 ychwanegol ar gyfer pob aelod o’r grŵp hyd at uchafswm cyflog o £12,420. | |

** Gall y cyflogau hyn fod yn destun arolwg gan y Bwrdd Taliadau yn unol ag adran 3 o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.*

3.1.4 Bydd gan Aelod sy’n gwneud mwy nag un o’r swyddi a bennir ym mharagraff 3.1.3 hawl i gael cyflog ychwanegol i ddeiliad swydd ar gyfer un yn unig o’r swyddi hynny, sef yr uchaf ei thâl o blith y swyddi hynny.

**3.2 Cwnsler Cyffredinol nad yw’n Aelod Cynulliad**

3.2.1 Mae gan Gwnsler Cyffredinol a benodir o dan adran 49 o’r Ddeddf ond nad yw’n Aelod Cynulliad hawl i gael cyflog ar yr un lefel â chyfanswm y cyflog sy’n daladwy o dan baragraffau 3.1.1 i 3.1.3 i Gwnsler Cyffredinol sydd yn Aelod Cynulliad.

**3.3 Talu cyflogau**

3.3.1 Bydd cyflogau’n cael eu talu’n fisol fel ôl-daliad ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis. Bydd y taliadau’n cael eu gwneud yn uniongyrchol i gyfrif yr Aelod drwy drosglwyddiad electronig (Gwasanaethau Clirio Awtomataidd y Bancwyr - BACS).

## Pennod 4: Gwariant ar Lety Preswyl

### 4.1 Rhan 1 - diben

4.1.1 Diben taliadau o dan yr adran hon yw digolledu'r Aelodau am gostau ychwanegol y mae'n rhaid iddynt eu hysgwyddo wrth aros dros nos i ffwrdd o'u prif gartrefi mewn perthynas â chyflawni eu rôl fel Aelodau Cynulliad.

4.1.2 Mae Rhannau 2 a 3 o'r adran yn ymwneud â chost aros dros nos yng Nghaerdydd mewn perthynas â chyflawni eu rôl fel Aelodau Cynulliad. Mae Rhan 2 yn gymwys i Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr ardal fewnol ac mae Rhan 3 yn gymwys i Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr ardal allanol.

4.1.3 Mae Rhan 4 o'r adran yn gymwys i'r holl Aelodau ac mae'n ymwneud â chost aros dros nos mewn perthynas â chyflawni eu rôl fel Aelodau Cynulliad mewn mannau heblaw eu prif gartrefi neu unrhyw lety y mae ei gost yn cael ei had-dalu o dan Ran 2.

### 4.2 Rhan 2 - Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr ardal fewnol

4.2.1 Caiff yr Aelodau hawlio cost aros dros nos hyd at 20 o weithiau yng Nghaerdydd bob blwyddyn. Mae'r uchafswm y caniateir ei hawlio am bob noson yr un fath â'r uchafswm y caniateir ei hawlio o dan Ran 4.

### 4.3 Rhan 3 - Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr ardal allanol

4.3.1 Caiff yr Aelodau hawlio o dan Opsiwn A, Opsiwn B, Opsiwn C neu (os yw'n gymwys) Opsiwn D. Ni chaniateir i gais gael ei wneud o dan fwy nag un Opsiwn ar gyfer yr un cyfnod ond caiff Aelod hysbysu'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau yn ysgrifenedig ar unrhyw adeg ei fod am newid opsiwn a pha bryd y mae'r newid i'w wneud, y mae'n rhaid iddo beidio â bod yn llai nag un mis calendr ar ôl dyddiad yr hysbysiad.

**Opsiwn A – cost rhentu eiddo wedi'i ddodrefnu**

4.3.2 Rhaid i'r eiddo y gwneir y cais mewn perthynas ag ef:

a) fod yng Nghaerdydd;

b) bod wedi'i rentu drwy gyfrwng asiantaeth gosod eiddo a enwebwyd at y diben hwnnw gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau;

c) peidio â chael ei is-osod;

ch) darparu llety sy'n gymesur ag anghenion rhesymol yr Aelod yn unig.

4.3.3 Dyma'r costau sydd i'w had-dalu mewn perthynas â'r eiddo:

a) rhent (ynghyd ag unrhyw ffi reoli neu rent tir) hyd at uchafswm o £8,400[3] ym mhob blwyddyn mewn perthynas ag unrhyw un eiddo (ni waeth faint o Aelodau Cynulliad sy'n preswylio yno);

b) treth gyngor (yn ddarostyngedig i baragraff 4.3.4);

c) biliau cyfleustodau (sef nwy, trydan, dŵr a charthffosiaeth, ffôn);

ch) tanysgrifiad band-eang;

d) trwydded deledu;

dd) yswiriant.

4.3.4 Os yw'r eiddo ym Mand treth gyngor G, H neu I, swm y dreth gyngor a ad-delir yw'r swm a fyddai wedi bod yn daladwy pe bai'r eiddo wedi bod ym Mand F.

**Opsiwn B – costau cartref yng Nghaerdydd a ddarperir ar draul yr Aelod ei hun.**

4.3.5 Rhaid i'r eiddo y gwneir y cais mewn perthynas ag ef:

a) fod yng Nghaerdydd;

b) peidio â bod yn brif gartref i'r Aelod;

c) peidio â chael ei is-osod.

4.3.6 Mae'r costau sydd i'w had-dalu yr un fath â'r costau sydd wedi'u rhestru ym mharagraff 4.3.3 b) i dd) (a hynny yn ddarostyngedig i baragraff 4.3.4).

**Opsiwn C – costau llety dros nos arall**

4.3.7 Ar ôl cael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau, caniateir i'r gost am aros dros nos yng

[3]*Uchafswm yr hawliad am y flwyddyn gyfan yw'r ffigur hwn a chaiff ei addasu pro-rata ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12 mewn perthynas â phob Aelod a etholir i'r Pedwerydd Cynulliad. Er enghraifft, yn achos yr Aelodau hynny a etholir ar 5 Mai 2011, £7,592 fydd uchafswm yr hawliad hyd at 31 Mawrth 2012.*

Nghaerdydd gael ei hawlio yn lle Opsiynau A neu B. Mae'r uchafswm y caniateir ei hawlio am bob noson yr un fath â'r uchafswm y caniateir ei hawlio o dan baragraff 4.4.5 b), ond yr uchafswm y caniateir ei hawlio bob blwyddyn o dan y Rhan hon yw £8,400.[4]

**Opsiwn D – pontio**

4.3.8 Dim ond i'r Aelodau a ganlyn y mae'r Opsiwn hwn ar gael, sef Aelodau:

a) a oedd yn Aelodau Cynulliad yn union cyn diddymu'r Trydydd Cynulliad;

b) nad ydynt wedi peidio â bod yn Aelodau Cynulliad ers hynny (heblaw oherwydd y diddymiad hwnnw, neu oherwydd diddymiad arall, yn unig);

c) sydd heb ddewis gwneud cais ar unrhyw adeg o dan Opsiynau A, B neu C;

ch) a oedd, yn union cyn diddymu'r Trydydd Cynulliad, naill ai'n hawlio ad-daliad rhent neu log morgais ar gartref yng Nghaerdydd o dan Ran 3.3 (Lwfans Cost Ychwanegol Lefel Uwch) o Adran 3 o'r Penderfyniad a oedd mewn grym bryd hynny;

d) sy'n parhau i fodloni'r amodau y cafodd yr hawl i gael ad-daliad o dan y Rhan honno ei seilio arnynt; ac

dd) nad oes newid wedi bod, ers y diddymiad hwnnw, yn y telerau ar gyfer rhentu'r cartref neu, yn ôl fel y digwydd, yn nhelerau ad-dalu dyled y morgais. At y dibenion hyn, rhaid peidio â thrin cynnydd mewn rhent o dan adolygiad rhent contractiol neu amrywiad mewn llog morgais yn unol â thelerau'r cytundeb morgais fel newidiadau yn y telerau hynny.

4.3.9 Mae Aelod y mae paragraff 4.3.8 yn gymwys iddo:

a) yn cael parhau i gael ad-daliadau rhent neu ad-daliadau llog morgais ar yr eiddo, (ynghyd, yn y naill achos a'r llall, ag unrhyw ffi reoli neu rent tir), hyd at uchafswm o £8,400[5] ym mhob blwyddyn mewn perthynas â'r eiddo (ni waeth faint o Aelodau Cynulliad sy'n preswylio yno);

[4] *Gweler 3 uchod.*
[5] *Fel 3 uchod.*

b) yn cael derbyn ad-daliadau, hefyd, am yr un costau â’r rhai sydd wedi’u rhestru ym mharagraffau 4.3.3b) i dd) (ac yn ddarostyngedig i baragraff 4.3.4);

c) os oes llog morgais yn cael ei hawlio, yn gorfod cyflwyno datganiad, o leiaf unwaith mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis, o’r llogau sydd wedi’u talu, er mwyn i unrhyw addasiad yn y cyfraddau llog gael ei gyfrif.

Nodwch na fydd cost unrhyw geisiadau i atgyweirio a/neu gynnal a chadw llety preswyl, na’r gost o brynu unrhyw ddodrefn, ffitiadau neu nwyddau i’r cartref, yn cael ei had-dalu.

**4.4 Rhan 4 – llety dros nos arall y tu allan i Gaerdydd**

4.4.1 Os oes angen i Aelod, mewn perthynas â chyflawni ei rôl fel Aelod Cynulliad, aros dros nos, heblaw yn ei brif gartref neu mewn llety y mae ei gostau yn ad-daladwy o dan Ran 3, caniateir i gost gwneud hynny gael ei had-dalu yn unol â'r Rhan hon.

4.4.2 Ni chaiff Aelodau y mae eu prif gartrefi wedi'u lleoli yn yr ardal fewnol ac sy'n cael hawlio cost aros o dan baragraff 4.2.1 (neu a allai fod wedi gwneud hynny pe na baent eisoes wedi hawlio’r gost am aros yr uchafswm o 20 noson o dan y paragraff hwnnw) hawlio cost yr arhosiad hwnnw o dan y Rhan hon.

4.4.3 Yn ddarostyngedig i baragraff 4.4.8, ni chaniateir gwneud cais o dan y Rhan hon oni bai bod yr Aelod:

a) wrth aros dros nos y tu allan i Gymru, wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau i ysgwyddo cost y llety o dan sylw. Wrth ofyn am gymeradwyaeth, rhaid i’r Aelod roi unrhyw wybodaeth i’r tîm Cymorth Busnes i Aelodau y mae’n rhesymol i’r tîm ofyn amdani er mwyn pwyso a mesur a ddylid rhoi cymeradwyaeth;

b) wrth aros dros nos y tu allan i’r Deyrnas Unedig, wedi cael y gymeradwyaeth y cyfeirir ati ym mharagraff a) cyn gwneud trefniadau i deithio.

4.4.4 Pan fo’r angen i aros dros nos yn codi mewn perthynas â busnes un o bwyllgorau’r Cynulliad, mae’r cyfeiriadau ym mharagraff 4.4.3 at y tîm Cymorth Busnes i Aelodau i’w darllen yn hytrach fel cyfeiriadau at swyddogion y pwyllgor perthnasol.

4.4.5 Oni bai bod Aelod yn cael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau, a fydd yn cael ei rhoi o dan amgylchiadau eithriadol yn unig, yr uchafswm y caniateir ei hawlio bob nos am aros mewn gwesty (gan gynnwys brecwast a pharcio) yw:

a) £150 os yw'r gwesty yn Llundain neu Frwsel;

b) £95 mewn man arall.

4.4.6 Yn ychwanegol at gost y llety, caniateir i Aelod sy'n aros dros nos mewn gwesty gael ad-daliad am gost pryd bwyd gyda'r nos, hyd at uchafswm o £20 y noson. Ni chaiff y swm a hawlir gynnwys cost unrhyw ddiodydd alcoholig.

4.4.7 Pan fydd Aelod, yn hytrach nag aros mewn gwesty, yn aros dros nos gyda chyfaill neu berthynas, caiff yr Aelod hawlio cyfradd wastad o £25 y noson.

4.4.8 Caniateir i gais a wneir heb gydymffurfio â gofynion paragraff 4.4.3 gael ei ad-dalu:

a) os nad oedd yn rhesymol ymarferol cydymffurfio â'r gofynion hynny;

b) os bydd yr Aelod yn rhoi esboniad ysgrifenedig i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau pam nad oedd yn rhesymol ymarferol cydymffurfio â'r gofynion hynny; ac

c) os caiff y cais ei gymeradwyo gan y Prif Weithredwr a'r Clerc.

# Pennod 5: Siwrneiau'r Aelodau

## 5.1 Rhagymadrodd

5.1.1 Mae'r adran hon yn ymdrin â siwrneiau Aelodau'r Cynulliad sy'n teithio yng Nghymru ar fusnes y Cynulliad (y cyfeirir ato fel 'teithio arferol'), mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig ond y tu allan i Gymru (y cyfeirir ato fel 'teithio estynedig') ac i'r Undeb Ewropeaidd.[6] Mae'n ymdrin hefyd â siwrneiau gan bartneriaid, plant a staff yr Aelodau.

5.1.2 Yn ddarostyngedig i'r egwyddorion cyffredinol yn Adran 5.2 a pharagraff 5.4.2, caiff Aelod deithio ar y ffyrdd, ar y rheilffyrdd, mewn awyren neu ar y môr ar gyfer y siwrneiau a nodir ym mharagraffau 5.1.2 a 5.3.2 ar draul y Cynulliad cyhyd â bod y siwrnai'n angenrheidiol er mwyn galluogi'r Aelod i gyflawni ei ddyletswyddau fel Aelod Cynulliad, a'i bod felly yn bodloni un o'r meini prawf a ganlyn:

- ei bod yn siwrnai am reswm sydd wedi'i ddatgan gan y Cynulliad;
- ei bod yn gysylltiedig â mater sydd ar hyn o bryd gerbron y Cynulliad neu un o'i bwyllgorau y mae'r Aelod yn gwasanaethu arno;
- ei bod yn berthnasol i etholwr i'r Aelod neu ei bod yn berthnasol yn gyffredinol i etholaeth neu ranbarth yr Aelod.

5.1.3 Dim ond i'r graddau nad yw'n cael ei had-dalu gan ffynhonnell arall y caiff Aelod hawlio ad-daliad am unrhyw siwrnai, er y gall siwrnai benodol fod ar gyfer busnes ar ran y Cynulliad a sefydliadau eraill.

5.1.4 Er gwaethaf y cyfeiriadau at 'Aelodau' yn adran 5.2 a pharagraff 5.4.2 isod, mae'r egwyddorion cyffredinol a nodir yn y paragraffau hynny yn gymwys i siwrneiau gan unrhyw staff i Aelod ac mae'r egwyddorion cyffredinol a nodir yn adran 5.2 yn berthnasol i siwrneiau gan bartner neu gan unrhyw blentyn i Aelod.

---

[6] *Er bod rheolau'r Penderfyniad hwn yn uniongyrchol gymwys i'r categorïau o siwrneiau y caniateir gwneud cais am lwfansau ar eu cyfer o dan y Penderfyniad (yn unol â'r diffiniad ym mharagraff 5.1.1) yn unig, atgoffir yr Aelodau fod y safonau cywirdeb ariannol sydd wedi'u nodi yn Adran 1 o'r Penderfyniad a'r egwyddorion cyffredinol yn rhan 5.2 yn gymwys yn gyffredinol i'r costau sy'n cael eu hysgwyddo gan yr Aelodau ac sydd i'w talu o'r cronfeydd cyhoeddus. Gan hynny, dylai'r Aelodau eu parchu pryd bynnag y byddant yn gwneud trefniadau, neu'n dylanwadu ar drefniadau sy'n cael eu gwneud ar eu rhan, ar gyfer siwrnai y bwriedir talu ei chost o'r cronfeydd cyhoeddus.*

## 5.2 Egwyddorion cyffredinol

5.2.1 Disgwylir i'r Aelodau deithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost-effeithiol, gan gymryd i ystyriaeth union gost y siwrnai ac unrhyw gostau yn sgil aros dros nos. Er hynny, gellir ystyried hefyd yr amser a dreulir ar y siwrnai, ac os gellir profi bod manteision i siwrnai sy'n arbed amser, mae'n bosibl y bydd modd hawlio ad-daliad uwch. Bydd swm priodol yn cael ei dynnu oddi ar hawliad Aelod nad yw, ym marn y Prif Weithredwr a'r Clerc, wedi teithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost-effeithiol.

5.2.2 Disgwylir i'r Aelodau chwilio am y tocyn teithio mwyaf cost-effeithiol ar gyfer y siwrnai benodol, y dull teithio penodol a'r dosbarth teithio penodol, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ostyngiadau sydd ar gael. Yn ychwanegol, dylai Aelodau sydd â chardiau rheilffordd person hŷn neu sy'n gallu sicrhau mathau eraill o docynnau rhatach ddefnyddio'r rheini.

5.2.3 Dylai'r Aelodau roi sylw i Gynllun Teithio'r Cynulliad, gan gynnwys Cynllun y Ddraig Werdd, sydd wedi'i anelu at annog Aelodau'r Cynulliad, eu staff a staff Comisiwn y Cynulliad i ddefnyddio cludiant cyhoeddus, beiciau neu gludiant cymunedol i deithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith ac ar fusnes.

**Teithio arferol – yng Nghymru**

## 5.3 Teithio arferol – egwyddorion cyffredinol

5.3.1 Yn ddarostyngedig i egwyddorion cyffredinol adran 5.2 a pharagraff 5.4.2, mae gan Aelod hawl i deithio ar draul y Cynulliad i'w alluogi i gyflawni'i ddyletswyddau fel Aelod Cynulliad drwy ddilyn unrhyw lwybr rhesymol.

5.3.2 Caiff yr Aelodau wneud cais hefyd am deithio rhwng eu cartref, y Cynulliad a'u swyddfeydd etholaethol neu ranbarthol.

5.3.3 Ni chaiff yr Aelodau wneud cais am ad-dalu unrhyw ffioedd parcio sy'n cael eu codi gan Gomisiwn y Cynulliad am ddarparu cyfleusterau parcio yn Nhŷ Hywel neu yn agos ato.

## 5.4 Teithio ar y ffordd

5.4.1 Yn ddarostyngedig i baragraffau 5.2.1 a 5.2.3, caiff Aelod deithio yn y modd arferol mewn car a gwneud cais am lwfans milltiroedd wedi'i seilio ar yr union filltiroedd a deithiwyd.

5.4.2 Cyn teithio ar y ffordd, yn ddarostyngedig i baragraff 5.4.1, dylai Aelod ystyried pa mor ddichonol yw rhannu car gydag Aelod arall, aelod o'r staff neu aelod o staff Comisiwn y Cynulliad a/neu ddefnyddio unrhyw gynllun allanol a gymeradwywyd ar gyfer rhannu ceir y mae'r Cynulliad yn aelod cofrestredig ohono, gan anelu at deithio yn y modd mwyaf cynaliadwy sy'n briodol. Mae canllawiau llawn ar y mentrau presennol ynglŷn â rhannu ceir ar gael gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

**5.5 Cyfraddau fesul milltir**

5.5.1 Telir cyfraddau fesul milltir a gymeradwyir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi am deithio mewn car, ar gefn beic modur ac ar gefn beic.

5.5.2 Pan fo Aelod yn rhannu siwrnai gydag Aelod arall, aelod o staff (sef aelod o'i staff eu hun neu aelod o staff Aelod arall) neu aelod o staff Comisiwn y Cynulliad yn ei gerbyd ei hun ar fusnes swyddogol, yn ddarostyngedig i baragraffau 5.2.1 a 5.2.3, bydd ganddo hawl i wneud cais am atodiad i bob teithiwr am bob milltir, yn unol â'r cyfraddau milltiroedd a gymeradwywyd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: http://www.hmrc.gov.uk/paye/rates-thresholds.htm#6

**5.6 Siwrneiau dwyffordd a ganiateir**

5.6.1 Pan fo Aelod yn defnyddio cerbyd i deithio o'i brif gartref i'r orsaf reilffordd neu'r maes awyr addas agosaf ac y bydd angen dychwelyd y cerbyd i'r prif gartref, caniateir i gost y siwrnai yn ôl gael ei hawlio. Mae siwrnai ddwyffordd debyg yn cael ei chaniatáu pan fo'r Aelod yn cael ei yrru i'w etholaeth neu i'w ranbarth o'i brif gartref ac yna'n teithio ymlaen i Gaerdydd ar gludiant cyhoeddus.

**5.7 Teithio mewn tacsi**

5.7.1 Yn ddarostyngedig i baragraffau 5.2.1, 5.2.3, 5.4.2, 5.7.2 a 5.7.3, os bydd Aelod yn teithio yn y modd arferol mewn tacsi i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau fel Aelod Cynulliad, mae ganddo hawl i wneud cais am ad-daliad nad yw'n fwy na chyfradd uchaf y lwfans milltiroedd modur a bennir ym mharagraff 5.5.1.

5.7.2 Os nad yw'n rhesymol ymarferol i'r Aelod deithio heblaw mewn tacsi, mae ganddo hawl i wneud cais am union lefel y gost a ysgwyddwyd ganddo.

5.7.3 Yr uchafswm y caiff Aelod ei hawlio fel ad-daliad o dan y lwfans hwn mewn unrhyw achos yw union lefel y gost a ysgwyddwyd ganddo.

**5.8 Teithio mewn car wedi'i logi**

5.8.1 Yn ddarostyngedig i baragraffau 5.2.1, 5.2.3 a 5.4.2, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y caiff cost llogi car ei had-dalu, a hynny gyda chymeradwyaeth y tîm Cymorth Busnes i Aelodau ymlaen llaw. Os gwneir siwrnai fel hyn, mae gan yr Aelod hawl i wneud cais am union lefel y gost a ysgwyddwyd ganddo.

**5.9 Teithio ar y rheilffyrdd**

5.9.1 Yn ddarostyngedig i baragraffau 5.2.1, 5.2.2 a 5.2.3, mae gan Aelodau hawl i wneud cais am union lefel y gost a ysgwyddwyd ganddynt. I ddangos cyfrifoldeb ariannol, disgwylir i'r Aelodau ddewis teithio yn y Dosbarth Safonol oni bai eu bod yn gallu dangos er boddhad y tîm Cymorth Busnes i Aelodau fod angen gwneud fel arall.

**5.10 Teithio mewn awyren**

5.10.1 Yn ddarostyngedig i baragraffau 5.2.1 a 5.2.2, mae gan Aelod hawl i wneud cais am gost teithio mewn awyren sy'n rhan o wasanaeth rheolaidd ar gyfer siwrnai arferol. Mae gan Aelod hawl i wneud cais am gost teithio mewn awyren breifat neu awyren siarter fel rhan o'r trefniadau teithio arferol, hyd at uchafswm cost y siwrnai pe bai wedi'i gwneud mewn awyren sy'n rhan o wasanaeth rheolaidd.

**Teithio estynedig – mannau eraill yn y Deyrnas Unedig**

**5.11 Teithio estynedig**

5.11.1 Caiff Aelod deithio y tu allan i Gymru, ond o fewn y Deyrnas Unedig, ar draul y cyhoedd i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau fel Aelod Cynulliad, ar yr amod bod y rheswm am y siwrnai yn bodloni un o'r meini prawf o dan baragraff 5.1.2 a dim ond os yw'r siwrnai y mae'r cais yn ymwneud â hi wedi'i chytuno ymlaen llaw gyda'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Mater i'w benderfynu yn ôl disgresiwn y Prif Weithredwr a'r Clerc yw pa mor dderbyniol yw unrhyw geisiadau eraill ar gyfer unrhyw siwrneiau na chytunwyd arnynt yn y modd hwn. Ym mhob ystyr arall, bydd lefelau'r lwfans a'r egwyddorion cyffredinol a'r amodau y telir ceisiadau am

siwrneiau arferol oddi tanynt yn gymwys i geisiadau am deithio estynedig.

**Teithio i sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ac ati**

**5.12 Hawliadau**

5.12.1 Mewn unrhyw flwyddyn ariannol, mae gan bob Aelod Cynulliad hawl i wneud hyd at bedair siwrnai ddwyffordd rhwng Cymru ac unrhyw aelod-wladwriaeth neu ranbarth arall o'r Undeb Ewropeaidd ar fusnes y Cynulliad.

5.12.2 Rhaid i brif ddiben ymweliad yr Aelod fod yn un yr ymgymerir ag ef mewn perthynas â chyflawni ei rôl fel Aelod Cynulliad.

5.12.3 Yn ddarostyngedig i baragraffau 5.2.1 a 5.2.2, mae gan Aelod hawl i wneud cais am yr union gostau teithio a ysgwyddwyd ac i gael lwfans cynhaliaeth yn ddarostyngedig i'r uchafsymiau a ganlyn:

- cost y tocyn awyr addas rhataf sydd ar gael i un o'r cyrchnodau a nodir ym mharagraff 5.12.1; a
- llety am ddwy noson, prydau a siwrneiau atodol.

5.12.4 Caiff Aelod nad yw'n teithio yn yr awyr wneud cais am yr union gostau teithio o fewn yr uchafsymiau a nodir ym mharagraff 5.12.3 uchod.

**5.13 Gwneud cais**

5.13.1 Cyn y siwrnai, rhaid i'r Aelodau gyflwyno i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau ddatganiad o ddiben, lleoliad a hyd yr ymweliad, a'r personau neu'r cyrff y bwriedir cyfarfod â nhw. Dim ond lle y mae'r siwrnai y mae'r cais yn ymwneud â hi wedi'i chytuno ymlaen llaw gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau y mae gan Aelod hawl i wneud cais am y lwfans hwn. Mater i'w benderfynu yn ôl disgresiwn y Prif Weithredwr a'r Clerc yw pa mor dderbyniol yw unrhyw geisiadau eraill ar gyfer unrhyw siwrneiau na chytunwyd arnynt yn y modd hwn.

**5.14 Teithio i seneddau, cynghorau neu gynulliadau rhanbarthol**

5.14.1 Caiff Aelod ofyn i'r Prif Weithredwr a'r Clerc am ganiatâd i ffurfio dirprwyaeth i ymweld â senedd ranbarthol, cyngor rhanbarthol neu gynulliad rhanbarthol yn yr Undeb Ewropeaidd. Rhaid i'r cais ddangos yn glir fanteision tebygol yr ymweliad ar gyfer busnes neu

fuddiannau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan nodi'n glir y bobl neu'r sefydliadau y bwriedir ymweld â nhw. Rhaid i unrhyw ymweliad o dan y paragraff hwn gymryd lle ymweliad a allai fel arall gael ei drefnu o dan baragraff 5.12.1.

**Teithio ar fusnes pwyllgor**

**5.15 Teithio ar fusnes pwyllgor**

5.15.1 Wrth deithio ar fusnes pwyllgor, rhaid i Aelod gydymffurfio â’r rheolau a'r egwyddorion a nodir yn adrannau 5.2 i 5.10. Er gwaethaf y datganiad bod adrannau 5.3 i 5.10 yn gymwys i deithio yng Nghymru (sef 'teithio arferol'), at ddibenion siwrneiau gan Aelodau'r Cynulliad ar fusnes pwyllgor bydd y rheolau hynny’n gymwys ni waeth lle yw cyrchfan y siwrnai. Mae'r egwyddorion canlynol hefyd yn gymwys i Aelod sy'n teithio ar fusnes pwyllgor.

5.15.2 Caiff Aelod deithio ar draul y cyhoedd mewn perthynas â chyflawni ei rôl fel aelod o un o bwyllgorau’r Cynulliad yng Nghymru, mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig neu unrhyw le dros y môr, i'r graddau nad yw'r gwariant yn cael ei ad-dalu gan ffynhonnell arall.

5.15.3 Mae gan Aelod hawl i wneud cais am ad-dalu costau a ysgwyddwyd wrth ymgymryd â siwrnai ar fusnes pwyllgor ar yr amod bod y gweithgaredd y mae'r cais yn ymwneud ag ef wedi’i gytuno ymlaen llaw gan y pwyllgor. Pryd bynnag y bo modd, dylai trefniadau gael eu gwneud gan y tîm clercio neu gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau i sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fod yr egwyddorion cyffredinol ar gyfer teithio (megis y rhai yn adran 5.2) yn cael eu dilyn, er enghraifft, i fanteisio ar unrhyw ostyngiadau sydd ar gael am archebu fel grŵp.

5.15.4 Mater i’w benderfynu yn ôl disgresiwn y Prif Weithredwr a’r Clerc yw pa mor dderbyniol yw unrhyw geisiadau eraill ar gyfer unrhyw siwrneiau ar fusnes pwyllgor na chytunwyd arnynt yn unol â pharagraff 5.15.3 uchod.

5.15.5 Ni fydd y milltiroedd a deithir mewn perthynas â busnes pwyllgor yn cyfrif yn erbyn y terfynau a bennwyd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel yr uchafswm a all gael ei esemptio rhag treth.

## Galw'r Cynulliad neu bwyllgor yn ôl

### 5.16 Galw'r Cynulliad neu bwyllgor yn ôl

5.16.1 Mae gan Aelod hawl i wneud cais am unrhyw gostau teithio a ysgwyddwyd ganddo ac y mae'n rhaid eu priodoli iddo wrth deithio i'w alluogi i fod yn bresennol mewn Cyfarfod Llawn o'r Cynulliad a alwyd er mwyn ystyried mater brys sydd o bwys cyhoeddus yn unol â Rheol Sefydlog 12.3.

5.16.2 Mae gan Aelod hawl i wneud cais am unrhyw gostau teithio a ysgwyddwyd ganddo ac y mae'n rhaid eu priodoli iddo wrth deithio i'w alluogi i fod yn bresennol mewn cyfarfod o un o bwyllgorau'r Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 17.46.

5.16.3 Bydd y darpariaethau ar gyfer teithio yn adrannau 5.2 i 5.10 yn gymwys i'r achosion hyn. Yn ychwanegol, caniateir gwneud cais am union lefel y costau aros dros nos os bu'n rhaid aros dros nos wrth deithio i'r Cynulliad. Caiff Aelodau wneud cais hefyd am gost dychwelyd i'w gwyliau ar ôl iddynt gael eu galw'n ôl, os bydd hynny'n ymarferol.

## Siwrneiau partneriaid a phlant

### 5.17 Terfyn ar nifer y siwrneiau

5.17.1 Yn ddarostyngedig i egwyddorion cyffredinol adran 5.2, mae gan Aelod hawl i wneud cais am y costau i'w bartner a/neu unrhyw blentyn iddo o dan 18 oed wneud siwrnai ar gludiant cyhoeddus rhwng Caerdydd a'i etholaeth neu ei ranbarth, neu rhwng Caerdydd a phrif gartref yr Aelod. Does dim angen i'r Aelodau deithio â'u teulu. Er hynny, dim ond ar gyfer 12 o siwrneiau unigol ym mhob blwyddyn ar gyfer aelodau o'u teulu y caiff Aelodau wneud cais.

5.17.2 Mae siwrnai ddwyffordd yn cyfrif fel dwy siwrnai sengl.

5.17.3 At ddibenion y lwfans hwn, diffinnir partner fel:

- priod;
- partner sifil yn unol â'r diffiniad yn Neddf Partneriaeth Sifil 2004;
- person sy'n byw gyda'r Aelod fel priod neu bartner sifil ac sydd wedi'i enwebu mewn ysgrifen i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau fel partner yr Aelod.

5.17.4 Mae plentyn at ddibenion y lwfans hwn yn cynnwys llys-blentyn, plentyn wedi'i fabwysiadu, plentyn maeth, neu unrhyw blentyn arall sy'n byw fel un o deulu'r Aelod sydd heb gyrraedd 18 oed eto.

**5.18 Teithio mewn car**

5.18.1 Caiff partner i Aelod a/neu unrhyw blentyn o dan 18 oed deithio mewn car yn hytrach na theithio ar gludiant cyhoeddus rhwng Caerdydd ac etholaeth neu ranbarth yr Aelod, neu rhwng Caerdydd a phrif gartref yr Aelod. Mewn achosion o'r fath, caiff yr Aelod hawlio'r gyfradd briodol fesul milltir. Y cyfraddau milltiroedd sy'n gymwys i Aelodau fydd y cyfraddau a hawlir. Dylai ceisiadau o'r fath gael eu gwneud ar wahân i siwrneiau car yr Aelod ei hun. Bydd unrhyw siwrnai o'r fath yn cyfrif fel un o'r cyfanswm o 12 o siwrneiau sengl a ganiateir mewn blwyddyn. Ni chaiff partner na phlentyn wneud cais am siwrneiau os ydynt wedi teithio yn yr un car â'r Aelod.

**5.19 Talu'n uniongyrchol i briod neu blentyn**

5.19.1 Caiff yr Aelod gyfarwyddo'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau i dalu unrhyw swm a hawlir o dan y lwfans hwn yn uniongyrchol i'r partner neu'r plentyn o dan sylw.

**Siwrneiau gan staff Aelodau**

**5.20 Terfyn ar nifer y siwrneiau**

5.20.1 Yn ddarostyngedig i egwyddorion cyffredinol adran 5.2 a pharagraff 5.4.2, mae gan bob Aelod hawl i wneud cais am y costau i'w aelodau staff wneud hyd at gyfanswm o 18 o siwrneiau dwyffordd ar gludiant cyhoeddus bob blwyddyn rhwng Caerdydd ac etholaeth neu ranbarth yr Aelod. At y diben hwn, ystyr staff yw'r rhai sy'n cael eu talu ar ran yr Aelod o'r Lwfansau Gwariant Staffio, Cymorth i Grwpiau neu Staffio Dros Dro.

**5.21 Teithio mewn Car**

5.21.1 Yn ddarostyngedig i egwyddorion cyffredinol adran 5.2 a pharagraff 5.4.2, mae gan Aelod hawl i wneud cais am y gost i'r staff hynny sy'n gwneud siwrneiau mewn car rhwng Caerdydd ac etholaeth neu ranbarth yr Aelod. Caiff Aelod wneud cais am y gost i'r staff hynny sy'n gwneud siwrnai mewn car rhwng Caerdydd ac etholaeth neu ranbarth yr Aelod yn ôl y cyfraddau milltiroedd a gymeradwywyd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae unrhyw

siwrnai o'r fath yn cyfrif yn erbyn y cyfanswm o 18 o siwrneiau dwyffordd a ganiateir bob blwyddyn.

**5.22 Talu'n uniongyrchol i staff**

5.22.1 Caiff yr Aelod gyfarwyddo'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau i dalu unrhyw swm a hawlir o dan y lwfans hwn yn uniongyrchol i'r aelod staff o dan sylw.

# Pennod 6: Costau Swyddfa

## 6.1 Diben a swm

[Sylwer: Nid yw paragraffau 6.1.4 i 6.1.6 yn berthnasol i unrhyw gytundebau yr ymrwymwyd iddynt cyn 5 Mai 2011.]

6.1.1 Mae gan yr Aelodau hawl i wneud cais am Lwfans Costau Swyddfa i ad-dalu'r Aelodau am holl gostau rhesymol rhedeg swyddfa ac ymwneud ag etholwyr. Rhaid cyflwyno derbynebau neu brawf o'r gwariant gydag phob cais.

6.1.2 Does gan yr Aelodau ddim hawl i wneud cais am swm o'r Lwfans Costau Swyddfa am ddefnyddio'u cartref fel swyddfa etholaethol neu ranbarthol.

6.1.3 Yn ddarostyngedig i baragraff 6.1.2, caiff Aelod wneud cais am swm o'r Lwfans Costau Swyddfa nad yw'n fwy na'r canlynol yn y flwyddyn yn dechrau ar 1 Ebrill 2011:

a) £16,242[7] os oes gan yr Aelod swyddfa yn ei etholaeth neu ranbarth; neu

b) £4,060[8] os yw'r Aelod, er enghraifft, yn ymgymryd â dyletswyddau etholaethol neu ranbarthol o'r swyddfa yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd yn unig.

6.1.4 Ni chaiff Aelod wneud cais am Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â swyddfa, neu ran o swyddfa, sy'n cael ei phrydlesu neu ei rhentu oddi wrth aelod o'r teulu, partner busnes neu gydweithiwr busnes.

6.1.5 Ni chaiff Aelod sy'n rhentu neu'n prydlesu swyddfa neu ran o swyddfa oddi wrth sefydliad (gan gynnwys ymddiriedolaeth y mae gan yr Aelod, neu aelod o'i deulu, partner busnes neu gydweithiwr busnes i'r Aelod, fuddiant ariannol ynddo) wneud cais am Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â'r rhent neu'r brydles ar y swyddfa neu'r rhan o'r swyddfa honno oni bai bod y tîm Cymorth

---

*[7] Uchafswm yr hawliad am y flwyddyn gyfan yw'r ffigur hwn a chaiff ei addasu pro-rata ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12 mewn perthynas â phob Aelod a etholir i'r Pedwerydd Cynulliad. Er enghraifft, yn achos yr Aelodau hynny a etholir ar 5 Mai 2011, £14,680 fydd uchafswm yr hawliad hyd at 31 Mawrth 2012.*

*[8] Uchafswm yr hawliad am y flwyddyn gyfan yw'r ffigur hwn a chaiff ei addasu pro-rata ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12 mewn perthynas â phob Aelod a etholir i'r Pedwerydd Cynulliad. Er enghraifft, yn achos yr Aelodau hynny a etholir ar 5 Mai 2011, £3,670 fydd uchafswm yr hawliad hyd at 31 Mawrth 2012.*

Busnes i Aelodau wedi cytuno ar y cynnig cyn i'r cytundeb gael ei wneud.

6.1.6 Caniateir i gymeradwyaeth gael ei rhoi o dan baragraff 6.1.5 os oes gan yr Aelod, yr aelod o'i deulu, y partner busnes neu'r cydweithiwr busnes naill ai daliad bach iawn mewn cwmni rhestredig neu os yw'n fuddiolwr mewn cronfa bensiwn o bwys. Mater i'w benderfynu yn ôl disgresiwn y tîm Cymorth Busnes i Aelodau yw penderfynu ar faint daliad neu gronfa bensiwn, ac eithrio bod Aelod, os nad yw'n fodlon ar y penderfyniad a wnaed gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau, yn cael gofyn am i'r mater gael ei gyfeirio am benderfyniad gan y Prif Weithredwr a'r Clerc yn unol â'r weithdrefn a nodir ym mharagraff 1.4.1.

## 6.2 Costau swyddfa

6.2.1 Does dim modd cynhyrchu rhestr gynhwysfawr o'r holl eitemau a ganiateir, ond gallai'r enghreifftiau a ganlyn helpu'r Aelodau i benderfynu a gânt wneud cais ai peidio (os oes unrhyw amheuaeth, dylid cysylltu â'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau):

- cost cynnal swyddfa yn etholaeth neu ranbarth yr Aelod (gan gynnwys rhent, yswiriant, y dreth gyngor neu ardrethi busnes, costau trydan, nwy, dŵr a ffôn, a chost darparu cyfarpar swyddfa);
- costau cyfreithiol prydlesu neu rentu'r swyddfa;
- costau prisio yn ymwneud â phrydlesu, rhentu neu rannu'r swyddfa;
- costau sy'n ymwneud â diogelwch y swyddfa;
- cost llogi neu rentu ystafelloedd yn etholaeth neu ranbarth yr Aelod i gynnal cymorthfeydd;
- cost hysbysebu'r cymorthfeydd;
- papurau newydd a chylchgronau;
- cost galwadau ffôn symudol a wneir yn unol â pharagraff 6.2.6 isod;
- ffioedd cyfrifwyr sy'n gysylltiedig â chost dodrefnu a chynnal swyddfa;

- deunyddiau swyddfa nad ydynt ar gael yn uniongyrchol gan Gomisiwn Cynulliad Cymru;
- cyflogau a chostau eraill yn ymwneud â staff glanhau a gyflogir yn uniongyrchol, nad ymdrinnir â nhw mewn unrhyw fan arall.

6.2.2 Rhaid i bob eitem unigol o offer swyddfa sy'n costio £100 neu fwy gael ei chofnodi ar restr a gedwir gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Dylai'r holl eitemau ar y rhestr gael eu dychwelyd i Gomisiwn y Cynulliad wrth i'r Aelod roi'r gorau i'r sedd oni bai bod trefniadau eraill yn cael eu cytuno gyda'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Os nad oes trefniadau o'r fath wedi'u gwneud, bydd gwerth unrhyw eitemau na ddychwelwyd yn cael ei wrthbwyso yn erbyn unrhyw symiau sy'n ddyledus i'r Aelod o dan y Penderfyniad hwn.

6.2.3 Rhaid i geisiadau am eitemau unigol o ddodrefn neu eitemau unigol eraill sy'n costio £750 neu ragor, neu gontractau sydd â gwerth oes o £750 neu ragor, gael eu cyfeirio i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau i'w cymeradwyo cyn i unrhyw gost gael ei hysgwyddo neu cyn yr ymrwymir mewn contract.

6.2.4 Ni chaniateir hawlio costau ad-dalu morgais, gan gynnwys llog morgais, o dan y lwfans hwn.

6.2.5 Rhaid i'r anfonebau am rent swyddfa gynnwys cyfeiriad yr eiddo sy'n cael ei rentu.

6.2.6 Mae gan yr Aelodau hawl i wneud cais am swm i dalu cost galwadau ffôn symudol os yw'r costau hynny'n ymwneud â chyflawni dyletswyddau'r Aelod fel Aelod Cynulliad yn unig. Rhaid peidio â gwneud cais am gost galwadau personol.

**6.3 Cyflenwi dodrefn swyddfa yn ganolog**

6.3.1 Mae gan Aelodau sy'n dymuno sefydlu swyddfa am y tro cyntaf, neu Aelodau nad oeddent yn cynnal swyddfa etholaethol neu ranbarthol yn union cyn diddymiad y Trydydd Cynulliad, hawl i wneud archeb untro ar gyfer dodrefn swyddfa oddi ar restr ganolog er mwyn darparu'r offer i'r swyddfa honno.

6.3.2 Y tîm Cymorth Busnes i Aelodau sy'n gweinyddu'r rhestr ac maent ar gael i roi cyngor ar ddewis dodrefn a materion eraill ynglŷn â sefydlu swyddfa am y tro cyntaf. Rhaid i'r Aelodau cymwys

gyflwyno cais ysgrifenedig am yr eitemau y maent yn dymuno eu harchebu i'w gymeradwyo gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Bydd cost yr eitemau a gymeradwywyd yn cael ei thalu o'r cronfeydd canolog (ac nid o'r Lwfans Costau Swyddfa), yn amodol ar uchafswm y lwfans.  Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2011-12, uchafswm y lwfans yw £5,000.

6.3.3 Dim ond o fewn 12 mis ar ôl i'r Aelod gael ei ethol, naill ai mewn etholiad neu mewn is-etholiad, y caniateir cais o dan y ddarpariaeth hon, ac ni chaniateir rhagor o geisiadau.

6.3.4 Nid yw'r ddarpariaeth hon ar gael er mwyn adleoli swyddfa sydd eisoes yn bodoli nac i sefydlu swyddfa ychwanegol.

6.3.5 Ar wahân i'r gallu i wneud cais o dan y ddarpariaeth hon, mae gan yr Aelodau hawl i brynu cyflenwadau cyffredinol swyddfa sy'n cael eu talu o'u Lwfans Costau Swyddfa yn unol â'r Penderfyniad hwn.

**6.4 Cyflenwyr cymeradwy offer a deunyddiau swyddfa**

[Sylwer: Nid yw paragraffau 6.4.1 i 6.4.4 yn gymwys i gytundebau llogi a wnaed cyn 5 Mai 2011.]

6.4.1 Dim ond oddi wrth gyflenwyr a gymeradwywyd y caiff yr Aelodau brynu neu logi llungopïwyr.  Mae rhestr o'r cyflenwyr sydd wedi'u cymeradwyo i'w gael gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

6.4.2 Os caiff llungopïwyr eu prynu neu eu llogi oddi wrth gyflenwr sydd heb ei gymeradwyo, caiff y tîm Cymorth Busnes i Aelodau wrthod ad-dalu'r cais, neu dalu'r cais yn uniongyrchol, i'r graddau y mae'n fwy na'r pris uchaf a ddyfynnwyd gan y cyflenwyr cymeradwy ar gyfer yr union eitem, neu ar gyfer eitem gymaradwy.

6.4.3 Rhaid i'r Aelodau roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau mewn perthynas â phrynu offer swyddfa a deunyddiau ysgrifennu eraill, gan gynnwys canllawiau ar ddefnyddio cyflenwyr a gymeradwywyd.

6.4.4 Pan fo canllawiau o'r fath yn rhestru cyflenwr neu gyflenwyr a gymeradwywyd ar gyfer categori penodol o offer neu ddeunyddiau ysgrifennu swyddfa, mae'n rhaid i'r Aelodau ddarparu tystiolaeth o werth am arian a gofyn am gymeradwyaeth y tîm Cymorth Busnes i Aelodau er mwyn prynu eitemau, yn y categorïau hyn, oddi wrth gyflenwyr sydd heb eu cymeradwyo.

## 6.5 Diogelwch swyddfa

6.5.1 Bydd swm ychwanegol ar gael i ariannu unrhyw wariant o fwy na £1,000 gan Aelod mewn unrhyw flwyddyn ariannol ar gyfer y camau diogelwch y mae'n bwriadu eu cymryd i ddiogelu ei hunan, ei staff, ei swyddfa etholaethol neu ranbarthol neu ei offer swyddfa os yw'r heddlu'n argymell ei fod yn gwneud hynny. Rhaid i'r argymhellion hynny fod mewn ysgrifen a rhaid i'r Aelod gyflwyno'r argymhellion ac o leiaf dri dyfynbris cystadleuol am y gwaith o dan sylw, a hynny cyn i unrhyw wariant gael ei ysgwyddo.

## 6.6 Iechyd a diogelwch a mynediad ar gyfer pobl anabl

6.6.1 Bydd swm ychwanegol ar gael i ariannu unrhyw wariant gan Aelod o fwy na £1,000 mewn unrhyw flwyddyn ariannol ar gyfer mesurau iechyd a diogelwch neu addasiadau i'w gwneud yn haws mynd i mewn ac allan o'u hadeiladau, y mae'r Aelodau'n bwriadu eu cymryd, os yw'r mesurau hynny wedi'u hargymell gan berson cymwys sydd wedi'i gymeradwyo gan y Prif Weithredwr a'r Clerc ac wedi'u disgrifio mewn canllawiau a gyhoeddwyd gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Rhaid i'r argymhellion hynny fod mewn ysgrifen a rhaid i'r Aelodau gyflwyno'r argymhellion ac o leiaf dri dyfynbris cystadleuol am gost gwneud y gwaith hwnnw cyn i unrhyw wariant gael ei ysgwyddo.

6.6.2 Ni chaniateir i Aelod ariannu mwy na £1,000 o'i Lwfans Costau Swyddfa ar gyfer paragraffau 6.5.1 a 6.6.1 ill dau yn yr un flwyddyn ariannol.

## 6.7 Prydlesu, is-osod a rhannu

[Sylwer: Nid yw paragraffau 6.7.1 i 6.7.4 yn gymwys os cafodd y cytundeb neu'r trefniant ei wneud cyn 1 Ebrill 2010.]

6.7.1 Ni chaniateir i Aelod sy'n rhentu swyddfa oddi wrth sefydliad plaid wleidyddol neu undeb llafur wneud cais am Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â rhent y swydd honno oni bai:

a) bod yr Aelod, cyn gwneud y cytundeb i rentu'r swyddfa, wedi hysbysu'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau am y cynnig;

b) bod prisiwr a enwebwyd gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau wedi rhoi gwybod i'r tîm nad yw'r rhent arfaethedig yn fwy na'r hyn sy'n rhesymol; a

c) bod copi o'r cytundeb sydd wedi'i weithredu wedi cael ei adneuo gyda'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

6.7.2 Ni chaiff Aelod sy'n rhentu rhan o swyddfa i sefydliad plaid wleidyddol neu undeb llafur (neu i unrhyw sefydliad neu fusnes arall) wneud cais am Lwfans Costau Swyddfa ar gyfer y swyddfa honno oni bai:

a) bod yr Aelod, cyn gwneud y cytundeb i rentu'r rhan honno o'r swyddfa, wedi hysbysu'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau am y cynnig;

b) bod prisiwr a enwebwyd gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau wedi rhoi gwybod i'r tîm nad yw'r rhent arfaethedig yn fwy na'r hyn sy'n rhesymol; a

c) bod copi o'r cytundeb sydd wedi'i weithredu wedi cael ei adneuo gyda'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

6.7.3

a) Os yw prisiwr wedi rhoi cyngor am rent o dan baragraff 6.7.1b), ni chaiff Aelod wneud cais am Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas ag unrhyw gynnydd yn y rhent oni bai bod y cynnydd wedi'i hysbysu i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau a bod y tîm yn fodlon na fydd y cynnydd yn golygu bod y rhent yn fwy na'r hyn sy'n rhesymol.

b) Os yw prisiwr wedi rhoi cyngor am rent o dan baragraff 6.7.2 b), ni chaiff Aelod ostwng y rhent hwnnw, a pharhau i hawlio'r Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â'r swyddfa, oni bai bod y gostyngiad arfaethedig wedi'i hysbysu i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau a bod y tîm yn fodlon na fydd y gostyngiad yn golygu bod y rhent yn llai na'r hyn sy'n rhesymol.

c) I'w galluogi i ystyried cynnydd neu ostyngiad a hysbysir iddynt o dan is-baragraff a) neu b), caiff y tîm Cymorth Busnes i Aelodau ei gwneud yn ofynnol iddo gael copi o gyngor y prisiwr a hysbysir ganddo.

6.7.4 Caniateir i gost sicrhau cyngor prisiwr at ddibenion paragraffau 6.7.1 b), 6.7.2 b) neu 6.7.3 c) gael ei hawlio fel rhan o Lwfans Costau Swyddfa Aelod.

6.7.5 Ni chaiff Aelod sy’n bwriadu gwneud trefniant i rannu swyddfa gydag Aelod Seneddol neu Aelod o Senedd Ewrop wneud cais am Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â rhent y swyddfa honno oni bai:

a) bod yr Aelod, cyn gwneud y trefniant i rentu’r swyddfa, wedi hysbysu’r tîm Cymorth Busnes i Aelodau am y cynnig;

b) bod cytundeb drafft, yn nodi telerau’r trefniant arfaethedig, gan gynnwys y rhai sy’n ymwneud â dull rhannu costau’r swyddfa, wedi’i adneuo gyda’r tîm Cymorth Busnes i Aelodau; a

c) bod y tîm Cymorth Busnes i Aelodau wedi cymeradwyo’r trefniant arfaethedig.

6.7.6 Rhaid i unrhyw amrywiad arfaethedig i drefniant o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 6.7.5 gael ei hysbysu i’r tîm Cymorth Busnes i Aelodau, ac ni chaniateir ei roi ar waith, gan Aelod sy'n hawlio Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â’r swyddfa, heb i’r amrywiad arfaethedig gael ei gymeradwyo.

6.7.7 Mae gan Aelod sy’n gwneud cais am Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â rhent swyddfa:

a) sy’n cael ei rhannu gydag Aelod Seneddol neu Aelod o Senedd Ewrop; neu

b) y mae rhan ohoni’n cael ei rhentu i berson arall;

hawl i wneud cais am Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â rhent net y swyddfa yn unig, hynny yw y gwahaniaeth rhwng y swm sy’n cael ei dalu gan yr Aelod ar ffurf rhent y swyddfa a’r swm y mae’r Aelod yn ei gael fel cyfraniad at y rhent neu fel rhent ar gyfer y swyddfa gyfan, yn ôl fel y digwydd.

6.7.8 Rhaid i Aelod sy'n rhentu rhan o swyddfa (yr hawlir Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â hi) i sefydliad plaid wleidyddol sicrhau na fydd yr un rhan arall o'r swyddfa’n cael ei defnyddio at ddibenion plaid wleidyddol, gan gynnwys dibenion etholiadol.

# Pennod 7: Staff cymorth Aelodau'r Cynulliad

## 7.1 Lwfans gwariant staffio

7.1.1 Mae gan Aelod hawl i wneud cais am gostau Gwariant Staffio, hyd at uchafswm o £89,000 (yn 2011-12),[9] ar gyfer personau a gyflogir ganddo os yw'r costau hynny yn gyfan gwbl, yn unig ac o reidrwydd yn cael eu hysgwyddo i alluogi'r Aelod i gyflawni ei ddyletswyddau fel Aelod Cynulliad.

7.1.2 Caiff Aelodau hawlio lwfans i dalu costau cyflog hyd at dri o staff cyfwerth ag amser llawn (111 o oriau). Bydd cyfraniadau perthynol y cyflogwr at Yswiriant Gwladol, gan gynnwys y cyfraniadau ar gyfer unrhyw daliadau goramser y cyfeirir atynt ym mharagraff 7.3.1, yn cael eu talu'n ganolog a hynny heb eu didynnu o'r Lwfans Gwariant Staffio.

7.1.3 Caiff yr holl staff eu cyflogi ar un o dri band cyflog, Band 1, Band 2 neu Fand 3, a rhaid eu cyflogi yn unol â'r Polisi Recriwtio a gyhoeddir gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

7.1.4 Mae'r graddfeydd cyflog cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y swyddi hyn fel a ganlyn:

| Band | Pwynt 1 | Pwynt 2 | Pwynt 3 | Pwynt 4 | Pwynt 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | £22,594 | £24,620 | £26,833 | £29,249 | £31,890 |
| 2 | £19,296 | £21,225 | £23,353 | £25,698 | £28,287 |
| 3 | £17,472 | £18,826 | £20,285 | £21,861 | £23,563 |

7.1.5 Bydd staff newydd yn dechrau ar isafswm y raddfa ar gyfer y band tâl priodol, oni bai bod rhesymau llethol, o dan amgylchiadau eithriadol, sy'n cyfiawnhau cyflog cychwynnol uwch. Mae'n ofynnol i'r Aelodau gyflwyno achos busnes dros driniaeth o'r fath i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau, a sicrhau cymeradwyaeth iddo, cyn i gyflog uwch o'r fath gael ei gynnig i'r aelod staff newydd. Caiff unrhyw anghydfod ei gyfeirio at y Prif Weithredwr a'r Clerc i gael ei benderfynu yn unol â'r weithdrefn a nodir ym mharagraff 1.4.1.

---

[9] *Uchafswm yr hawliad am y flwyddyn gyfan yw'r ffigur hwn a chaiff ei addasu pro-rata ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12 mewn perthynas â phob Aelod a etholir i'r Pedwerydd Cynulliad. Er enghraifft, yn achos yr Aelodau hynny a etholir ar 5 Mai 2011, £80,442 fydd uchafswm yr hawliad hyd at 31 Mawrth 2012.*

7.1.6 Bydd yr holl staff yn symud i fyny'r raddfa gynyddol un pwynt ar y tro bob blwyddyn ar y dyddiad y dechreuodd eu cyflogaeth, ar yr amod bod eu perfformiad yn foddhaol.

7.1.7 Ni chaniateir talu bonws i'r staff o'r lwfans hwn (nac o'r un lwfans arall).

**7.2 Cyfuniadau staff**

7.2.1 Mae 'Uchafswm Costau Posibl' unrhyw gyfuniad o staff a gyflogir yn hafal i gost y cyflogau a fyddai'n cael eu talu pe bai'r cyflogeion i gyd yn cael eu talu ar bwynt uchaf eu band cyflog perthnasol, gan gymryd eu horiau contract i ystyriaeth.

7.2.2 Caiff yr Aelodau gyflogi staff mewn unrhyw gyfuniad o fandiau cyhyd ag na fydd yr uchafswm costau posibl yn fwy na chyfanswm gwerth y Lwfans Gwariant Staffio (sef £89,000 yn 2011-12).[10] Yr enw ar y gwahaniaeth rhwng yr Uchafswm Costau Posibl a chyfanswm gwerth y Lwfans Gwariant Staffio yw'r 'Balans sy'n Weddill'.

7.2.3 Caniateir i'r Balans sy'n Weddill gael ei ddefnyddio i dalu'r costau a amlinellir yn adrannau 7.3 i 7.6 a hefyd i dalu costau eraill sy'n ymwneud â staff megis costau dileu swydd a gymeradwywyd (pan nad yw adran 7.12 yn gymwys), costau atodol lleoliadau gwaith, staff ac interniaid, ac ati.

**Y Balans sy'n Weddill**

**7.3 Taliadau am deithio a goramser**

7.3.1 Caniateir defnyddio hyd at £2,000[11] o'r balans sy'n weddill ar gyfer taliadau teithio a goramser i'r staff.

**7.4 Y Gronfa Gymorth**

7.4.1 Caiff Aelod ddefnyddio hyd at £2,000[12] (gan gynnwys TAW) o'r Balans sy'n Weddill i ddod ag arbenigwyr allanol i mewn i gynghori neu i helpu, am gyfnod penodedig, ar dasg neu ddarn o waith penodol. Mae elfen y Gronfa Gymorth o'r Lwfans Gwariant Staffio yn wahanol i'r elfen honno, a nodir ym mharagraff 7.3.1, sydd ar

---

*[10] Gweler 9 uchod*

*[11] Uchafswm yr hawliad am y flwyddyn gyfan yw'r ffigur hwn a chaiff ei addasu pro-rata ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12 mewn perthynas â phob Aelod a etholir i'r Pedwerydd Cynulliad. Er enghraifft, yn achos yr Aelodau hynny a etholir ar 5 Mai 2011, £1,808 fydd uchafswm yr hawliad hyd at 31 Mawrth 2012.*

*[12] Gweler 11 uchod*

gael at gostau teithio a goramser y staff. Rhaid i Aelod sy'n dymuno defnyddio'i Lwfans Gwariant Staffio fel hyn sicrhau caniatâd y tîm Cymorth Busnes i Aelodau ymlaen llaw.

**7.5 Cymorth dros dro**

7.5.1 Os yw Aelod wedi cyflogi'r hyn sy'n gyfwerth â thri aelod o staff amser llawn (111 o oriau) ond bod arno angen rhagor o gymorth dros dro, nad yw'n gymwys fel arall i gael ei dalu o'r Gronfa Gymorth ym mharagraff 7.4.1, nac o'r Lwfans Staffio Dros Dro yn adran 7.11, caiff ddefnyddio'r Balans sy'n Weddill at y diben hwn.

**7.6 Yswiriant bywyd a darpariaeth salwch difrifol i staff yr Aelodau**

7.6.1 Caiff Aelod ddefnyddio'r Balans sy'n Weddill mewn perthynas â'i gostau wrth wneud cyfraniadau at unrhyw yswiriant bywyd neu ddarpariaeth salwch difrifol a awdurdodwyd gan y Bwrdd Taliadau mewn perthynas ag unrhyw staff sy'n cael eu talu:

- o'r Lwfans Gwariant Staffio; neu
- o'r Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â staff glanhau sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol.

**7.7 Trosglwyddo arian**

7.7.1 Caiff Aelod drosglwyddo i'r lwfans Cymorth i Grwpiau unrhyw symiau y mae'n eu dewis o'r Balans sy'n Weddill ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig yn cael ei roi ymlaen llaw i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

**Manylion contractau, talu cyflogau a darpariaethau pensiwn**

**7.8 Contractau cyflogaeth**

7.8.1 Mae'n ofynnol i'r Aelodau roi'r datganiad ysgrifenedig safonol i bob un o'u gweithwyr cyflogedig yn nodi prif delerau ac amodau eu cyflogaeth sydd wedi'i gyhoeddi gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Rhaid i'r Aelodau roi copi wedi'i lofnodi i'r tîm o fewn mis ar ôl i'r gyflogaeth ddechrau.

**7.9 Talu cyflogau**

7.9.1 Rhaid i gyflogau'r staff gael eu talu'n fisol ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis. Rhaid i'r taliadau gael eu gwneud yn uniongyrchol i gyfrif

yr unigolyn drwy drosglwyddiad electronig (Gwasanaethau Clirio Awtomataidd y Bancwyr - BACS).

**7.10 Darpariaeth bensiwn i staff yr Aelodau**

7.10.1 Mae gan Aelod hawl i wneud cais am lwfans ar gyfer cost ei gyfraniad at gynllun pensiwn personol unrhyw aelod o staff sy'n cael ei dalu:

- o'r Lwfans Gwariant Staff; neu
- o'r Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â staff glanhau a gyflogir yn uniongyrchol.

7.10.2 Yr uchafswm sy'n daladwy yw 10 y cant o'r cyflog a delir mewn gwirionedd i'r aelod staff perthnasol. Nid yw'r lwfans hwn yn cyfrif yn erbyn naill ai'r Lwfans Gwariant Staff neu'r Lwfans Costau Swyddfa.

**Lwfans Staffio Dros Dro**

**7.11 Lwfans Staffio Dros Dro (TSA)**

7.11.1 Caiff Aelod wneud cais am TSA i dalu costau unrhyw dreuliau ychwanegol a ysgwyddir yn gyfan gwbl, yn unig ac o reidrwydd i alluogi'r Aelod i gyflawni ei ddyletswyddau fel Aelod Cynulliad wrth sicrhau cymorth dros dro tra bydd person y mae cyflog yn cael ei dalu iddo o dan y Lwfans Gwariant Staff yn cael ei rwystro rhag rhoi'r cymorth hwnnw oherwydd salwch, cyfnod mamolaeth, cyfnod tadolaeth neu absenoldeb mabwysiadu.

7.11.2 Dim ond o dan yr amodau a ganlyn y caniateir gwneud cais am TSA, sef os yw'r aelod staff y mae angen y cymorth yn ei le:

- yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch, cyfnod mamolaeth, cyfnod tadolaeth neu absenoldeb mabwysiadu a'i fod yn dal i gael ei gyflogi gan yr Aelod drwy ei Lwfans Gwariant Staffio;
- heb gael ei gyflogi ar sail achlysurol neu dros dro;
- yn absennol, os yw'n sâl, am gyfnod di-dor sy'n fwy na phythefnos;
- yn cyflwyno tystysgrifau meddygol ategol ar gyfer cyfnodau o salwch, tystysgrif mamolaeth (ffurflen MATB1) yn dangos yr wythnos y disgwylir i'r aelod o staff esgor yn achos cyfnod

mamolaeth neu dystysgrif gyfatebol yn achos cyfnod tadolaeth neu absenoldeb mabwysiadu;

- yn meddu ar gontract cyflogaeth dilys sy'n pennu'r cyfnodau o salwch, mamolaeth, tadolaeth neu absenoldeb mabwysiadu â thâl.

7.11.3 Seilir uchafswm y TSA a ganiateir ar swm cyflog gros y gweithiwr absennol am gyfnod penodedig (a ddangosir isod).

7.11.4 Anogir yr Aelodau i sicrhau bod gan yr holl staff sy'n rhoi'r cymorth dros dro drefniadau pensiwn yn unol ag arferion cyflogi da.

7.11.5 Mae absenoldeb salwch, cyfnodau mamolaeth a thadolaeth ac absenoldeb mabwysiadu yn cael eu trin yn hollol wahanol at ddibenion cyfrifo'r TSA. Gan hynny, bydd gan Aelod y mae ganddo gyflogai ar absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth ac absenoldeb salwch (ar wahân) gyfle i ddefnyddio dwy gyllideb ar wahân ar gyfer TSA.

7.11.6 Pan fo unigolyn yn absennol oherwydd salwch, bydd y lwfans uchaf sydd ar gael yn cael ei seilio ar chwe mis ar gyflog llawn a chwe mis ar hanner cyflog (gan gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr a chostau pensiwn) i bob cyflogai absennol cymwys.

7.11.7 Pan fydd y rheol 'mwy na phythefnos' sydd wedi'i nodi ym mharagraff 7.11.2 wedi'i bodloni, bydd y TSA yn dyddio'n ôl i'r dyddiad cyntaf o absenoldeb.

7.11.8 Pan fo unigolyn yn absennol oherwydd cyfnod mamolaeth neu dadolaeth neu absenoldeb mabwysiadu, mae'r lwfans uchaf sydd ar gael yn cyfateb i 26 wythnos o gyflog gros y cyflogai absennol (gan gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr a chostau pensiwn).

7.11.9 Pan fo cais am gymorth dros dro ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch gweithiwr yn defnyddio'r cyfnod hiraf a ganiateir yn y trefniadau hyn, dylai unrhyw estyniad i'r cymorth dros dro gael ei hawlio yn erbyn y Balans sy'n Weddill. Bydd y cyflogai parhaol wedi cyrraedd y terfyn contractiol ar gyfer hawliau cyflog ac ni fydd costau'r gweithiwr yn ei le yn ychwanegol mwyach at y costau cyflog arferol.

7.11.10 Os bydd cais am gymorth yn codi wedyn mewn perthynas â chyflogai sydd wedi cael 12 mis o absenoldeb salwch â thâl, yna dim ond os bydd cyfnod o 12 mis wedi mynd heibio ers diwedd y cais diwethaf y caniateir y cais hwnnw.

**Dileu swydd**

**7.12 Taliadau dileu swydd i staff sy'n cael eu talu o'r Lwfans Gwariant Staffio**

7.12.1 Mae gan Aelod hawl i wneud cais am ei gostau wrth roi taliadau dileu swydd i staff cymwys os yw'r Aelod yn peidio â bod yn Aelod yn y Pedwerydd Cynulliad (neu yn unrhyw Gynulliad dilynol) am unrhyw reswm. Telir y symiau hyn o'r cronfeydd canolog (ac ni chânt eu tynnu o'r Lwfans Gwariant Staffio).

7.12.2 I fod yn gymwys, mae'n rhaid bod gan y staff o leiaf ddwy flynedd o wasanaeth gyda'r Aelod ar y dyddiad y maent yn peidio â chael eu cyflogi gan y cyn Aelod, ac mae'n rhaid iddynt beidio â bod yn hunangyflogedig. Cyfrifir taliadau dileu swydd ar sail yr hawliad statudol o dan y ddeddfwriaeth gyflogaeth gyfredol, wedi'i uwchraddio 50 y cant.

## Pennod 8: Cymorth i Grwpiau

### 8.1 Diben

8.1.1 Mae gan grwpiau o dri neu fwy o Aelodau hawl i gael lwfans Cymorth i Grwpiau i'w helpu i gyflawni eu gwaith yn y Cynulliad. Dim ond mewn perthynas â chostau a ysgwyddir yn gyfan gwbl, yn unig ac o reidrwydd er mwyn cyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau y mae'r lwfans yn daladwy.

8.1.2 Does dim modd cynhyrchu rhestr gynhwysfawr o'r holl eitemau a ganiateir, ond gallai'r enghreifftiau a ganlyn helpu'r Aelodau i benderfynu a gânt wneud cais ai peidio (os oes unrhyw amheuaeth, dylid cysylltu â'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau):

- cyflogi staff mewn swyddogaeth weinyddol;
- cyflogi staff i wneud gwaith ymchwil;
- costau goramser, teithio, ac ati;
- caffael offer swyddfa a llogi cyfleusterau.

8.1.3 Caniateir i'r gwariant o dan y lwfans hwn gael ei awdurdodi gan arweinydd dynodedig grŵp neu gan Aelod arall o'r fath y caniateir dirprwyo awdurdod o'r fath iddo.

8.1.4 Ym mhob achos, rhaid cyfrifo cost y gyflogaeth drwy gyfeirio at bwynt tâl uchaf band perthnasol pob person sydd i'w gyflogi (nid at union bwynt tâl y person sy'n cael ei recriwtio).

8.1.5 Mae'n ofynnol i Grwpiau roi'r datganiad ysgrifenedig safonol i bob un o'u gweithwyr cyflogedig yn nodi prif delerau ac amodau eu cyflogaeth sydd wedi'i gyhoeddi gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Rhaid i'r Grwpiau roi copi wedi'i lofnodi i'r tîm o fewn mis ar ôl i'r gyflogaeth ddechrau.

8.1.6 Bydd cyfraniadau perthynol y cyflogwr at Yswiriant Gwladol ar gyfer unrhyw staff a ariennir o dan unrhyw rai o ddarpariaethau'r Lwfans Cymorth i Grwpiau yn cael eu talu'n ganolog a hynny heb eu didynnu o'r lwfans hwn.

8.1.7 Rhaid i benderfyniadau i brynu eitemau unigol o ddodrefn, eitemau eraill a ganiateir a rhwymedigaethau mewn contract sy'n costio

mwy na £750 gael eu cyfeirio at y tîm Cymorth Busnes i Aelodau i gael eu cymeradwyo cyn i'r gost gael ei hysgwyddo.

8.1.8 Ni chaniateir hawlio costau ad-dalu morgais, gan gynnwys llog morgais, o dan y lwfans hwn.

8.1.9 Ni chaniateir talu bonws i'r staff o'r lwfans hwn (nac o'r un lwfans arall).

**8.2 Cyfuniadau staff**

8.2.1 Mae 'Uchafswm Costau Posibl' unrhyw gyfuniad o staff a gyflogir o dan is-baragraffau 8.2.2 a), b) ac c) yn hafal i gost y cyflogau a fyddai'n cael eu talu pe bai'r cyflogeion i gyd yn cael eu talu ar bwynt uchaf eu band cyflog perthnasol, gan gymryd eu horiau contract i ystyriaeth

8.2.2 Caiff grwpiau gyflogi staff mewn unrhyw gyfuniad o'r bandiau ar yr amod nad yw'r Uchafswm Costau Posibl yn fwy na chyfanswm y lwfans fel a ganlyn:

a) mae gan grŵp o dri neu fwy o Aelodau, **sydd** wedi'i gynrychioli gan Aelod yn Llywodraeth Cymru, hawl i gael **£127,390;**[13] neu

b) mae gan grŵp o rhwng tri a 10 o Aelodau, **sydd heb** ei gynrychioli gan Aelod yn Llywodraeth Cymru, hawl i gael **£199,048;**[14] ac

c) mae gan grŵp o fwy na 10 o Aelodau **sydd heb** ei gynrychioli gan Aelod yn Llywodraeth Cymru, hawl i gael y swm yn is-baragraff b) a **£30,866**[15] ychwanegol am bob pump o aelodau o'r grŵp (neu ran o bump).

8.2.3 Yr enw ar y gwahaniaeth rhwng yr Uchafswm Costau Posibl a chyfanswm gwerth y Lwfans Gwariant Staffio yw'r 'Balans sy'n Weddill'.

8.2.4 Caniateir i'r Balans sy'n Weddill gael ei ddefnyddio i dalu'r costau a amlinellir yn adrannau 8.4 i 8.6 a hefyd i dalu costau eraill sy'n

---

[13] *Uchafswm yr hawliad am y flwyddyn gyfan yw'r ffigur hwn a chaiff ei addasu pro-rata ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12 mewn perthynas â phob Aelod a etholir i'r Pedwerydd Cynulliad. Er enghraifft, yn achos yr Aelodau hynny a etholir ar 5 Mai 2011, £115,141 fydd uchafswm yr hawliad hyd at 31 Mawrth 2012.*
[14] *Fel 13 uchod ac eithrio mai £179,909 fyddai uchafswm yr hawliad hyd at 31 Mawrth 2012 yn achos yr Aelodau hynny a etholir ar 5 Mai 2011.*
[15] *Fel 14 uchod ac eithrio mai £27,898 fyddai'r hawliad ychwanegol hyd at 31 Mawrth 2012 yn achos yr Aelodau hynny a etholir ar 5 Mai 2011.*

ymwneud â staff megis costau dileu swydd a gymeradwywyd (pan nad yw adran 8.7 yn gymwys), costau teithio, llogi cyfleusterau, etc.

8.2.5 Rhaid i'r holl staff gael eu cyflogi ar bwynt cyflog mewn un o bedwar band cyflog, Band 1, Band 2, Band 3 neu 'Cymorth Grŵp Ychwanegol' (fel y'u nodir ym mharagraff 8.2.6), a rhaid eu cyflogi yn unol â'r Polisi Recriwtio a roddir i'r Aelodau gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

8.2.6 Mae'r graddfeydd cyflog cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y swyddi hyn fel a ganlyn:

| | Pwynt Tâl 1 | Pwynt Tâl 2 | Pwynt Tâl 3 | Pwynt Tâl 4 | Pwynt Tâl 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Grŵp Ychwanegol | £30,404 | £31,961 | £33,600 | £35,323 | £37,138 |
| Band 1 | £22,594 | £24,620 | £26,833 | £29,249 | £31,890 |
| Band 2 | £19,296 | £21,225 | £23,353 | £25,698 | £28,287 |
| Band 3 | £17,472 | £18,826 | £20,285 | £21,861 | £23,563 |

**8.3 Cynnydd drwy'r pwyntiau tâl**

8.3.1 Bydd staff cymorth unigol, cyhyd ag y bo'u perfformiad yn foddhaol, yn symud i fyny'r raddfa gynnydd un pwynt ar y tro bob blwyddyn ar y dyddiad y dechreuodd eu cyflogaeth nes cyrraedd uchafswm eu band.

8.3.2 Bydd staff cymorth newydd sy'n dechrau ar eu cyflogaeth yn dechrau ar isafswm y raddfa ar gyfer y band tâl priodol, oni bai bod rhesymau llethol, o dan amgylchiadau eithriadol, sy'n cyfiawnhau cyflog cychwynnol uwch. Mae'n ofynnol i'r Grwpiau gyflwyno achos busnes dros driniaeth o'r fath i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau, a sicrhau cymeradwyaeth iddo, cyn i gyflog uwch o'r fath gael ei gynnig i'r aelod staff newydd. Caiff unrhyw anghydfod ei gyfeirio at y Prif Weithredwr a'r Clerc i gael ei benderfynu yn unol â'r weithdrefn a nodir ym mharagraff 1.4.1.

**Balans sy'n Weddill**

**8.4 Offer a deunyddiau swyddfa**

8.4.1 Caniateir i Grwpiau ddefnyddio'r Balans sy'n Weddill i brynu neu logi offer swyddfa a deunyddiau swyddfa, ond rhaid i bob penderfyniad i brynu fel hyn gael ei wneud yn unol â gofynion pennod 6 (Lwfans Costau Swyddfa) yn y Penderfyniad hwn.

**8.5 Yswiriant bywyd a darpariaeth salwch difrifol i staff grwpiau**

8.5.1 Caiff Grwpiau ddefnyddio'r Balans sy'n Weddill mewn perthynas â'u costau wrth wneud cyfraniadau at unrhyw yswiriant bywyd neu ddarpariaeth salwch difrifol ar gyfer unrhyw staff sydd gan y grŵp. Rhaid i unrhyw ddarpariaeth o'r fath gael ei chymeradwyo yn gyntaf gan y Bwrdd Taliadau.

**8.6 Y Gronfa Gymorth**

8.6.1 Caiff Grwpiau ddefnyddio hyd at £2,000 (gan gynnwys TAW) o'r Balans sy'n Weddill i ddod ag arbenigwyr allanol i mewn i gynghori neu i helpu, am gyfnod penodedig, ar dasg neu ddarn o waith penodol. Rhaid i Grŵp sy'n dymuno defnyddio'i Lwfans Cymorth i Grwpiau yn y modd hwn sicrhau caniatâd y tîm Cymorth Busnes i Aelodau ymlaen llaw.

**Trefniadau eraill**

**8.7 Darpariaeth bensiwn i staff grwpiau**

8.7.1 Mae gan Grwpiau hawl i wneud cais am lwfans mewn perthynas â'u costau wrth dalu cyfraniadau i gynllun pensiwn personol unrhyw staff sydd gan y grŵp.

8.7.2 Yr uchafswm sy'n daladwy yw 10 y cant o gyflog gwirioneddol yr aelod staff perthnasol. Mae'r lwfans hwn yn cael ei dalu o'r cronfeydd canolog ac nid yw'n cyfrif yn erbyn y lwfans Cymorth Grwpiau.

**8.8 Trefniadau dileu swydd**

8.8.1 Mae'r trefniadau dileu swydd hyn yn gymwys i grwpiau sy'n cynnwys Aelodau a etholwyd i'r Pedwerydd Cynulliad (ac i unrhyw Gynulliad dilynol).

8.8.2 Mae gan grŵp hawl i wneud cais am gost taliadau dileu swydd i staff cymwys os bydd cyfansoddiad y grŵp yn newid naill ai o ganlyniad i etholiad neu os bydd aelod o grŵp yn peidio â bod yn Aelod yn ystod tymor Cynulliad fel bod hynny'n gostwng neu'n dileu'r hawl i gael y Lwfans Cymorth i Grwpiau ym mharagraff 8.2.2.

8.8.3 I fod yn gymwys, mae'n rhaid bod gan y staff o leiaf dwy flynedd o wasanaeth gyda'r grŵp sy'n eu cyflogi ar y dyddiad y maent yn peidio â chael eu cyflogi gan y grŵp (neu'r cyn grŵp) a rhaid iddynt beidio â bod yn hunangyflogedig. Cyfrifir taliadau dileu swydd ar sail yr hawliad statudol o dan y ddeddfwriaeth gyflogaeth gyfredol, wedi'i uwchraddio 50 y cant. Telir y symiau hyn o'r cronfeydd canolog ac ni chânt eu didynnu o'r Lwfans Cymorth i Grwpiau.

# Pennod 9: Cydraddoldeb a mynediad

## 9.1 Cymorth i Aelodau Cynulliad sydd ag anabledd

9.1.1 Mae gan Aelodau y mae arnynt angen adnoddau ychwanegol oherwydd eu hanabledd i gyflawni eu cyfrifoldebau fel Aelodau hawl i gael cymorth ariannol at y diben hwn. Mae'r ddarpariaeth hon ar gyfer anabledd yn cael ei gweinyddu gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

9.1.2 Bydd swm y ddarpariaeth ariannol yn cael ei gyfrifo ar sail asesiad o natur a maint anabledd yr Aelod a lefel yr adnoddau ychwanegol y mae eu hangen o ganlyniad i'r anabledd er mwyn galluogi iddo gyflawni ei gyfrifoldeb fel Aelod. Bydd anghenion yr Aelod yn cael eu hasesu yng nghyd-destun anabledd yr unigolyn ac nid gan gyfeirio at y "cyd-destun Cymreig cymaradwy" fel sy'n ofynnol fel arall o dan baragraff 1.3.9. Bydd yr asesiad hwn a'r gwaith i gyfrifo swm y ddarpariaeth sy'n daladwy i Aelod, yn y lle cyntaf, yn cael ei gytuno gan yr Aelod a'r Prif Weithredwr a'r Clerc, ac os na cheir cytundeb, gan y Prif Weithredwr a'r Clerc yn unig.

9.1.3 At ddibenion y ddarpariaeth hon, bydd i 'anabledd' yr un ystyr ag sydd i 'disability' yn Neddf Cydraddoldeb 2010:

"A person (P) has a disability if -

a) P has a physical or mental impairment, and

b) The impairment has a substantial and long-term adverse effect on P's ability to carry out normal day-to-day activities."

## 9.2 Addasiadau ffisegol

9.2.1 Mae adnoddau ar gael hefyd mewn perthynas â newidiadau a gymeradwywyd, sy'n costio dros £1,000 mewn unrhyw flwyddyn ariannol, i wella mynediad i swyddfa etholaethol neu ranbarthol i staff neu etholwyr yr Aelodau. Mae'r £1,000 cyntaf i gael ei ariannu gan yr Aelod o'i Lwfans Costau Swyddfa a bydd unrhyw falans sy'n weddill yn cael ei dalu o'r cronfeydd canolog. Ceir rhagor o fanylion yn adran 6.6.

**9.3 Staff cymorth ag anabledd**

9.3.1 Mae’n rhaid i Aelodau a Grwpiau gydymffurfio â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhinwedd eu swydd fel cyflogwyr. Wrth wneud hynny, gall fod yn ofynnol iddynt wneud addasiadau rhesymol neu ddarparu cymorth parhaus i staff ag anabledd. Bydd cost unrhyw addasiadau o'r fath yn cael ei thalu gan y Lwfans Costau Swyddfa neu gan y Lwfans Cymorth Grwpiau fel y bo'n briodol.

**9.4 Darparu gwasanaeth i etholwyr amrywiol**

9.4.1 Mae’r Aelodau a'u staff o dan rwymedigaeth i gydymffurfio â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhinwedd eu swydd fel darparwyr gwasanaethau i'w hetholwyr. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, darparu man cyfarfod arall neu ymweliadau â’r cartref, darparu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch neu ieithoedd eraill a rhoi cymorth cyfathrebu ar gyfer cyfarfodydd/cymorthfeydd (er enghraifft dehongliad yn Iaith Arwyddion Prydain). Caiff yr Aelodau ddefnyddio’u Lwfans Costau Swyddfa i helpu i ddarparu gwasanaeth sy'n berthnasol i'w hetholwyr.

# Pennod 10: Aelodau sy'n ymadael â'u swydd

## Lwfans dirwyn i ben

### 10.1 Lwfans dirwyn i ben

10.1.1 Mae gan berson sydd, am ba reswm bynnag, wedi peidio â bod yn Aelod Cynulliad ("cyn Aelod") hawl i wneud cais am lwfans mewn perthynas â'r gost a ysgwyddwyd yn gyfan gwbl, yn unig ac o reidrwydd wrth gwblhau unrhyw waith a oedd ar y gweill pan beidiodd y person hwnnw â bod yn Aelod.

10.1.2 Mae Aelod yn peidio â bod yn Aelod Cynulliad ar y dyddiad y digwydd unrhyw un o'r canlynol:

a) bod yr Aelod yn ymddiswyddo;

b) bod yr Aelod yn marw;

c) bod y Cynulliad yn cael ei ddiddymu os nad yw'r Aelod yn ymgeisydd i'w ethol i'r Cynulliad newydd; neu

ch) yr etholiad, os yw'r Aelod yn ymgeisydd i'w ethol i'r Cynulliad newydd ond nad yw'n cael ei ethol.

10.1.3 Mae'r swm y gellir ei hawlio i'w reoli gan gynllun dirwyn i ben ysgrifenedig y cytunir arno rhwng y tîm Cymorth Busnes i Aelodau a'r cyn Aelod, ac fe'i cyfrifir drwy gyfeirio at y cyfnod y cytunir arno ar gyfer y broses o ddirwyn i ben a'r Lwfans Costau Swyddfa, y Gwariant Llety Preswyl a'r rhan honno o'r Lwfans Gwariant Staff sy'n darparu ar gyfer y cyflogau gwirioneddol sy'n cael eu talu i'r staff a oedd yn cael eu cyflogi gan y cyn Aelod ar y diwrnod y peidiodd â bod yn Aelod. Mae'r cynllun dirwyn i ben y cytunir arno i barhau (yn ddarostyngedig i baragraff 10.1.5) am dri mis fan bellaf ac ni chaiff yr un hawliad ei ystyried mewn perthynas â chostau a ysgwyddir ar ôl diwedd cyfnod y cynllun.

10.1.4 Bydd y swm sy'n daladwy o dan y lwfans hwn yn gostwng yn ôl faint o'r Lwfans Costau Swyddfa, y Gwariant Llety Preswyl a'r rhan honno o'r Lwfans Gwariant Staff y cyfeirir atynt ym mharagraff 10.1.3 a ordalwyd (gan ddefnyddio'r rheolau pro rata a ddisgrifir ym mharagraff 2.1.1 o'r Penderfyniad hwn).

10.1.5 O ran Aelod sydd wedi marw:

a) bydd y lwfans hwn yn effeithiol fel pe bai cyfeiriadau at y cyn Aelod yn cynnwys cyfeiriadau, fel y bo'n briodol, at gynrychiolwyr personol yr Aelod ymadawedig, a

b) nid yw'r cyfnod hiraf o dri mis y cyfeirir ato ym mharagraff 10.1.3 yn gymwys ond mae'n rhaid i'r cynllun ddarparu ar gyfer gorffen y broses o ddirwyn i ben cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol o dan yr amgylchiadau.

**10.2 Gwaith sydd wedi'i wneud a chostau**

10.2.1 Gall cais am waith sydd wedi'i wneud a chostau sydd wedi'u hysgwyddo yn unol â pharagraffau 10.1.1 a 10.1.3 gynnwys y canlynol:

- cyflogau a chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwr ar gyfer staff sy'n parhau i gael eu cyflogi ynghyd â chyfraniadau pensiwn cysylltiedig;
- rhwymedigaethau contractau staff;
- rhwymedigaethau contract i dalu am logi offer neu drefniadau i brydlesu llety;
- costau post, deunydd swyddfa a ffôn;
- costau teithio.

10.2.2 Nid yw taliadau dileu swydd o dan adran 7.12 yn dod o fewn cwmpas y lwfans hwn.

**Grant adsefydlu**

**10.3 Grant adsefydlu**

10.3.1 Caiff person sydd yn union cyn i'r Cynulliad gael ei ddiddymu yn Aelod Cynulliad ac yntau naill ai yn dod o dan y trefniadau pontio ym mharagraffau 10.4.1 i 10.4.3 neu

- yn ymgeisydd i'w ailethol; ond
- nad yw'n cael ei ailethol,

hawlio Grant Adsefydlu.

10.3.2 Yn y paragraff blaenorol (ac ym mharagraff 10.4.1 d)), mae 'ymgeisydd i'w ailethol' yn cynnwys person ar restr ymgeiswyr

plaid wleidyddol gofrestredig; ac mae 'wedi'i ailethol' yn cynnwys person sydd wedi'i ethol dros un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad.

10.3.3 Bydd Grant Adsefydlu Aelodau Cynulliad sydd hefyd neu a fu hefyd yn Aelodau Seneddol neu'n Aelodau o Senedd Ewrop ac y mae neu yr oedd eu cyflog Cynulliad wedi'i ostwng dwy ran o dair yn unol â pharagraff 3.12 o'r Penderfyniad hwn, yn cael ei gyfrifo drwy gyfeirio at y lefel cyflog llawn.

10.3.4 Ac eithrio pan fo paragraffau 10.4.1 i 10.4.3 yn gymwys, swm y Grant Adsefydlu sy'n daladwy yw cyflog un mis calendr (ar y raddfa sy'n daladwy i'r Aelodau yn union cyn y diddymu) am bob blwyddyn gyflawn o wasanaeth, hyd at uchafswm sy'n hafal i chwe mis o gyflog.

**10.4 Trefniadau pontio**

10.4.1 Mae'r paragraff hwn (a pharagraffau 10.4.2 a 10.4.3) yn gymwys i berson:

a) a oedd yn Aelod Cynulliad yn union cyn i'r Trydydd Cynulliad gael ei ddiddymu;

b) sydd wedi gwasanaethu am gyfnod di-dor fel Aelod Cynulliad (heblaw oherwydd diddymiad);

c) sy'n peidio â bod yn Aelod Cynulliad naill ai adeg diddymu'r Trydydd Cynulliad neu adeg diddymiad dilynol;

ch) nad yw'n ymgeisydd i'w ailethol neu, os yw'n ymgeisydd, nad yw'n cael ei ailethol; ac

d) sy'n rhoi gwybod mewn ysgrifen i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau ei fod yn dymuno cael Grant Adsefydlu o dan y trefniadau pontio hyn.

10.4.2 Mae swm y Grant Adsefydlu sy'n daladwy o dan y trefniadau pontio hyn sydd wedi'i fynegi fel canran o'r cyflog blynyddol (yn ôl y gyfradd sy'n daladwy yn union cyn y diddymiad o dan sylw), yn cael ei bennu ar sail oedran (adeg yr etholiad) a chyfnod gwasanaeth yr unigolyn fel Aelod Cynulliad cyn y diddymiad hwnnw.

10.4.3 Dangosir y canrannau perthnasol yn y Tabl a ganlyn:

**Canrannau o'r cyflog blynyddol/nifer o flynyddoedd o wasanaeth (blynyddoedd cyflawn)**

| Oed | O dan 10 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 neu fwy |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **O dan 50** | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 |
| **50** | 50 | 50 | 52 | 54 | 56 | 58 | 60 |
| **51** | 50 | 52 | 55 | 58 | 62 | 65 | 68 |
| **52** | 50 | 54 | 58 | 63 | 67 | 72 | 76 |
| **53** | 50 | 56 | 62 | 67 | 73 | 78 | 84 |
| **54** | 50 | 58 | 65 | 72 | 78 | 85 | 92 |
| **55 i 64** | 50 | 60 | 68 | 76 | 84 | 92 | 100 |
| **65** | 50 | 58 | 65 | 72 | 78 | 85 | 92 |
| **66** | 50 | 56 | 62 | 67 | 73 | 78 | 84 |
| **67** | 50 | 54 | 58 | 63 | 67 | 72 | 76 |
| **68** | 50 | 52 | 55 | 58 | 62 | 65 | 68 |
| **69** | 50 | 50 | 52 | 54 | 56 | 58 | 60 |
| **70 neu fwy** | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 |

**10.5 Cyfrif blynyddoedd o wasanaeth**

10.5.1 Wrth gyfrif nifer y blynyddoedd o wasanaeth (naill ai at ddibenion paragraff 10.3.4 neu at ddibenion paragraffau 10.4.2 a 10.4.3), rhaid i gyfnod fel Aelod beidio â chael ei gyfrif fwy nag unwaith; rhaid i unrhyw gyfnod o wasanaeth a anwybyddwyd wrth gyfrif grant adsefydlu blaenorol gael ei anwybyddu y tro hwn hefyd. Hefyd, rhaid anwybyddu unrhyw ffracsiwn o flwyddyn, ac eithrio os bydd Aelod a etholwyd gyntaf mewn etholiad cyffredin yn methu cwblhau blwyddyn am fod yr etholiad cyffredin nesaf yn cael ei

gynnal ar ddyddiad cynharach na'r dyddiad yr etholwyd yr Aelod am y tro cyntaf. Mewn achos o'r fath, rhaid cymryd bod yr Aelod wedi gwasanaethu am flwyddyn gyfan.

**10.6 Deiliaid swyddi**


10.6.1 Bydd gan Aelodau Cynulliad sydd ar unrhyw adeg yn ystod eu cyfnod o wasanaeth y cyfeirir ato ym mharagraff 10.5.1 wedi gwneud un o'r swyddi a bennir ym mharagraff 3.1.3 hawl i gael taliad ychwanegol ar ffurf Grant Adsefydlu. Bydd y taliad yn hafal i swm y cyflog a dalwyd i ddeiliad y swydd honno yn y tri mis cyn iddo roi'r gorau i'r swydd. Os oedd gan yr Aelod fwy nag un swydd yn ystod y cyfnod hwnnw, y swm uchaf a dalwyd i'r Aelod hwnnw fydd swm y cyflog y seilir y taliad hwn arno. Er hynny, os yw'r Aelod wedi dewis peidio â chodi cyflog ychwanegol y mae ganddo hawl i'w gael, neu os yw wedi dewis codi swm gostyngedig, caiff y taliad ychwanegol o dan y paragraff hwn ei gyfrif drwy gyfeirio at y cyflog heb ei ostwng.

**Grant Ymddeol Oherwydd Salwch**

**10.7 Grant Ymddeol Oherwydd Salwch**

10.7.1 Mae gan unrhyw Aelod y mae ei iechyd yn ei rwystro rhag parhau i fod yn Aelod Cynulliad hawl i wneud cais am Grant Ymddeol oherwydd Salwch pan fydd yn rhoi'r gorau i fod yn Aelod. Bydd lefel y grant sy'n daladwy yn cael ei phennu ar yr un sail â chais am Grant Adsefydlu o dan Adrannau 10.3 i 10.6, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, y trefniadau pontio sydd wedi'u nodi yn y bennod honno ac eithrio y dehonglir cyfeiriad at ddyddiad diddymu'r Cynulliad fel cyfeiriad at y dyddiad y mae'r Aelod yn peidio â bod yn Aelod.

10.7.2 Ni fydd gan Aelod Cynulliad sy'n hawlio Grant Ymddeol oherwydd Salwch hawl i wneud cais am Grant Adsefydlu y tro nesaf y caiff y Cynulliad ei ddiddymu.



# Taliadau Deiliaid Swyddi

## Adroddiad Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Gorffennaf 2011

## Y Bwrdd Taliadau

**Y Gwir Anrhydeddus George Reid** (Cadeirydd)
**Sandy Blair**
**Mary Carter**
**Stuart Castledine**
**Yr Athro Monojit Chatterji**

Mae bywgraffiadau aelodau'r Bwrdd ar gael yn Atodiad A.

## Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

**Carys Eyton Evans**, Clerc
**Helen Finlayson**, Dirprwy Glerc
**Catherine Domican**, Cymorth Tîm
**Annette Stafford**, Cymorth Tîm

Gyda chymorth Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad Cenedlaethol.

Rhif ISBN: 978-0-9564014-2-7

Gellir gweld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org
Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn hefyd mewn ffurfiau hygyrch, gan gynnwys Braille, print bras, fersiwn sain neu gopi caled gan:

Clerc y Bwrdd Taliadau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8598
Ffacs: 029 2089 8117
E-bost: Taliadau@cymru.gov.uk

# Cynnwys

**Crynodeb Gweithredol** ..... 4

**Rhagymadrodd** ..... 8

**Pennod 1: Egwyddorion a Methodoleg** ..... 10
Trosolwg; Casglu Rhagor o Dystiolaeth; Ystyriaethau at y Dyfodol

**Pennod 2: Cadeiryddion Pwyllgorau** ..... 18
Trosolwg; Egwyddorion; Methodoleg; Cyfrifoldebau; Penderfyniadau

**Pennod 3: Arweinwyr Pleidiau** ..... 26
Trosolwg; Egwyddorion; Methodoleg; Cyfrifoldebau; Penderfyniadau

**Pennod 4: Rheolwyr Busnes a Chwipiaid y Pleidiau** ..... 34
Trosolwg; Egwyddorion; Methodoleg; Cyfrifoldebau; Penderfyniadau

**Pennod 5: Comisiynwyr y Cynulliad** ..... 42
Trosolwg; Egwyddorion; Methodoleg; Cyfrifoldebau; Penderfyniadau

**Pennod 6: Amcangyfrif o'r Costau** ..... 46
Costau'r Penderfyniad Diwygiedig; Costau'n Gwaith Ni

**Atodiad A: Cylch Gwaith ac Aelodaeth y Bwrdd Taliadau** ..... 50

**Atodiad B: Cyfarfodydd y Bwrdd** ..... 52

**Atodaid C: Ymgynghori** ..... 54

**Atodiad D: Cyfrifoldebau Deiliaid Swyddi** ..... 56

**Atodiad E: Dogfennau Cefndir** ..... 60

# Crynodeb Gweithredol

1. Mae gan Fwrdd Taliadau annibynnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a sefydlwyd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, fandad i bennu cyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff a hynny o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen.

2. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ail ran ein gwaith i bennu cyflogau ychwanegol i gadeiryddion y pwyllgorau, arweinwyr y gwrthbleidiau, chwipiaid a rheolwyr busnes y pleidiau, a Chomisiynwyr y Cynulliad.

3. Wrth gwblhau'n gwaith, rydyn ni wedi ceisio:

   - datblygu system o daliadau sy'n addas at ei diben, yn dryloyw ac yn gynaliadwy;
   - seilio'r taliadau ar y cyfrifoldeb yn bennaf ac nid ar y llwyth gwaith;
   - datblygu methodoleg sy'n adlewyrchu cyfrifoldebau cymharol pob swydd o dan sylw;
   - datblygu atebion mewn cyd-destun Cymreig yn bennaf; a
   - thargedu'r system o daliadau a lwfansau i ategu diben strategol y Cynulliad yn rhinwedd ei swydd fel deddfwrfa, sef yn benodol dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, deddfu a chynrychioli pobl Cymru.

4. Mae'n gwaith ni wedi'i fwydo gan y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod rhan gyntaf ein gwaith, a thrwy ymgynghori ar bapur ac ar lafar ag Aelodau a fu'n dal swyddi yn y Trydydd Cynulliad neu sydd wedi ymgymryd â swydd yn y Pedwerydd Cynulliad.

5. Rydyn ni wedi ystyried sut y rhagwelir y bydd pob swydd yn gweithredu yng nghyd-destun y Pedwerydd Cynulliad, gan ofyn i'r rhai a roddodd dystiolaeth i ni gymharu cyfrifoldebau cymharol y swyddi ychwanegol yn y Cynulliad er mwyn ein galluogi i ddatblygu fframwaith cydlynol a chynaliadwy ar gyfer cyflogau ychwanegol a hwnnw'n cymryd y cymariaethau mewnol i ystyriaeth.

6. Caiff yr holl lefelau cyflog ychwanegol a nodir yn yr adroddiad hwn eu hôl-ddyddio i ddyddiad penodi deiliaid y swydd yn y Pedwerydd Cynulliad, ac maen nhw'n destun penderfyniad i rewi cyflogau am bedair blynedd, fel y nodwyd yn ein hadroddiad cyntaf, *Addas i'r Diben*, ym mis Mawrth 2011.[1]

[1] *Pennod 5, Addas i'r Diben*

## Cadeiryddion Pwyllgorau'r Cynulliad

7. I adlewyrchu cyfrifoldebau a chyfraniadau cymharol cadeiryddion pwyllgorau at ddiben strategol y Cynulliad, bydd yna strwythur dwy-haen o gyflogau ychwanegol i gadeiryddion pwyllgorau.

8. I gydnabod y cyfrifoldebau ychwanegol arwyddocaol a fydd ar ysgwyddau cadeiryddion wyth o bwyllgorau'r Cynulliad yn y strwythur sydd newydd gael ei fireinio, caiff cadeiryddion y pwyllgorau hynny gyflogau ychwanegol o £12,420, sydd 50 y cant yn uwch na'r lefel gyflog interim o £8,280 a bennwyd gennym ym mis Mawrth 2011 ar sail ein dealltwriaeth ni o gyfrifoldebau cadeiryddion y pwyllgorau yn y Trydydd Cynulliad. Bydd cyfrifoldebau cadeiryddion y Pwyllgor Deisebau a'r Pwyllgor Safonau yr un fath yn fras â chadeiryddion pwyllgorau'r Trydydd Cynulliad, ac fe gân nhw gyflog ychwanegol o £8,280 yr un.

9. Mae'r cyflogau ychwanegol a delir i gadeiryddion pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad wedi'u nodi yn Ffigur 1.

**Ffigur 1: Y Cyflogau Ychwanegol sy'n Daladwy i Gadeiryddion Pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad**

| Y pwyllgorau | Y cyflog ychwanegol |
|---|---:|
| Plant a Phobl Ifanc; Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol; Menter a Busnes; Cyfrifon Cyhoeddus; Cyllid; Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol | £12,420 |
| Deisebau; Safonau | £8,280 |

10. Mae'n penderfyniadau ni wedi'u seilio ar y strwythur pwyllgorau y cytunodd y Cynulliad arno ym mis Mehefin 2011. Os bydd yna newid perthnasol yn strwythur y pwyllgorau yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, byddwn yn adolygu'r effaith ar y penderfyniadau rydyn ni wedi'u cymryd.

## Arweinwyr y Gwrthbleidiau

11. I adlewyrchu eu cyfrifoldebau nhw wrth fwrw ymlaen â dibenion cyffredinol y Cynulliad, caiff arweinwyr y gwrthbleidiau lefel sylfaenol o gyflog ychwanegol sy'n hafal i'r hyn sy'n cael ei dalu i gadeiryddion y pwyllgorau sy'n fwyaf arwyddocaol yn strategol yn y Pedwerydd Cynulliad. Bydd cyfrifoldebau a chymhlethdodau ychwanegol arwain y pleidiau mwyaf, o'u cymharu â'r gwrthbleidiau lleiaf, yn cael eu cydnabod drwy elfen gynyddol sydd wedi'i seilio ar nifer yr Aelodau. Bydd arweinwyr gwrthbleidiau'r Pedwerydd Cynulliad yn cael cyflogau ychwanegol, wedi'u hôl-ddyddio i ddyddiad eu penodi, sy'n cynnwys lefel sylfaenol o £12,420 ac elfen gyfrannol o £1,000 am bob sedd sydd gan y blaid. Bydd yna gap o £41,949 ar gyfanswm y cyflog ychwanegol (sef lefel y cyflog ychwanegol sy'n daladwy i Weinidogion Cymru).

12. Mae union lefelau'r cyflogau ychwanegol sy'n daladwy i arweinwyr gwrthbleidiau'r Pedwerydd Cynulliad, ar sail y cydbwysedd gwleidyddol yn sgil etholiad mis Mai 2011, i'w gweld yn Ffigur 2.

**Ffigur 2: Y Cyflogau Ychwanegol sy'n Daladwy i Arweinwyr y Gwrthbleidiau yn y Pedwerydd Cynulliad**

| Yr wrthblaid | Nifer yr aelodau | Y cyflog ychwanegol |
|---|---:|---:|
| Ceidwadwyr | 14 | £26,420 |
| Plaid Cymru | 11 | £23,420 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 5 | £17,420 |

## Rheolwyr Busnes a Chwipiaid y Pleidiau

13. Dibenion y pleidiau gwleidyddol sydd y tu ôl i rôl chwipiaid y pleidiau, a dydyn ni ddim yn credu ei bod yn briodol talu cyflogau ychwanegol iddyn nhw o'r cronfeydd cyhoeddus. Gan hynny, o'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen, fydd prif chwipiaid y gwrthbleidiau a'r Llywodraeth ddim yn cael cyflogau ychwanegol mwyach.

14. I adlewyrchu cyfrifoldebau'r rheolwyr busnes ynglŷn â rhedeg busnes y Cynulliad yn effeithiol, bydd rheolwr busnes pob plaid yn cael cyflog ychwanegol ar lefel sylfaenol o £6,210, sef 50 y cant o'r cyflog ychwanegol sy'n daladwy i gadeiryddion y pwyllgorau sy'n fwyaf arwyddocaol yn strategol, ynghyd ag elfen gyfrannol o £250 am bob Aelod sydd gan grŵp y blaid. Bydd yna gap o £12,420 ar gyfanswm y cyflog ychwanegol. Ar sail y cydbwysedd gwleidyddol cyfredol, mae'r cyflogau ychwanegol sy'n daladwy i reolwyr busnes pob plaid yn y Pedwerydd Cynulliad i'w gweld yn Ffigur 3.

**Ffigur 3: Y Cyflogau Ychwanegol sy'n Daladwy i Reolwyr Busnes y Pedwerydd Cynulliad**

| Y blaid | Nifer yr aelodau | Y cyflog ychwanegol |
|---|---:|---:|
| Llafur | 30 | £12,420 |
| Ceidwadwyr | 14 | £9,710 |
| Plaid Cymru | 11 | £8,960 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 5 | £7,460 |

## Comisiynwyr y Cynulliad

15. Mae Comisiynwyr y Cynulliad yn gyfrifol am oruchwylio a phenderfynu ar lywodraethiant strategol y Cynulliad. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cyfateb yn fras i gyfrifoldebau cadeiryddion y pwyllgorau sy'n fwyaf arwyddocaol yn strategol ac, i adlewyrchu hyn, bydd Comisiynwyr y Cynulliad yn cael cyflogau ychwanegol o £12,420.

## Costau'r Penderfyniad Diwygiedig

16. Cyfanswm y cyflogau ychwanegol sy'n daladwy i'r holl ddeiliaid swyddi ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad yw £889,033 o'i gymharu â £960,203 ar ddiwedd y Trydydd Cynulliad. Dyna ostyngiad yng nghyflogau'r deiliaid swyddi o £71,170 neu 7.4 y cant. Yr amcangyfrif diwygiedig o gost ein Penderfyniad ar gyfer 2012-13 yw £12.9 miliwn.

## Ystyriaethau at y Dyfodol

17. Adolygiad o fudd-daliadau pensiwn i Aelodau, deiliaid swyddi a staff fydd y cyfnod nesaf yn ein gwaith. Rydyn ni'n bwriadu dechrau gwaith yn y maes hwn, yr ydym yn rhag-weld y bydd yn para drwy gydol y Pedwerydd Cynulliad, yn ystod hydref 2011.

# Rhagymadrodd

Mae gan Fwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a sefydlwyd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, fandad i benderfynu ar gyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen.

Ar ôl cael ein penodi gan Gomisiwn y Cynulliad ar 22 Medi 2010, cawsom sawl cyfarfod rhwng mis Hydref 2010 a mis Mawrth 2011 i gyflawni rhan gyntaf ein gwaith.

Cafodd ein *Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau 2011-12* ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2011. Daeth y rheolau ar gymorth ariannol a gafodd eu nodi yn y Penderfyniad i rym o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen. I gyd-fynd â'r Penderfyniad roedd yna adroddiad, *Addas i'r Diben*, a amlinellodd yr egwyddorion y cafodd ein gwaith ei seilio arnyn nhw, y cyd-destun y gwnaed ein penderfyniadau ynddo, a'r dystiolaeth y gwnaed ein casgliadau arni.

Roedd yr amser cyfyngedig a oedd ar gael inni i wneud ein Penderfyniad cyntaf yn golygu na chawson ni ddigon o dystiolaeth i lunio barn derfynol ar gyflogau ychwanegol rhai deiliaid swyddi, sef cadeiryddion pwyllgorau, Comisiynwyr y Cynulliad, arweinwyr y gwrthbleidiau, a chwipiaid y pleidiau. Roedden ni o'r farn hefyd y gallai'r rolau hyn newid yn sgil canlyniad etholiad 2011. Daethom i'r penderfyniad i wneud Penderfyniad terfynol cyn gynted â phosibl ar y materion hyn ar ôl ymgynghori ymhellach ar y mesur o gyfrifoldeb sy'n perthyn i'r rolau hyn yn y Pedwerydd Cynulliad.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ail ran ein gwaith, sy'n cynnwys rhagor o ymgynghori ar bapur ac ar lafar ag Aelodau a oedd yn dal swyddi yn y Trydydd Cynulliad, ac ymgynghori â'r rhai sydd wedi ymgymryd â swydd yn y Pedwerydd Cynulliad. Rydyn ni wedi cymryd i ystyriaeth y strwythur pwyllgorau newydd, lle mae pwyllgorau dwy-swyddogaeth yn gwneud gwaith craffu a gwaith deddfu, ac wedi rhoi ystyriaeth ddyledus hefyd i effaith system etholiadol gweddol gyfrannol ar gyfansoddiad gwleidyddol y Cynulliad, ac felly ar amrywiol rolau'r gwahanol ddeiliaid swyddi.

Rydyn ni'n credu bod ein penderfyniadau ni'n deg, yn glir ac yn gynaliadwy; eu bod yn cynnig gwerth am arian; a'u bod yn adlewyrchu'r cyfrifoldebau ychwanegol sydd gan ddeiliaid swyddi ychwanegol.

Rydyn ni'n ddiolchgar i bawb a fu'n ein helpu yn ystod ail gyfnod ein gwaith.



**Y Gwir Anrhydeddus George Reid**
**Cadeirydd y Bwrdd Taliadau**
**Gorffennaf 2011**

# Egwyddorion a Methodoleg

*Mae'r bennod hon yn crynhoi'n hamcanion a sut yr aethon ni ati yn y cyfnod gwaith hwn.*

## Egwyddorion

18. Wrth gynnal ein hadolygiad o gyflogau ychwanegol i ddeiliaid swyddi, rydyn ni wedi glynu at yr un egwyddorion ag a ddefnyddiwyd yn rhan gyntaf ein gwaith, sef:

- datblygu system o daliadau sy'n addas at ei diben, yn dryloyw ac yn gynaliadwy;
- seilio'r taliadau ar y cyfrifoldeb yn bennaf ac nid ar y llwyth gwaith;
- datblygu methodoleg sy'n adlewyrchu cyfrifoldebau cymharol pob swydd o dan sylw;
- datblygu atebion mewn cyd-destun Cymreig yn bennaf; a
- thargedu'r system o daliadau a lwfansau i ategu diben strategol y Cynulliad yn rhinwedd ei swydd fel deddfwrfa, sef yn benodol dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, deddfu a chynrychioli pobl Cymru.

19. Drwy'r cyfan o gyfnod cyntaf ein gwaith cafodd ein penderfyniadau i gyd eu seilio ar yr egwyddor gyffredinol, sydd hefyd wedi'i mabwysiadu gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion (SSRB):

> "pay should reflect levels of responsibility, rather than workload."[2]

20. Mae'r egwyddor hon wedi parhau i lywio'n hystyriaethau ni, yn ystod ail gyfnod ein gwaith, ar lefelau priodol i'r cyflogau ychwanegol sy'n daladwy i ddeiliaid swyddi.

21. Rydyn ni hefyd wedi ystyried i ba raddau y mae gan ddeiliaid swyddi gyfrifoldeb a chyfraniad i'w wneud o ran cyflawni gallu strategol y Cynulliad. Wrth wneud hyn, rydyn ni wedi cymryd i ystyriaeth gyfrifoldebau a chyfraniadau cymharol deiliaid y gwahanol swyddi yn y Cynulliad.[3]

22. Un egwyddor arweiniol arall yn y gwaith yw y dylai cyfrifoldebau ychwanegol deiliaid swyddi gael eu hystyried yng nghyd-destun y Pedwerydd Cynulliad — Cynulliad trosiannol a fydd yn gweithio'n wahanol yng ngoleuni'r pwerau deddfu ychwanegol sydd ganddo yn sgil y bleidlais Ie

[2] *T4, Adroddiad SSRB Rhif 48: Review of Parliamentary Pay and Allowances, Cyfrol I, 2001*
[3] *Y Prif Weinidog, Weinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol, y Llwyddion, Comisiynydd Cynulliad, rheolwyr busnes a chwipiad y pleidiau, arweinyr pleidiau a chadeiryddion pwyllgor.*

yn y refferendwm a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2011.[4] Yn benodol, mae ail-saernïo'r system bwyllgorau i gynnwys pwyllgorau dwy-swyddogaeth deddfu a chraffu, a chydbwysedd gwleidyddol y Cynulliad yn sgil etholiad Mai 2011, wedi llywio'n dealltwriaeth ni o rolau cadeiryddion pwyllgorau, arweinwyr y gwrthbleidiau, chwipiaid y pleidiau a Chomisiynwyr y Cynulliad.

## Methodoleg

### Casglu Tystiolaeth yn Rhan Un

23. I fwydo rhan gyntaf ein gwaith (Hydref 2010-Mawrth2011), buom yn casglu tystiolaeth gan ddeiliaid swyddi mewn sawl ffordd. Gwahoddwyd pob Aelod o'r Trydydd Cynulliad i ymateb i arolwg a ofynnodd iddyn nhw gynnig sylwadau yn benodol ar gyfrifoldebau deiliaid swyddi; sef eu cyfrifoldebau eu hunain, os oedd hynny'n berthnasol, a chyfrifoldebau pobl eraill. Cyfanswm o 22 o Aelodau a ymatebodd, ac 17 o'r rheiny'n ddeiliaid swyddi. Cynhaliodd aelodau'r Bwrdd gyfweliadau â phob un o'r gwahanol fathau o swydd er mwyn rhoi gwybodaeth ychwanegol am y cyfrifoldebau sy'n rhan annatod o bob rôl ac arweiniodd Cadeirydd y Bwrdd drafodaeth ar gyfrifoldebau a rolau deiliaid swyddi yn ein colocwiwm ym mis Rhagfyr 2010.

24. Dangosodd y dystiolaeth a gasglwyd gennym fod yr Aelodau at ei gilydd yn fodlon ar lefelau'r cyflogau ychwanegol a oedd yn daladwy i'r deiliaid swyddi ar ddiwedd y Trydydd Cynulliad, er bod rhai o'r ymatebwyr yn amau rhesymeg talu cyflogau ychwanegol i chwipiaid y pleidiau, a bod eraill yn teimlo bod lefel y cyflog a oedd yn cael ei thalu i arweinydd yr wrthblaid fwyaf yn rhy uchel.

25. Dangosodd ein harolwg hefyd fod yr Aelodau'n debycach o gael eu cymell i gymryd swyddi ychwanegol am fod hynny'n gyfle i wasanaethu ac i wneud gwahaniaeth nag am resymau ariannol. Er hynny, teimlai'r mwyafrif o'r ymatebwyr ei bod yn briodol i gyfrifoldebau ychwanegol deiliaid swyddi gael eu cydnabod drwy dalu cyflogau ychwanegol.

26. Tynnodd y Bwrdd ar dystiolaeth gan y Bwrdd Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion, yr adolygiadau o dal a lwfansau mewn deddfwrfeydd eraill yn y Deyrnas Unedig, adroddiadau'r ddau banel annibynnol ar dâl a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a chofnodion Comisiwn y Cynulliad er mwyn deall datblygiad y system o gyflogau ychwanegol a oedd ar waith ar ddiwedd y Trydydd Cynulliad. Comisiynodd y Bwrdd ymchwil hefyd ar enillion cyfartalog mewn rolau gweddol debyg yng Nghymru.[5]

27. Doedden ni ddim yn credu bod yr wybodaeth honno'n ddigon inni wneud penderfyniadau terfynol ar gyflogau ychwanegol y canlynol:

- cadeiryddion pwyllgorau;
- arweinwyr y gwrthbleidiau;

[4] *I gael rhagor o ddeunydd darllen am y Cynulliad trosiannol, gweler tudalennau 35-37 o Addas i'r Diben*
[5] *Pennod 6, Addas i'r Diben*

- rheolwyr busnes a chwipiaid y pleidiau; a
- Chomisiynwyr y Cynulliad.

28. Er hynny, roedd gennyn ni ddigon o wybodaeth i ganiatáu inni wneud Penderfyniad interim ar gyfradd cyflog ychwanegol i gadeiryddion y pwyllgorau hynny a oedd yn fwyaf arwyddocaol o ran dibenion strategol y Cynulliad.

### Penderfyniadau Rhan Un

29. Mae Ffigur 4 yn rhoi crynodeb o'r penderfyniadau a wnaethon ni ym mis Mawrth 2011 ar gyflogau ychwanegol deiliaid swyddi am y pedair blynedd o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen. Mae hyn yn cynnwys y penderfyniadau interim a wnaed ynghylch arweinwyr y gwrthbleidiau, chwipiaid y pleidiau, cadeiryddion pwyllgorau a Chomisiynwyr. At ddibenion darlunio, mae'r cyflogau ychwanegol a oedd yn daladwy i ddeiliaid swyddi ar ddiwedd y Trydydd Cynulliad wedi'u cynnwys hefyd.

**Ffigur 4: Penderfyniadau *Addas i'r Diben* ar Gyflogau Ychwanegol i Ddeiliaid Swyddi**[6]

| Y Swydd | Ebrill 2010 (£) | Cyfanswm 2010 (gan gynnwys y cyflog sylfaenol) (£) | Ebrill 2011 (£) | Cyfanswm 2011 (gan gynnwys y cyflog sylfaenol (£) |
|---|---|---|---|---|
| Prif Weinidog Cymru | 80,870 | 134,722 | 80,870 | 134,722 |
| Un o Weinidogion Cymru | 41,949 | 95,801 | 41,949 | 95,801 |
| Cwnsler Cyffredinol | 41,949 | 95,801 | 41,949 | 95,801 |
| Y Llywydd | 41,949 | 95,801 | 41,949 | 95,801 |
| Arweinydd yr wrthblaid fwyaf | 41,949 | 95,801 | - | - |
| Dirprwy Weinidog | 26,385 | 80,237 | 26,385 | 80,237 |
| Y Dirprwy Lywydd | 26,385 | 80,237 | 26,385 | 80,237 |
| Prif Chwip y Llywodraeth | 26,385 | 80,237 | - | - |
| Arweinwyr gwrthbleidiau (heblaw'r un fwyaf ) | 12,168 | 66,020 | - | - |
| Comisiynydd Cynulliad | 12,168 | 66,020 | 8,280 | 62,132 |
| Prif Chwip yr Wrthblaid | 12,168 | 66,020 | - | - |
| Cadeirydd Pwyllgor (lefel uwch) | 12,168 | 66,020 | 8,280 | 62,132 |
| Cadeirydd Pwyllgor (lefel is) | 8,112 | 61,964 | - | - |

### Casglu Rhagor o Dystiolaeth yn Rhan Dau

30. Yn ystod ail ran ein gwaith (Mai-Gorffennaf 2011), rhoddodd cyfanswm o 25 o ddeiliaid swyddi'r gorffennol neu'r presennol dystiolaeth inni am y swyddi o dan sylw. Mae'r broses o gasglu tystiolaeth wedi bod yn fodd inni drafod y rolau a'r sgiliau allweddol y mae'n ofynnol i ddeiliaid swyddi eu hamlygu yn fanylach gydag unigolion sydd â phrofiad o ymgymryd â'r rolau hynny.

[6] *Gan nad oedd digon o dystiolaeth i benderfynu ar lefelau cyflog priodol i gadeiryddion pwyllgorau, arweinwyr y gwrthbleidiau, chwipiaid y pleidiau a'r Comisiynwyr wedi dod i law yn ystod rhan gyntaf ein gwaith, cafodd penderfyniadau ar lefel y cyflogau ychwanegol eu gohirio. Cafodd lefel gyflog interim ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau a'r Comisiynwyr ei phennu.*

31. I gasglu'r dystiolaeth yma, ysgrifennwyd at drawstoriad o ddeiliaid swyddi'r Trydydd Cynulliad (cyfanswm o 29) o bob plaid wleidyddol ac unigolion allweddol o'r Pedwerydd Cynulliad, gan wahodd pob un ohonyn nhw i lenwi holiadur manwl yn holi am gyfrifoldebau penodol pob swydd, perthnasedd y swydd i ddiben strategol y Cynulliad, sut y gallai llwyddiant yn y rolau gael ei fesur, y medrau a'r priodweddau allweddol angenrheidiol, ac a oedd deiliaid y swyddi'n teimlo bod yna gymariaethau dilys i'w cael â swyddi eraill yn economi Cymru. Daeth cyfanswm o 17 o ymatebion ysgrifenedig i law.

32. Ar ôl cael y dystiolaeth ysgrifenedig, cyfarfu'r Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd sydd â phrofiad proffesiynol penodol o faterion tâl â 13 o Aelodau a chyn Aelodau, a oedd rhyngddyn nhw wedi dal pob un o'r pedair swydd o dan sylw ac a oedd yn dod o bob un o'r pedair plaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad. Nod y cyfweliadau hyn oedd cynyddu'n dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau'r deiliaid swyddi a'u cyfraniad at gyflawni diben strategol y Pedwerydd Cynulliad. Cafodd y Bwrdd friffiadau manwl hefyd gan swyddogion y Cynulliad ar effaith debygol y strwythur pwyllgorau diwygiedig yn y maes yma.

33. Edrychodd y Bwrdd ar bob ffordd y disgwylir i bob un o'r gwahanol swyddi weithredu yng nghyd-destun y Pedwerydd Cynulliad, gan roi sylw penodol i'w gyfansoddiad gwleidyddol a'i bwerau deddfu ehangach. Gofynnodd y Bwrdd hefyd i'r rhai a roddodd dystiolaeth gymharu cyfrifoldebau cymharol y swyddi ychwanegol yn y Cynulliad a rhoi eu barn ynghylch arwyddocâd cymharol pob un o'r rolau ar gyfer diben strategol y Cynulliad. Mae'r cyfuniad o dystiolaeth a gafwyd yn ystod dwy ran ein gwaith yn caniatáu inni ffurfio barn ar drefn y swyddi hyn o ran eu cyfrifoldeb a'u diben strategol o'u cymharu â'i gilydd a'u safle ar raddfa ansoddol sy'n amrywio o Aelod o'r Cynulliad i'r Prif Weinidog.

34. Llwyddodd ein trafodaethau ag Aelodau nid yn unig i roi golwg inni ar gyfraniadau'r gwahanol swyddi at ddiben strategol y Cynulliad, ond hefyd i ddangos bod yna gytundeb sylweddol ymhlith yr Aelodau ar gyfrifoldebau ychwanegol cymharol pob swydd. Roedd yna gytundeb cyffredinol yn benodol:

- bod yna gryn dipyn o dir cyffredin o ran cyfrifoldebau arweinwyr pob un o'r gwrthbleidiau ond bod yna wahaniaeth yn natur y cyfrifoldebau hynny sy'n cyfateb yn fras i nifer yr Aelodau yng ngrŵp y blaid. Petai gan grŵp gwrthbleidiol damcaniaethol 30 o Aelodau, roedd yna gytundeb cyffredinol y byddai gan arweinydd y grŵp hwnnw gyfrifoldebau a fyddai'n debyg yn fras i gyfrifoldebau un o Weinidogion Cymru. Byddai cyfrifoldebau arweinydd grŵp o'r maint lleiaf posibl, sef tri o Aelodau Cynulliad, gryn dipyn yn llai na hyn, ond yn dal yn fwy na chyfrifoldebau cadeiryddion y pwyllgorau sy'n bwysicaf yn strategol;

- bod cyfrifoldebau Comisiynwyr y Cynulliad yn cyfateb yn fras i gyfrifoldebau cadeiryddion y pwyllgorau sydd bwysicaf yn strategol, a bod cyfrifioldebau'r ddwy swydd hyn yn haeddu cyflogau ychwanegol;

- o ganlyniad i'r strwythurau cyflogau newydd y cytunodd y Cynulliad arnyn nhw, fod cyfrifoldebau cadeiryddion pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad yn debyg o fod yn fwy na


chyfrifoldebau pwyllgorau'r Trydydd Cynulliad. Er hynny, nid pob cadeirydd pwyllgor fyddai â'r un lefelau cyfrifoldeb, ac felly dylai'r strwythur cyflogau dwy-haen barhau; ac

- na ddylai rôl chwip plaid gael ei thalu o'r cronfeydd cyhoeddus, er bod rôl rheolwr busnes plaid yn haeddu cyflog ychwanegol. Roedd yna gonsensws bod lefel y cyfrifoldeb yn is na chyfrifoldeb cadeiryddion y pwyllgorau sy'n fwyaf arwyddocaol yn strategol ond y dylai gael ei bwysoli yn ôl nifer yr Aelodau ym mhob grŵp.

35. Mae'r ymagwedd gymharol hon at rolau a chyfrifoldebau deiliaid swyddi wedi'n galluogi i ddatblygu fframwaith cydlynol, cynaliadwy ar gyfer talu cyflogau ychwanegol i ddeiliaid swydd gan roi cydnabyddiaeth fras i'r gymhariaeth fewnol rhyngddyn nhw. Mae'n canfyddiadau wedi'u nodi yn Ffigur 5.

36. Mae rhagor o fanylion am y fethodoleg benodol sydd wedi'i defnyddio i bennu lefel gyflog pob swydd wedi'u nodi yn y penodau perthnasol.

**Ffigur 5: Cyfrifoldebau ac Arwyddocâd Strategol Cymharol Rolau'r Deiliaid Swyddi**




37. Un o'r egwyddorion allweddol rydyn ni wedi seilio'r system o gymorth ariannol a nodir yn ein Penderfyniad arni yw bod rhaid i'r cymorth ariannol a'r taliadau a roddir i Aelodau'r Cynulliad gael eu seilio mewn cyd-destun Cymreig. Gan hynny, yn ein penderfyniadau ar gyflogau ychwanegol i ddeiliaid swyddi cymerwyd i ystyriaeth y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod rhan gyntaf ein gwaith sef bod y cyflog a oedd yn cael ei dalu i'r Aelodau (£53,852) o fewn yr 1.7 y cant uchaf yn nosbarthiad enillion Cymru.[7] Er bod y lefel cyflog sylfaenol hon a'r cyflogau ychwanegol sy'n daladwy i ddeiliaid swyddi wedi'u rhewi am bedair blynedd o ddechrau'r

[7] *Pennod 5, Addas i'r Diben*

Pedwerydd Cynulliad ymlaen, mae'r man cychwyn cymharol uchel o'i gymharu ag enillion cyfartalog Cymru yn golygu ein bod o'r farn na ddylai'r lefelau cyflog rydyn ni wedi'u pennu atal Aelodau rhag ystyried sefyll am swyddi ychwanegol.

### Penderfyniadau Rhan Dau

38. Yn ystod ein hystyriaeth ar lefel briodol cyflogau ychwanegol i arweinwyr pleidiau, chwipiau pleidiau, cadeiryddion pwyllgorau a'r Comisiynwyr, aethon ni ati i gloriannu ac ystyried cyfrifoldebau a chyfraniadau cymharol y swyddi hyn a swyddi yr oedd penderfyniadau ar gyflogau ychwanegol iddyn nhw eisoes wedi'u cymryd at ddiben strategol y Cynulliad. Helpodd hyn i sicrhau bod yna gydlynedd mewnol yn strwythur y taliadau i ddeiliaid swyddi.

39. Mae'r penderfyniadau ar gyflogau ychwanegol i bob swydd, a manylion y methodolegau penodol a ddefnyddiwyd, wedi'u nodi ym Mhenodau 2 i 5.

## Ystyriaethau at y Dyfodol

### Cynllun Pensiwn yr Aelodau

40. Rhan nesaf ein gwaith fydd cynnal adolygiad o fudd-daliadau pensiwn i Aelodau, deiliaid swyddi a staff. Yn *Addas i'r Diben* nodwyd y byddem yn gohirio ystyried y mater hwn nes inni gael prisiad actiwaraidd y cynllun yn 2011 a nes inni gael amser i ystyried goblygiadau adroddiad yr Arglwydd Hutton ym mis Mawrth 2011 ar bensiynau'r sector cyhoeddus a'r drafodaeth gyhoeddus am ei gasgliadau. Rydyn ni'n bwriadu dechrau gwaith yn y maes yma, gan rag-weld y bydd hwnnw'n parhau drwy gydol y Pedwerydd Cynulliad, yn ystod hydref 2011.

### Monitro a Chloriannu

41. Byddwn yn monitro sut mae'n Penderfyniad yn cael ei roi ar waith a'i effaith, er mwyn sicrhau bod y system gymorth rydyn ni wedi'i sefydlu ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad yn dal yn addas at ei diben. Yn benodol, byddwn yn asesu effaith ein hargymhellion yn *Addas i'r Diben* ynghylch staff cymorth yr Aelodau a chynyddu gallu strategol y Cynulliad, gan wneud rhagor o newidiadau os bydd eu hangen.

### Staff Cymorth yr Aelodau

42. Cyn mis Ebrill 2013, byddwn yn adolygu trefniadau tâl staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, a hyn ar ôl inni fynd ati o'r blaen i rewi eu graddfeydd cyflog tan hynny.[8]

### Cynulliad Pum Mlynedd

43. Mae'r system cymorth ariannol a nodwyd yn ein Penderfyniad wedi'i gosod ar gyfer y pedair blynedd ar ôl dechrau'r Pedwerydd Cynulliad. Fel y nodwyd yn *Addas i'r Diben*, mae'n debyg y bydd Mesur Seneddau Cyfnod Penodol 2010-11 yn arwain at ymestyn cyfnod y Pedwerydd Cynulliad i bum mlynedd.

---

[8] *Pennod 9, Addas i'r Diben*

44. Yn 2013-14 felly byddwn yn adolygu'r penderfyniadau rydyn ni wedi'u cymryd ar lefelau cyflog yr Aelodau i asesu a yw'r system cymorth ariannol sydd wedi'i phennu ar gyfer blwyddyn olaf y Pedwerydd Cynulliad yn briodol ac i benderfynu ar y trefniadau at y Pumed Cynulliad. Cyn gwneud ein Penderfyniad ar gyfanswm y pecyn tâl ar gyfer y Pumed Cynulliad, rydyn ni'n debyg o asesu pwysau a chyfrifoldebau swyddi Aelodau'r Cynulliad, y Gweinidogion a'r deiliaid swyddi eraill yn ngoleuni datblygiad y Pedwerydd Cynulliad.

# Cadeiryddion Pwyllgorau

*Mae'r bennod hon yn nodi hanes taliadau atodol i gadeiryddion pwyllgorau; yn adolygu eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y Pedwerydd Cynulliad; ac yn amlinellu'n penderfyniadau ar gyflogau ychwanegol.*

## Trosolwg

45. Fel y nodwyd yn *Addas i'r Diben*, mae i'r system o dalu cadeiryddion pwyllgorau hanes hir, a honno, yn ein barn ni "wedi esblygu heb i unrhyw egwyddorion arweiniol cadarn fod ar waith".[9]

46. Yn y ddau Gynulliad cyntaf, roedd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad sefydlu pwyllgorau pwnc, pwyllgorau rhanbarth, pwyllgor i graffu ar is-ddeddfwriaeth a phwyllgor archwilio. Roedd y pwyllgorau pwnc yn cyfateb i bortffolios y Gweinidogion ac roedden nhw'n anarferol yn yr ystyr bod y Gweinidogion eu hunain yn aelodau o'r pwyllgorau. Doedd cadeiryddion y pwyllgorau ddim yn cael eu talu.

47. Dywedodd adolygiad gan yr SSRB yn 2001 fod cyfrifoldebau cadeirydd pwyllgor yn fwy na chyfrifoldebau Aelod o'r Cynulliad, ac y gellid creu achos o blaid talu cyflogau ychwanegol i gadeiryddion rhai pwyllgorau.[10] Yn sgil hyn cafodd cadeiryddion rhai o'r pwyllgorau pwnc a'r pwyllgorau craffu gyflogau ychwanegol. Cododd nifer y cadeiryddion hyn yn 2008, yn sgil sefydlu pum pwyllgor deddfau parhaol, bob un â Chadeirydd heb bleidlais.[11] Er nad oedd cadeiryddion pwyllgorau deddfau ad hoc wedi cael cyflogau ychwanegol o'r blaen, roedd y Comisiwn o'r farn ei bod yn debyg y byddai'r pwyllgorau deddfau parhaol newydd yn cyfarfod yn fynych ac yn rheolaidd, ac y byddai rôl y cadeirydd yn un arbenigol, ac yn gofyn am ddatblygu arbenigedd estynedig mewn gweithdrefnau deddfu. I gymryd swm, proffil uchel a natur arbenigol y gwaith yr oedd yn ofynnol i gadeiryddion y pwyllgorau deddfu newydd ei wneud i ystyriaeth, cytunodd y Comisiwn y dylai cadeiryddion pwyllgorau deddfau gael cyflogau ychwanegol a fyddai'n gymesur â chyflogau cadeiryddion y pedwar prif pwyllgor craffu, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cyllid.[12]


48. Cafodd cwestiwn cyflogau ychwanegol i gadeiryddion pwyllgorau ei ystyried gan y ddau banel annibynnol ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad. Argymhellodd y panel cyntaf na ddylai

[9] *T56, Addas i'r Diben*
[10] *SSRB Rhif 49 National Assembly for Wales: Review of Pay and Allowances, Mai 2001*
[11] *Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyflogau Cadeiryddion Pwyllgorau Deddfwriaethol Parhaol, NAFWC 2008 Papur 4, 4 Rhagfyr 2008*
[12] *Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnodion cyfarfod 6 Mawrth, 2008*

lefel y tâl nac ystod y cadeiryddion a oedd yn cael cyflogau ychwanegol gael eu hymestyn[13] ond, ar sail tystiolaeth lafar ar wahân i'r Comisiwn, cafodd y cyflogau a oedd yn daladwy i gadeiryddion rhai pwyllgorau eu codi, a chafodd cyfradd cyflog ychwanegol ei ddefnyddio ar gyfer rhai pwyllgorau eraill.[14] Does dim gwybodaeth wedi'i chofnodi ar sut y cafodd y penderfyniad hwn ei wneud. Cafodd y strwythur dwy-haen ei ategu gan yr ail banel annibynnol a benderfynodd yn 2009 y dylid cynyddu lefelau'r cyflogau ychwanegol ar y gyfradd uwch a'r gyfradd is, er nad yw'n gwbl glir ar ba dystiolaeth y cafodd y cynnydd ei seilio.[15]

49. Mae Ffigur 6 yn dangos datblygiad y cyflogau ychwanegol sy'n daladwy i gadeiryddion pwyllgorau, gan gynnwys ein penderfyniad interim ni ynglŷn â chadeiryddion y pwyllgorau mwyaf arwyddocaol yn strategol.

**Ffigur 6: Twf y Cyflogau a Delid i Gadeiryddion Pwyllgorau ar Ddechrau Pob Blwyddyn Ariannol**




50. Er na chawson ni ddigon o dystiolaeth yn ystod rhan gyntaf ein gwaith i wneud penderfyniad terfynol ar lefel cyflogau ychwanegol cadeiryddion pwyllgorau, fe ymgymerodd y Bwrdd ag ymchwil i feincnodi rolau cadeiryddion pwyllgorau'r Cynulliad o'u cymharu â rolau tebyg yn economi Cymru.[16] Caniataodd y gwaith hwn, ar y cyd â gwybodaeth am arferion deddfwrfeydd eraill y Deyrnas Unedig, a thystiolaeth a gafwyd am gyfraniad cadeiryddion pwyllgorau at allu strategol y Cynulliad, inni wneud penderfyniad interim am gyfradd cyflogau ychwanegol cadeiryddion y pwyllgorau hynny a oedd yn fwyaf arwyddocaol i ddibenion strategol y Cynulliad. Cafodd ein penderfyniad interim ei seilio ar gyfrifoldebau cadeiryddion y pwyllgorau yn ystod y Trydydd Cynulliad, sef y dystiolaeth a oedd ar gael ar y pryd. Doedd dim modd ym mis Mawrth 2011 inni ddiffinio pa bwyllgorau a fyddai'n fwyaf arwyddocaol o safbwynt strategol yn y Pedwerydd Cynulliad, gan fod yna ansicrwydd ynghylch y strwythur pwyllgorau a fyddai'n cael ei sefydlu.

---

[13] *Adroddiad y Panel Annibynnol ar Gymorth Ariannol i Aelodau'r Cynulliad, 2008*
[14] *Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnodion cyfarfod 4 Rhagfyr, 2008*
[15] *Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Yn Gywir i Gymru: Adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol ar Dâl a Lwfansau'r Aelodau, 2009*
[16] *Pennod 6, Addas i'r Diben*

## Egwyddorion

51. Mae'n penderfyniadau ni ar dâl wedi'u seilio ar yr egwyddor hon:

> "pay should reflect levels of responsibility, rather than workload."[17]

52. Fel y nodwyd yn *Addas i'r Diben*, mae'r "egwyddor hon yn arbennig o briodol wrth ystyried cyflogau ychwanegol ar gyfer deiliaid swyddi".[18]

53. Felly, i asesu lefel y cyflog ychwanegol i gadeiryddion y pwyllgorau sy'n hanfodol ar gyfer diben strategol y Cynulliad rydyn ni wedi adolygu cyfraniad cadeiryddion pwyllgorau at allu strategol y Cynulliad, a'r cyfrifoldebau penodol sy'n gysylltiedig â rôl cadeirydd pwyllgor yn y Pedwerydd Cynulliad.

54. Cymerwyd i ystyriaeth hefyd y penderfyniadau rydyn ni wedi'u gwneud o'r blaen ynghylch tâl Aelodau, gan gynnwys y penderfyniad i rewi cyflogau sylfaenol yr Aelodau am bedair blynedd, a lefelau cyflogau ychwanegol deiliaid swyddi ychwanegol, o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad.[19]

## Methodoleg

### Pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad

55. Rhoddodd y Rheolau Sefydlog newydd y cytunwyd arnyn nhw ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad fwy o hyblygrwydd nag o'r blaen i'r Pwyllgor Busnes o ran strwythur system bwyllgorau'r Cynulliad, gan alluogi'r Cynulliad i gytuno ym mis Mehefin 2011 y dylid ffurfio strwythur symlach o bwyllgorau nag a geid yn y Trydydd Cynulliad.[20]

56. Mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod y strwythur pwyllgorau yn craffu ar bob un o feysydd cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus perthynol, pob mater sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol. Rhaid hefyd i'r Pwyllgor sicrhau cydbwysedd bras rhwng archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus perthynol, ac archwilio deddfwriaeth.[21]

57. Mae'r Rheolau Sefydlog hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r system bwyllgorau gyflawni swyddogaethau penodol eraill ynglŷn â chyllid, materion y cyfansoddiad a deddfwriaeth, safonau ymddygiad a deisebau.[22] Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gofyn bod yna Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus hefyd.[23]

---

[17] *T4, Adroddiad SSRB Rhif 48: Review of Parliamentary Pay and Allowances, Cyfrol I, 2001*
[18] *T51, Addas i'r Diben*
[19] *Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru, Dirprwy Weinidogion, Llywyddion.*
[20] *Mae'r Pwyllgor Busnes yn wahanol i bwyllgorau'r Cynulliad sy'n gwneud gwaith craffu ar bolisi a deddfwriaeth. Pwyllgor gweithredol yw hwn sy'n gyfrifol am reoli a chydlynu busnes y Cynulliad.*
[21] *Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mai 2011*
[22] *Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mai 2011*
[23] *Adran 30, Deddf Llywodraeth Cymru 2006*

58. Mae Ffigur 7 yn nodi strwythur pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad, fel y cytunwyd arno yn y cyfarfod llawn ym mis Mehefin 2011. Nodir maint pob pwyllgor hefyd.

**Ffigur 7: Pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad**

| Y pwyllgor | | Yr aelodaeth |
|---|---|---|
| Pwyllgorau polisi | | |
| | Plant a Phobl Ifanc | 10 |
| | Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd | 10 |
| | Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 10 |
| | Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol | 10 |
| | Menter a Busnes | 10 |
| Pwyllgorau eraill | | |
| | Cyfrifon Cyhoeddus | 8 |
| | Cyllid | 8 |
| | Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol | 5[24] |
| | Deisebau | 4 |
| | Safonau | 4 |

59. Mae'r Pedwerydd Cynulliad wedi cytuno y bydd gan y pum pwyllgor polisi, bob un â chylch gwaith eang sydd wedi'i ddiffinio yn unol â meysydd cyfrifoldeb polisi Llywodraeth Cymru, ddwy swyddogaeth, sef ym maes deddfu ac ym maes craffu, ac aelodaeth ddigon mawr i ganiatáu iddyn nhw wneud gwaith mewn grwpiau llai ac mewn is-bwyllgorau os yw hynny'n briodol er mwyn i waith polisi a gwaith deddfu gael ei wneud yr un pryd yn ôl yr angen.

### Cyfrifoldebau Cadeiryddion Pwyllgorau sydd â Swyddogaethau Craffu a Deddfu

60. Nid yw'r Cynulliad wedi diffinio cyfrifoldebau'r pwyllgorau yn fanwl iawn. Er mwyn inni gael sail i wneud ein penderfyniadau am gyflogau ychwanegol i gadeiryddion pwyllgorau arni, yn ystod ein cyfweliadau ag Aelodau a deiliaid swyddi, a thrwy ein holiaduron, rydyn ni wedi ystyried graddau'r cyfrifoldeb o dan sylw. Rydyn ni hefyd wedi cymryd i ystyriaeth adroddiadau yn y maes hwn o ddeddfwrfeydd eraill. Yng nghylch gwaith bras y Cynulliad o graffu ar ddeddfwriaeth, polisi, gwariant a pherfformiad y Llywodraeth, rydyn ni'n credu mai'r canlynol yw brif gyfrifoldebau cadeiryddion y pwyllgorau:

- cyflawni rhaglen gytbwys, gynhwysfawr ac effeithiol o waith craffu ar ddeddfwriaeth, polisi a chyllid;
- cynnal annibyniaeth eu pwyllgor oddi wrth Lywodraeth Cymru;
- gweithredu'n ddiduedd, yn deg ac yn bendant;
- meistroli cylch gwaith eu pwyllgor ac ennyn hyder y rhanddeiliaid a'r aelodau;

[24] *Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cynnwys un Aelod Cynulliad o bob plaid wleidyddol a'r Dirprwy Lywydd yn gadeirydd.*

- sicrhau ymrwymiad ac ymroddiad aelodau'r pwyllgor;
- goruchwylio'r cymorth a'r cyngor sydd ar gael i'r pwyllgor; a
- sbarduno arloesedd, ymroddiad ac effaith gwaith eu pwyllgor.

61. Mae rhagor o fanylion ein canfyddiadau ar y cyfrifoldebau allweddol wedi'u nodi yn Atodiad D.

62. Clywsom dystiolaeth y bydd strwythur pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgorau reoli rhaglen fwy ymestynnol ac amrywiol o waith nag yn y Trydydd Cynulliad gan ddefnyddio llawer mwy ar is-bwyllgorau ffurfiol, grwpiau anffurfiol a *rapporteurs*, yn ogystal â pharhau â gwaith y pwyllgor llawn.

63. Bydd y cyfrifoldebau ehangach hyn yn gorffwys ar ysgwyddau cadeiryddion y pum pwyllgor polisi, ac, yn ein barn ni, ar ysgwyddau cadeiryddion y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol hefyd. Rhyngddyn nhw, bydd yr wyth pwyllgor hyn yn gyfrifol am graffu ar y cyfan o raglen bolisi Llywodraeth Cymru, ei gwariant a'i gweithredoedd, a'u cadeiryddion fydd yn gyfrifol am roi arweiniad, gan sbarduno agendâu'r pwyllgorau a sicrhau bod dibenion strategol y Cynulliad ym maes deddfwriaeth a chraffu yn cael eu cyflawni.

64. Yn ystod rhan gyntaf ein gwaith, meincnododd y Bwrdd rolau cadeiryddion pwyllgorau'r Cynulliad o'u cymharu â chymaryddion bras yn sector cyhoeddus a phreifat Cymru, a oedd yn cynnwys aelodau a chadeiryddion byrddau iechyd lleol, cyrff y GIG yng Nghymru, cyrff sy'n cael eu noddi gan Lywodraeth Cymru a phwyllgorau llywodraeth leol. Arweiniodd hyn at benderfyniad interim ar gyflog ychwanegol o £8,280 i gadeiryddion y pwyllgorau pwysicaf o safbwynt strategol yn y Pedwerydd Cynulliad.[25]

65. Edrychodd y Bwrdd eilwaith ar y swm hwn yng ngoleuni'r dystiolaeth a gafwyd yn ail ran ein gwaith ynghylch rolau'r pwyllgorau a chadeiryddion y pwyllgora yn y Pedwerydd Cynulliad. Yn ein barn ni, bydd sicrhau bod yna waith craffu ar wariant a pholisi Llywodraeth Cymru ac ar ddeddfwriaeth yn y strwythur llawer meinach o bwyllgorau sydd wedi'i sefydlu gan y Cynulliad yn arwain at gyfrifoldebau tipyn mwy arwyddocaol i gadeiryddion pob un o'r wyth pwyllgor o'u cymharu â chyfrifoldebau cadeiryddion y pwyllgorau craffu a deddfu yn y Trydydd Cynulliad.

66. Ar sail y dystiolaeth rydyn ni wedi'i chael, rydyn ni wedi dod i'r casgliad bod £12,420 yn lefel briodol o gyflog ychwanegol i gadeiryddion y pwyllgorau a nodir ym mharagraff 63. Mae hyn 50 y cant yn fwy na'r lefel gyflog interim o £8,280 a bennwyd gennym ym mis Mawrth 2011.

### Cyfrifoldebau Cadeiryddion Pwyllgorau Eraill y Pedwerydd Cynulliad

67. Rhoesom ystyriaeth i rolau a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Deisebau a'r Pwyllgor Safonau ar wahân.

[25] *Pennod 6, Addas i'r Diben*

**Y Pwyllgor Safonau**

68. Roedd y dystiolaeth a gawsom yn ystod rhan gyntaf ein gwaith yn awgrymu mai anaml yr oedd y Pwyllgor Safonau yn cyfarfod o'i gymharu â'r mwyafrif o bwyllgorau eraill y Cynulliad. Er hynny, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod ail ran ein gwaith roedd yn glir bod yna gydnabyddiaeth bod y Pwyllgor Safonau, a gwaith y pwyllgor hwnnw, yn ganolog i lywodraethiant da ac enw da y Cynulliad.

69. Cymerwyd i ystyriaeth natur y gwaith, a phwysigrwydd rôl y Pwyllgor wrth weithio gyda Chomisiynydd Safonau annibynnol y Cynulliad i ddangos ymrwymiad y Cynulliad i'r lefelau uchaf o ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus. Ystyriwyd hefyd y cyfrifoldebau sylweddol sydd ynghlwm wrth ystyried sancsiynau posibl yn erbyn Aelodau'r Cynulliad.

70. O gofio'r rhan arwyddocaol sy'n cael ei chwarae gan y Pwyllgor Safonau wrth hybu a chynnal enw da'r Cynulliad a'i Aelodau, cawsom ein darbwyllo y bydd lefel y cyfrifoldeb sy'n gysylltiedig â chadeirio'r Pwyllgor yn sylweddol. Serch hynny, rydyn ni'n nodi mai'r Pwyllgor Safonau yw'r unig un o blith pwyllgorau'r Cynulliad sydd heb raglen dreigl o waith. Yn hytrach, mae'n cyfarfod mewn ymateb i raddau helaeth i faterion a gyfeirir ato a hynny heb fod yn rheolaidd, yn ôl profiad y tri Chynulliad cyntaf. Rydyn ni'n barnu felly y bydd lefel barhaus y cyfrifoldeb yn is na lefel y cadeiryddion eraill.

**Y Pwyllgor Deisebau**

71. Yn *Addas i'r Diben*, nododd y Bwrdd ein dealltwriaeth o swyddogaethau strategol y Cynulliad - craffu ar bolisi a chyllid Llywodraeth Cymru; craffu ar ddeddfau a gwneud deddfau; a chynrychioli etholwyr.[26] Mae gan y Pwyllgor Deisebau ran i'w chwarae i ategu'r gwaith ym mhob un o'r tair swyddogaeth hyn. Rôl y Pwyllgor yw ystyried yr holl ddeisebau derbyniadwy sy'n cael eu cyflwyno gan y cyhoedd ac felly mae'n anelu at fod yn un o'r prif sianeli i bobl Cymru ymwneud yn uniongyrchol â'r Cynulliad. Mae deisebwyr yn gallu dod i gyfarfodydd y Pwyllgor i drafod eu cynigion, sy'n gallu ymwneud ag unrhyw agwedd ar waith y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru.

72. Mae'r Llywydd wedi dweud:

> "Mae'r Cynulliad newydd yn cynrychioli cymunedau ledled y wlad. Yr wyf am i'r pedwerydd Cynulliad ymwneud yn uniongyrchol â chymunedau ar draws y wlad. […] Ni ddylai neb yng Nghymru deimlo nad oes ganddynt lais yn y broses."[27]

73. Rydyn ni'n credu bod gan y Pwyllgor Deisebau gryn botensial i ddatblygu ymhellach ar ymgysylltiad dinasyddion â'r Cynulliad ledled Cymru. Dim ond pedwar aelod sydd ganddo, ac mae ei ffocws yn wahanol i weddill pwyllgorau'r Cynulliad yn yr ystyr fod ganddo lai o ymwneud uniongyrchol â'r dasg o ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Gan hynny, rydyn ni o'r farn bod

[26] *Pennod 4, Addas i'r Diben*
[27] *Datganiad i'r wasg: http://www.cynulliadcymru.org/newhome/new-news-fourth-assembly.htm?act=dis&id=216913&ds=6/2011 (6 Gorffennaf 2011)*

lefel cyfrifoldeb cadeirydd y Pwyllgor yn is na lefel cyfrifoldeb cadeiryddion y pwyllgorau sydd wedi'u rhestru ym mharagraff 63.

**Cyflogau ychwanegol i Gadeiryddion y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Deisebau**

74. Daethom i'r casgliad bod ehangder cyfrifoldebau a chyfraniad y Pwyllgor Safonau a 'r Pwyllgor Deisebau at ddiben strategol y Cynulliad yn fwy cyfyngedig na chyfrifoldeb a chyfraniad yr wyth pwyllgor arall. Rydyn ni o'r farn bod cyfrifoldebau cadeiryddion y ddau bwyllgor hyn yn agos iawn i gyfrifoldebau a chyfraniadau cadeiryddion pwyllgorau mwyaf y Trydydd Cynulliad. Oherwydd hyn, penderfynwyd bod ein penderfyniad interim ar gyflog ychwanegol o £8,280 i gadeiryddion pwyllgorau, fel y'i nodwyd yn *Addas i'r Diben,*[28] yn lefel briodol o gyflog ychwanegol i gadeiryddion y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Deisebau yn y Pedwerydd Cynulliad.

## Casgliadau

75. **Mae llawer o fusnes craidd y Cynulliad yn cael ei gynnal drwy waith ei bwyllgorau. Mae gan gadeiryddion pwyllgorau, drwy arwain, drwy lunio agenda eu pwyllgorau, a thrwy gynrychioli eu pwyllgorau yn y Cyfarfod Llawn, y cyfryngau a bywyd cyhoeddus Cymru, rôl bwysig i'w chwarae i ategu ac ysgogi nodau strategol y Cynulliad. A deg yn unig o bwyllgorau craidd ganddo, mae'r Cynulliad wedi nodi ei flaenoriaethau'n glir ac wedi rhesymoli'r system y mae ei hangen i wireddu'r rheiny. Mae'n penderfyniadau ni ynglŷn â'r cyflogau ychwanegol i gadeiryddion pwyllgorau'n adlewyrchu'r cyfrifoldebau sy'n rhan annatod o'r rôl hon.**

76. **Ar sail y dystiolaeth a gawsom ynglŷn â'r swyddogaethau y disgwylid eu gweld yn strwythur pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad, penderfynodd y Bwrdd ar strwythur dwy-haen o gyflogau ychwanegol, fel y gwelir yn Ffigur 8. Caiff y taliadau hyn eu hôl-ddyddio i ddyddiad penodi cadeiryddion y pwyllgorau. Mae'r cyflogau ychwanegol i gadeiryddion pwyllgorau wedi'u rhewi yn yr un modd â lefelau cyflog sylfaenol yr Aelodau, fel y nodwyd yn *Addas i'r Diben*.**[29]

**Ffigur 8: Y Cyflogau Ychwanegol sy'n Daladwy i Gadeiryddion Pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad**

| Y pwyllgorau | Y cyflog ychwanegol |
|---|---:|
| Plant a Phobl Ifanc; Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol; Menter a Busnes; Cyfrifon Cyhoeddus; Cyllid; Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol | £12,420 |
| Deisebau; Safonau | £8,280 |

## Ystyriaethau at y dyfodol

77. Mae'n penderfyniadau ar gyflogau ychwanegol i gadeiryddion pwyllgorau wedi'u seilio ar dystiolaeth a gawsom am swyddogaethau tebyg y strwythur pwyllgorau newydd. Er hynny, mae'r strwythur o bwyllgorau dwy-swyddogaeth y cytunodd y Pwyllgor Busnes arno yn bur

[28] *Pennod 6, Addas i'r Diben*
[29] *Pennod 5, Addas i'r Diben*

wahanol i'r arfer o gael pwyllgorau deddfau a phwyllgorau craffu ar wahân yn y Trydydd Cynulliad. Gan hynny, byddwn yn monitro sut mae'r system bwyllgorau'n gweithio'n ymarferol er mwyn sicrhau bod y cyflogau ychwanegol rydyn ni wedi cytuno arnyn nhw yn parhau'n briodol. Er enghraifft, pe bai'r Cynulliad yn creu rhagor o bwyllgorau neu'n ailwampio'r strwythur a sefydlodd ym mis Mehefin 2011, fe fydden ni'n ystyried effaith y newidiadau hynny ar y penderfyniadau rydyn ni wedi'u gwneud. Pe baen ni'n credu bod y newidiadau'n sylweddol, fe allen ni benderfynu wedyn addasu cyflogau ychwanegol cadeiryddion y pwyllgorau i adlewyrchu'r newidiadau hynny.

# Arweinwyr Pleidiau

*Mae'r bennod hon yn nodi hanes y taliadau atodol i arweinwyr pleidiau; effaith system etholiadol weddol gyfrannol ar y gwrthbleidiau; rolau a chyfrifoldebau eu harweinwyr; ac yn amlinellu'n penderfyniadau ar gyflogau ychwanegol.*

## Trosolwg

78. Yn eu hadroddiad yn 2001, wnaeth y SSRB ddim argymhellion ar gyflogau arweinwyr gwrthbleidiau'r Cynulliad Cenedlaethol.[30] Y Cynulliad ei hunan a benderfynodd osod cyflog ychwanegol arweinydd yr wrthblaid fwyaf ar yr un lefel â'r hyn sy'n cael ei dalu i Weinidogion Cymru.[31]

79. Wnaeth yr SSRB ddim cynnig newid yn y sefyllfa hon yn eu hadroddiad yn 2004, er eu bod nhw wedi argymell y dylid ystyried talu arweinwyr y pleidiau eraill, gan eu bod o'r farn y gallai hynny helpu i ategu ethos cyfrannedd, a oedd wedi'i blannu'n gadarn yn system etholiadol y Cynulliad.[32]

80. Argymhellodd y panel annibynnol cyntaf a ystyriodd y system o gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad ym mis Mawrth 2008 y dylai arweinwyr y gwrthbleidiau eraill hwythau gael cyflogau ychwanegol, ond ar lefel a fyddai'n cyfateb i gyflogau ychwanegol cadeiryddion pwyllgorau. Cafodd hyn ei wneud ar sail tystiolaeth a gafodd y panel i'r perwyl bod yr arweinwyr yn gweithredu fel cynrychiolwyr eu pleidiau a'u grwpiau yn y Cynulliad; eu bod yn gyfrifol am y lwfansau a gâi grŵp y blaid ac am dalu staff y grŵp; ac nad yw'r Cynulliad wedi'i seilio ar fodel tebyg i San Steffan. Dywedodd y panel mai triniaeth gydradd i bob grŵp gwleidyddol oedd y protocol a oedd wedi ennill ei blwyf yn y Cynulliad.[33]

81. Er bod y panel wedi nodi mai arweinydd y brif wrthblaid yn unig a oedd yn cael cyflog yn San Steffan, ac nad oedd cyflogau ychwanegol yn cael eu talu i arweinwyr y gwrthbleidiau yn yr Alban[34] na Gogledd Iwerddon, roedden nhw'n teimlo y byddai'n briodol – er mwyn i anghysondebau yn y system ar y pryd, a grëwyd gan y system etholiadol gweddol gyfrannol a diffyg system draddodiadol debyg i San Steffan - i'r holl arweinwyr pleidiau gael eu talu.[35] Derbyniwyd hyn gan y Comisiwn ar 6 Mawrth 2008.[36]

82. Ym mis Gorffennaf 2009, dywedodd adroddiad yr ail banel adolygu annibynnol y dylai cydraddoldeb gael ei gadw rhwng tâl arweinwyr y pleidiau nad oedden nhw'n rhan o'r


[30] *Adroddiad SSRB Rhif 49: National Assembly for Wales: Review of Pay and Allowances, 2001*
[31] *Penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion) (Cyflogau, Lwfansau etc.) (Rh 2) 2001*
[32] *Adroddiad SSRB Rhif 58: National Assembly for Wales: Review of Pay and Allowances, 2004*
[33] *Adroddiad y Panel Annibynnol ar Gymorth Ariannol i Aelodau'r Cynulliad, 2008*
[34] *Cafodd cynllun lwfansau ei sefydlu i helpu arweinwyr gwrthbleidiau Senedd yr Alban.*
[35] *Adroddiad y Panel Annibynnol ar Gymorth Ariannol i Aelodau'r Cynulliad, 2008*
[36] *Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnodion Cyfarfod 6 Mawrth 2008*

weithrediaeth heblaw'r un fwyaf, a chadeiryddion pwyllgorau.[37] Ddywedodd y panel ddim byd am y cyflog ychwanegol sy'n cael ei dalu i arweinydd yr wrthblaid fwyaf.

83. Roedd cydbwysedd gwleidyddol y Trydydd Cynulliad, pan ffurfiodd Llafur a Phlaid Cymru Lywodraeth glymblaid, yn golygu mai dim ond dwy wrthblaid oedd yna. Yn ôl Rheolau Sefydlog y Cynulliad, nid yw grwpiau pleidiau'n gallu cynnwys llai na thri Aelod Cynulliad.[38]

84. Roedd arweinydd yr wrthblaid fwyaf, y Ceidwadwyr, yn cael cyflog ychwanegol a oedd yn cyfateb i gyflog un o Weinidogion Cymru (£41,949 ar ddiwedd y Trydydd Cynulliad). Roedd arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol, yr wrthblaid arall, yn cael cyflog ychwanegol a oedd yn cyfateb i gyflog cadeirydd un o'r pwyllgorau mwyaf strategol (£12,168 ar ddiwedd y Trydydd Cynulliad). Mae Ffigur 9 yn dangos y cynnydd yn y cyflogau ychwanegol a oedd yn cael eu talu i arweinwyr y pleidiau dros amser.

**Ffigur 9: Y Cynnydd yn y Cyflogau a Delid i Arweinwyr Pleidiau ar Ddechrau Pob Blwyddyn Ariannol**




85. Yn *Addas i'r Diben* cydnabu'r Bwrdd ei bod yn holl-bwysig bod y gwrthbleidiau'n dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, a bod arweinyddiaeth wleidyddol gref y gwrthbleidiau'n ganolog er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd yn effeithiol.[39]

86. Cydnabu'r Bwrdd hefyd fod y Cynulliad, yn ei ddyddiau cynnar, wedi mabwysiadu terminoleg a oedd yn cael ei defnyddio yn San Steffan. Rydyn ni'n sylweddoli bod gan Arweinydd yr Wrthblaid yno gyfrifoldebau mawr yn sgil y system wrthwynebol sydd wedi'i seilio i raddau helaeth ar ddwy blaid fawr sy'n cystadlu am yr awenau. Ond mae gennyn ni amheuon o bwys, mewn Cynulliad sy'n cael ei ethol yn weddol gyfrannol, ynghylch talu bron £30,000 yn fwy i arweinydd un blaid nag i'r blaid nesaf, a dim ond dyrnaid o Aelodau o wahaniaeth rhwng y ddwy

[37] *Cynulliad Cenedlaethol Cymru:* Adroddiad y Panel Annibynnol ar Gymorth Ariannol i Aelodau'r Cynulliad*, 2008*
[38] *Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru Mai 2011*
[39] *Pennod 6, Addas i'r Diben*

o bosibl. Yn ychwanegol, nid yw'r dull hwn yn cynnwys mecanwaith i benderfynu ar y taliadau os bydd gan ddwy wrthblaid yr un nifer o Aelodau, fel sy'n bosibl.

87. Ceir crynodeb o gydbwysedd gwleidyddol y pedwar Cynulliad yn Ffigur 10.

**Ffigur 10: Y Cydbwysedd Gwleidyddol ar Ddechrau Pob Cynulliad**

| Y blaid | Y Cynulliad Cyntaf (1999) | Yr Ail Gynulliad (2004) | Y Trydydd Cynulliad (2007) | Y Pedwerydd Cynulliad (2011) |
|---|---|---|---|---|
| Llafur | 28 | 30 | 26 | 30 |
| Ceidwadwyr | 9 | 11 | 12 | 14 |
| Plaid Cymru | 17 | 12 | 15 | 11 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 6 | 6 | 6 | 5 |
| Annibynnol | 0 | 1 | 1 | 0 |

## Egwyddorion

88. Mae'r Cynulliad wedi datblygu mewn ymateb i newidiadau cyfansoddiadol yn ystod y 12 mlynedd diwethaf. Yn *Addas i'r Diben*, amlinellwyd ein dealltwriaeth ni o'r Pedwerydd Cynulliad fel deddfwrfa mewn cyfnod o bontio, y bydd angen iddo ymaddasu at ei bwerau deddfu ehangach drwy ddatblygu ffyrdd newydd i weithio.[40]

89. Wrth bwyso a mesur cyflogau ychwanegol i arweinwyr pleidiau, rydyn ni wedi cymryd i ystyriaeth y rhan sy'n cael ei chwarae gan arweinydd pob plaid wrth gyfrannu at nodau strategol y Cynulliad. Rydyn ni wedi cadw mewn cof gyfansoddiad gwleidyddol penodol y Pedwerydd Cynulliad, ond, yn unol â'n hegwyddor y dylai'n Penderfyniad fod yn gynaliadwy ac yn briodol ar gyfer Cynulliadau'r dyfodol hefyd, rydyn ni hefyd wedi cymryd i ystyriaeth y system weddol gyfrannol ar gyfer ethol Aelodau, a goblygiadau'r system honno ar gyfer cyfansoddiad Cynulliadau'r dyfodol.

90. At ei gilydd, rydyn ni wedi ceisio datblygu system i benderfynu ar lefel y cyflogau ychwanegol sy'n cael eu talu i arweinwyr pleidiau sy'n gynaliadwy, yn dryloyw ac yn gallu gwrthsefyll newidiadau yn aelodaeth y grwpiau gwleidyddol yn ystod Cynulliadau.

## Methodoleg

91. Dywedodd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg cyntaf y dylai cyfrifoldebau arweinwyr pleidiau gael eu cydnabod drwy dalu cyflogau ychwanegol. Cafodd y farn hon ei hatgyfnerthu gan y dystiolaeth a ddaeth i law mewn ymateb i'n hail arolwg, ac yn y cyfweliadau a gynhaliwyd â deiliaid swyddi. Soniodd llawer o Aelodau am y cyfrifoldebau arwyddocaol sy'n gysylltiedig ag arwain gwrthblaid, gan gynnwys sicrhau bod y blaid yn dwyn y Weithrediaeth i gyfrif yn llwyddiannus. Yng ngoleuni pwerau deddfu estynedig y Cynulliad yn sgil refferendwm Mawrth 2011, clywsom hefyd y bydd rôl arweinwyr pleidiau wrth roi her effeithiol i'r Llywodraeth yn

[40] *Pennod 4, Addas i'r Diben*

dod yn fwyfwy pwysig.  I bob pwrpas, fe ddylai fod ganddyn nhw afael ar bob agwedd ar bolisi a rheolaeth y blaid, gan gyflwyno gweledigaeth amgen i'r genedl yn lle gweledigaeth y Llywodraeth.

92. Roedd y mwyafrif o'r rhai a roddodd dystiolaeth inni yn amau lefel y cyflog ychwanegol sy'n daladwy i'r wrthblaid fwyaf o'i chymharu â lefel arweinwyr y gwrthbleidiau eraill.  Mae'n amheus a yw'r model, sy'n ymddangos i ni fel petai wedi'i seilio ar fodel tebyg i San Steffan, yn berthnasol mewn deddfwrfa fach sy'n weddol gyfrannol fel y Cynulliad.  Yn benodol, gan gymryd cyfansoddiad gwleidyddol y Pedwerydd Cynulliad i ystyriaeth, mae'r gwahaniaeth bach rhwng nifer yr Aelodau yn yr wrthblaid fwyaf a'r ail wrthblaid fwyaf yn ei gwneud yn anodd inni gyfiawnhau parhau â'r lefelau cymharol o gyflogau sy'n daladwy i arweinwyr y pleidiau yn y Trydydd Cynulliad.

### Cyfrifoldebau Arweinwyr y Gwrthbleidiau

93. Yn unol â'r egwyddor y dylai tâl adlewyrchu cyfrifoldeb, ceisiodd y Bwrdd sicrhau tystiolaeth ar y rolau penodol sy'n cael eu chwarae gan arweinwyr y gwrthbleidiau a'r cyfrifoldebau sydd ganddyn nhw.  Bydd arweinydd pob plaid wrth gwrs yn ymgymryd â'i rôl yn unol ei flaenoriaethau a'i arddull arwain ei hun, ond mae'r dystiolaeth a glywsom wedi'n galluogi ni i nodi nifer o feysydd cyfrifoldeb allweddol.  Mae'r rhain yn cynnwys:

- gosod cyfeiriad strategol eu grŵp;
- cyflwyno gweledigaeth amgen yn lle gweledigaeth y Llywodraeth;
- cynnig gwrthwynebiad adeiladol i'r Llywodraeth gan gynnwys gweithio mewn consensws;
- dwyn y Llywodraeth i gyfrif, a'i herio pan fo'n briodol;
- dylanwadu ar bolisïau a deddfwriaeth;
- datblygu polisïau'r blaid;
- cynrychioli'r Cynulliad;
- gweithredu fel prif lefarydd y blaid a'i pholisïau; a
- rheoli Aelodau a staff grŵp y blaid.

94. Mae rhagor o wybodaeth am y cyfrifoldebau y mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu eu bod yn rhan annatod o rôl arweinwyr gwrthbleidiau wedi'i chrynhoi yn Atodiad D.

95. Er mwyn ymgymryd yn effeithiol â'r cyfrifoldebau hyn, clywsom fod rhaid i arweinwyr y gwrthbleidiau feddu ar ystod o fedrau a galluoedd, gan gynnwys: arweinyddiaeth; cyfathrebu effeithiol; y gallu i ennyn hyder cydweithwyr; rheoli'r blaid; brocera a dod â gwahanol safbwyntiau yn y grŵp at ei gilydd; a nodi a defnyddio'r medrau, y cryfderau a'r doniau yn y grŵp.

96. Arweinwyr y pleidiau hefyd sy'n gyfrifol am reoli'r lwfans sy'n cael ei ddarparu at gyflogi staff canolog y grŵp, sy'n adrodd i arweinydd y blaid. Mae swyddfeydd y grwpiau'n cael eu strwythuro yn unol â blaenoriaethau ac anghenion penodol y grwpiau unigol. Maen nhw'n gweithio i gydlynu cymorth a chyfeiriad strategol grwpiau'r pleidiau yn y Cynulliad, ac i helpu staff yr Aelodau unigol i roi cymorth i lefarwyr y pleidiau ar draws yr ystod lawn o bortffolios y Gweinidogion. Mae'r lwfansau sy'n cael eu talu i bob grŵp (sydd wedi'u crynhoi yn Ffigur 11) yn dibynnu ar nifer yr Aelodau yng ngrŵp y blaid, ac a yw'r blaid yn cael ei chynrychioli yn Llywodraeth Cymru neu beidio.

**Ffigur 11: Lwfansau Cymorth Grwpiau'r Pleidiau 2011-12**

| Nifer yr Aelodau yng ngrŵp y blaid | Y lwfans ychwanegol |
|---|---:|
| Tri neu fwy (os cynrychiolir y blaid yn Llywodraeth Cymru) | £127,390 |
| Tri i ddeg o Aelodau (os na chynrychiolir y blaid yn Llywodraeth Cymru) | £199,048 |
| Mwy na deg o Aelodau (os na chynrychiolir y blaid yn Llywodraeth Cymru) | £199,048 a £30,866 yn ychwanegol am bump o Aelodau ychwanegol |

97. Clywsom dystiolaeth bod arweinwyr y gwrthbleidiau yn Senedd yr Alban yn cael lwfans y gallan nhw hawlio ad-daliadau allan ohono am wariant nad yw'n wariant pleidiol wleidyddol ond sy'n cael ei ysgwyddo fel rhan o'u dyletswyddau fel arweinydd plaid. Buom yn pwyso a mesur a allai system debyg gael ei defnyddio yn y Cynulliad, ond daethom i'r casgliad y dylai cyfuniad o gyflogau ychwanegol a lwfansau'r grŵp fod yn ddigon at y dibenion hyn.


98. Fel y nodwyd ym Mhennod 1, yn ystod ail ran ein gwaith rydyn ni wedi cymryd i ystyriaeth cyfrifoldebau cymharol y gwahanol swyddi o dan sylw. Awgrymodd y dystiolaeth a gawsom mewn ymateb i'n harolwg ac yn ystod y cyfweliadau fod arweinwyr y gwrthbleidiau sy'n cael eu cynrychioli yn y Cynulliad yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau ac yn gwneud mwy o gyfraniad at ddibenion strategol y Cynulliad na chadeiryddion pwyllgorau. Clywsom hefyd fod yna gysylltiad, rhannol o leiaf, rhwng pwysau cyfrifoldeb arweinydd plaid a'r nifer o Aelodau ym mhob grŵp, ond bod egwyddor cydraddoldeb i bob plaid yn y Cynulliad a chyfrifoldeb pob gwrthblaid i ddwyn y Llywodraeth i gyfrif yn golygu nad oedd y cysylltiad yn un absoliwt.

99. Un o'n hegwyddorion allweddol yw y dylai'r system cymorth ariannol fod yn gynaliadwy. Gan hynny buom yn pwyso a mesur sefyllfa ddamcaniaethol yr wrthblaid fwyaf sy'n bosibl: 30 o Aelodau. O dan yr amgylchiadau hyn, roedden ni o'r farn y byddai gan arweinydd yr wrthblaid, y byddai gan ei blaid y rhan fwyaf o'r cyfrifoldeb dros sicrhau her gadarn ac effeithiol i'r Weithrediaeth, ac yntau'n barod i ffurfio Llywodraeth amgen, gyfrifoldebau ar lefel debyg i Weinidogion Cymru, ac y dylai felly gael tâl ar yr un lefel.

100. Derbyniodd y Bwrdd fod gan arweinwyr pob un o'r gwrthbleidiau gyfrifoldebau arwyddocaol o ran dibenion strategol y Cynulliad, a bod y cyfrifoldebau hynny'n fwy na chyfrifoldebau cadeiryddion pwyllgorau. Cydnabu'r Bwrdd hefyd fod maint grŵp plaid yn arwain at fwy o gymhlethdod a chyfrifoldeb i arweinwyr y pleidiau.

101. Penderfynwyd felly, fel man cychwyn, y dylai lefel sylfaenol o £12,420 — sef y lefel sy'n daladwy i gadeiryddion pwyllgorau craffu a deddfu — gael ei thalu i arweinydd pob un o'r gwrthbleidiau. I adlewyrchu'r cysylltiad rhannol rhwng lefel gyffredinol y cyfrifoldeb a maint y blaid yn y Cynulliad, byddai'r elfen sylfaenol yn cael ei chyfuno wedyn â thaliad ychwanegol o £1,000 am bob Aelod yn y grŵp, hyd at uchafswm o £41,949 o gyflog ychwanegol, sef y lefel sy'n daladwy i Weinidogion Cymru.  Mae'r fethodoleg hon yn cydnabod y dystiolaeth a gawsom ynghylch cyfrifoldebau ac arwyddocâd strategol cymharol arweinwyr y gwrthbleidiau o'u cymharu â swyddi eraill.  Mae Ffigur 12 yn dangos canlyniad ein model ni, gan amlygu'r cyflogau ychwanegol sydd i'w talu i arweinwyr y gwrthbleidiau yn y Pedwerydd Cynulliad, o gofio'i gyfansoddiad gwleidyddol cyfredol.

**Ffigur 12: Lefelau Cyflogau Ychwanegol Arweinwyr y Gwrthbleidiau**




102. Rydyn ni o'r farn bod yr ymagwedd hon at benderfynu cyflogau ychwanegol arweinwyr y gwrthbleidiau'n ddigon cadarn i fod yn gymwys yn y Cynulliad yn y dyfodol.  Pan fydd yr elfen sylfaenol a'r cynnydd am bob Aelod wedi'u penderfynu ar ddechrau pob Cynulliad, gall y cyflogau ychwanegol sy'n daladwy i arweinwyr y gwrthbleidiau gael eu cyfrifo ar sail gyson.

## Casgliadau

103. **Nid yw'r Cynulliad fel deddfwrfa wedi'i seilio ar fodel gwrthwynebol fel San Steffan.  Yn hytrach, yr arfer yn y Cynulliad yw cydnabod rôl arweinwyr yr holl wrthbleidiau wrth ddwyn y Llywodraeth i gyfrif.**

104. **Yng ngoleuni hyn, penderfynwyd y dylai arweinwyr pob un o'r gwrthbleidiau gael lefel sylfaenol o gyflog ychwanegol i adlewyrchu cyfraniadau eu rolau at wireddu diben strategol y Cynulliad.**

105. **I adlewyrchu cyfrifoldebau a chymhlethdodau ychwanegol arwain y pleidiau mwyaf mewn cyferbyniad â'r gwrthbleidiau lleiaf, rydyn ni wedi penderfynu y dylai'r cyflog ychwanegol sy'n daladwy i arweinydd pob plaid gynnwys elfen o gyfrannedd hefyd. Mae hyn yn golygu y dylai arweinwyr y pleidiau mwyaf gael mwy o gyflog ychwanegol yn unol â'r cyfrifoldebau sydd ganddyn nhw.**

106. **Bydd arweinwyr gwrthbleidiau'r Pedwerydd Cynulliad yn cael cyflogau ychwanegol, wedi'u hôl-ddyddio i ddyddiad eu penodi a hynny yn amodol ar gap o £41,949 (y cyflog sy'n daladwy i Weinidogion Cymru). Bydd y cyflog ychwanegol sy'n daladwy yn cynnwys elfen sylfaenol o £12,420 ac elfen gyfrannol o £1,000 am bob Aelod yng ngrŵp y blaid.**

107. **Mae lefelau'r cyflog ychwanegol sy'n daladwy i arweinwyr gwrthbleidiau'r Pedwerydd Cynulliad, ar sail y cydbwysedd gwleidyddol penodol yn sgil etholiad mis Mai 2011, i'w gweld yn Ffigur 13.**

**Ffigur 13: Cyflogau Ychwanegol sy'n Daladwy i Arweinwyr y Gwrthbleidiau yn y Pedwerydd Cynulliad**

| Yr wrthblaid | Nifer yr Aelodau | Y cyflog ychwanegol |
|---|---:|---:|
| Ceidwadwyr | 14 | £26,420 |
| Plaid Cymru | 11 | £23,420 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 5 | £17,420 |

108. **Mae cyfuno elfen sylfaenol i adlewyrchu cyfrifoldebau sy'n cael eu rhannu'n gyfartal gan bob arweinydd plaid, ac elfen gyfrannol ar sail nifer yr Aelodau yng ngrŵp pob plaid, yn sicrhau bod y cyflogau ychwanegol cymharol sy'n daladwy i arweinydd pob gwrthblaid yn cael eu cyfrifo mewn modd tryloyw, eu bod yn adlewyrchu cyfrifoldebau'r swydd yn llawn a'u bod yn deg.**

109. **Mae'r model yn briodol ar gyfer y Cynulliad fel deddfwrfa sy'n weddol gyfrannol, ac yn sicrhau bod yna dryloywder ac eglurder petai gan fwy nag un blaid yr un nifer o Aelodau, yn ogystal â gwrthsefyll unrhyw newidiadau yn niferoedd yr Aelodau ym mhob grŵp yn ystod Cynulliadau.**

110. **Mae'r fformiwla ar gyfer cyflogau ychwanegol arweinwyr pleidiau yn dod o dan yr un penderfyniad i rewi am bedair blynedd â lefelau sylfaenol cyflogau'r Aelodau, fel y nodwyd yn *Addas i'r Diben*.[41] Rydyn ni'n rhag-weld y bydd y fformiwla'n dal yn gymwys yng Nghynulliadau'r dyfodol, ac fel rhan o'n hadolygiad o becyn tâl cyffredinol Aelodau'r Cynulliad, byddwn yn ailasesu lefelau'r elfen sylfaenol a'r cynnydd am bob Aelod.**

[41] *Pennod 5, Addas i'r Diben*

# Rheolwyr Busnes a Chwipiaid y Pleidiau

*Mae'r bennod hon yn nodi hanes taliadau atodol i reolwyr busnes a chwipiaid y pleidiau; yn adolygu eu rolau a'u cyfrifoldebau; ac yn amlinellu'n penderfyniadau ar gyflogau ychwanegol.*

## Trosolwg

111. Yn 2008, dywedodd yr SSRB, fel rhan o'u hystyriaethau ar dâl a lwfansau yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon, fod rôl chwip plaid yn cynnwys cyfuniad o fusnes y blaid wleidyddol a busnes y Cynulliad. Roedd yr SSRB o'r farn felly mai mater i'r Cynulliad oedd penderfynu a ddylai'r chwipiaid gael cyflogau ychwanegol, gan ddweud hefyd, petaen nhw i gael tâl ychwanegol, y dylai'r cyflog gyfateb i'r hyn yr oedd cadeiryddion pwyllgor yn ei gael.[42] Penderfynodd Cynulliad Gogledd Iwerddon wedyn na ddylai'r chwipiaid gael cyflogau ychwanegol.

112. Yn 2008, nododd panel annibynnol cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru nad oedd y chwipiaid yn y Cynulliad wedi cael cyflog ychwanegol cyn 2008. Dywedodd y panel y byddai argymell cyflog ychwanegol i unrhyw rai o chwipiaid y pleidiau yn anghyson â'r arfer yn y sefydliadau datganoledig eraill ond nad oedd yna reswm na ddylai'r Cynulliad dorri ei gŵys ei hun yn hyn o beth petai'n dymuno.[43] Ystyriodd Comisiwn y Cynulliad dalu cyflogau ychwanegol i chwipiaid y pleidiau, gan gymryd i ystyriaeth argymhellion gan y Comisiynydd a oedd wedi bod yn aelod heb bleidlais o'r Panel. Os oedd prif chwip yr wrthblaid yn rheolwr busnes i'r wrthblaid hefyd, penderfynodd y Comisiwn y dylai gael cyflog sy'n cyfateb i'r lefel uwch sy'n cael ei thalu i gadeiryddion pwyllgorau. Dim ond i brif chwip yr wrthblaid fwyaf yr oedd hyn yn gymwys. Penderfynodd y Comisiwn hefyd y dylai prif chwip y Llywodraeth gael cyflog sy'n cyfateb i gyflog Dirprwy Gweinidog.[44] Mae'r Bwrdd wedi methu dod o hyd i'r rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniadau hyn.

113. Rydyn ni'n deall bod Llywodraeth bresennol yr Alban yn cynnwys Ysgrifennydd Cabinet dros Strategaeth y Senedd a'r Llywodraeth, sy'n gyfrifol am oruchwylio materion seneddol a rheoli busnes y Llywodraeth yn y Senedd, datblygu strategaeth y Llywodraeth, a chydlynu'r gwaith i wireddu polisïau ar draws y portffolios. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cael ei gefnogi gan Weinidog Busnes Seneddol a Phrif Chwip, sef swydd sy'n cael ei thalu.

[42] *T16, Adroddiad SSRB Rhif 67: Northern Ireland Assembly: Review of Pay, Pensions and Allowances 2008*
[43] *Adroddiad y Panel Annibynnol ar Gymorth Ariannol i Aelodau'r Cynulliad, 2008*
[44] *Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnodion Cyfarfod 6 Mawrth 2008*

114. Yn *Addas i'r Diben* nodwyd ein barn bod y rhesymeg dros benderfyniadau Comisiwn y Cynulliad a'r dystiolaeth o blaid y penderfyniadau hynny i dalu cyflogau ychwanegol i chwipiaid y pleidiau yn aneglur. Roedd yna ddiffyg eglurder hefyd ynghylch pa agweddau ar rôl y chwip sy'n ymwneud â dibenion busnes y Cynulliad a pha agweddau sy'n wleidyddol.[45]

## Egwyddorion

115. Wrth ystyried taliadau i reolwyr busnes a chwipiaid pleidiau rydyn ni wedi cymryd i ystyriaeth i ba raddau y maen nhw'n gyfrifol am ategu dibenion strategol y Cynulliad.

116. Yn benodol, edrychwyd ar y cydbwysedd rhwng dibenion y Cynulliad a dibenion y blaid yn rôl y chwipiaid a'r rheolwyr busnes, gan ein bod yn glir mai dim ond cyfrifoldebau yr ymgymerir â nhw er mwyn cyflawni dibenion strategol y Cynulliad a ddylai gael eu talu o'r cronfeydd cyhoeddus. Gan hynny byddai'n amhriodol defnyddio'r cronfeydd cyhoeddus i dalu am rolau sydd yn y bôn yn bleidiol wleidyddol eu natur.

117. Rydyn ni hefyd wedi ystyried pwerau deddfu ehangach y Pedwerydd Cynulliad, ei gyfansoddiad gwleidyddol, effaith y rhain ar fusnes y Cynulliad a rôl rheolwyr busnes y pleidiau wrth sicrhau bod busnes y Cynulliad yn gweithredu'n effeithiol.

## Methodoleg

118. Wnaeth y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod rhan gyntaf ein gwaith ddim rhoi dealltwriaeth glir inni o rôl chwipiaid y pleidiau. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gennym fel rhan o'n hail arolwg wedi rhoi gwell dealltwriaeth inni nid yn unig o waith y chwipiaid, ond hefyd o reolwyr busnes pob grŵp plaid. Roedd gennyn ni ddiddordeb penodol yn nhrefniadau'r tair gwrthblaid, lle mae'r un unigolion yn cyflawni rôl y chwip a rôl y rheolwr busnes.

### Rôl y Pwyllgor Busnes a Rheolwyr Busnes y Pleidiau

119. Yn *Addas i'r Diben*, cydnabu'r Bwrdd fod gan y Pwyllgor Busnes rôl ganolog wrth reoli busnes y Cynulliad ac wrth gynghori ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Cynulliad.[46] Mae'r Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan y Llywydd, ac mae'n gyfrifol am drefnu busnes y Llywodraeth a'r Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn. Mae'n gyfrifol hefyd am gynnig strwythurau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau ar ddechrau Cynulliad newydd, cytuno'r amserlenni at ystyried deddfwriaeth yn y pwyllgorau ac ystyried gwelliannau i'r Rheolau Sefydlog sy'n llywodraethu gweithdrefnau'r Cynulliad. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, mae'r rheolwyr busnes o bob plaid yn eistedd ar y Pwyllgor Busnes, ynghyd â'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, sy'n gyfrifol am reoli busnes Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu nad yw prif chwip y Llywodraeth yn aelod o'r Pwyllgor Busnes, yn wahanol i chwipiaid grwpiau'r gwrthbleidiau.

120. Yn ystod ein trafodaethau gydag Aelodau'r Cynulliad, edrychwyd ar y rolau sy'n cael eu chwarae gan reolwyr busnes y pleidiau, ac yn benodol y gwaith y maen nhw'n ei wneud i negodi ac i reoli

---

[45] *Pennod 6, Addas i'r Diben*
[46] *Mae'r Pwyllgor Busnes yn wahanol i'r deg Pwyllgor yn y Cynulliad y cyfeirir atyn nhw ym Mhennod 2 ac nid yw'n gwneud gwaith i graffu ar bolisiau na deddfau.*

busnes a thrafodion y Cynulliad. Roedd y dystiolaeth a gawson yn awgrymu bod y gwaith yn ffactor allweddol i sicrhau bod busnes y Cynulliad yn cael ei gynnal mewn modd effeithiol.

121. Yn unol â'r amlinelliad yn *Addas i'r Diben*, rydyn ni wedi anelu at hoelio sylw ar dalu cyflogau ychwanegol i'r swyddi hynny sy'n "arwain ac yn gyrru [...] swyddogaethau strategol [y Cynulliad]".[47] Aethon ni ati felly i ystyried a fyddai'n briodol talu cyflogau ychwanegol i reolwyr busnes y pleidiau i gydnabod y cyfrifoldebau sydd arnyn nhw o ran swyddogaethau strategol y Cynulliad fel deddfwrfa.

### Chwipiaid a Rheolwyr Busnes y Gwrthbleidiau

122. Ceir rhywfaint o orgyffwrdd rhwng gwaith chwipiaid y pleidiau a gwaith rheolwyr busnes y pleidiau. Er hynny, mae yna wahaniaethau pendant rhyngddyn nhw hefyd. Cytunodd y Bwrdd â'r mwyafrif o'r rhai y casglwyd gwybodaeth oddi wrthyn nhw fod gwaith chwip plaid yn ategu dibenion grŵp y blaid yn bennaf, a bod gwaith rheolwr busnes y blaid yn ategu dibenion strategol y Cynulliad yn bennaf.

123. Clywsom fod rheolwyr busnes y pleidiau'n chwarae rôl ganolog wrth reoli busnes y Cynulliad, gan gynnwys sicrhau ei fod wedi'i drefnu'n effeithiol a bod digon o amser ar gael ar gyfer y dulliau y mae eu hangen i ddeddfu ac i ddwyn y Llywodraeth i gyfrif.

124. Er mai'r Pwyllgor Busnes yw'r dull ffurfiol, mae'r dystiolaeth a ddaeth i law yn awgrymu bod cryn dipyn o'r negodi ynglŷn â'r busnes yn digwydd y tu allan i gyfarfodydd swyddogol. Felly, er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau'n llwyddiannus, mae'n rhaid bod gan reolwr busnes pob plaid fedrau a galluoedd penodol. O gofio cydbwysedd gwleidyddol agos y Pedwerydd Cynulliad, mae hyn yn arbennig o bwysig. Esboniodd llawer o'r rhai y siaradwyd â nhw fod maint y Cynulliad yn golygu nad yw gweithio fel chwip plaid yn feichus, ond bod cyfansoddiad y Pedwerydd Cynulliad wedi cynyddu'r angen i reolwyr busnes y pleidiau drafod, cydweithredu a herio'n adeiladol.

### Prif Chwip y Llywodraeth

125. Yn y Pedwerydd Cynulliad, Arweinydd y Tŷ yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am reoli busnes y Llywodraeth yn y Cynulliad. Hi hefyd sy'n dal y portffolio cyllid yn y Cabinet. O gofio hyd a lled y cyfrifoldebau hyn, rydyn ni'n cydnabod y gall fod angen cymorth ychwanegol ar ran y Llywodraeth o safbwynt rheoli busnes, ond mater i'r Prif Weinidog roi sylw iddo wrth ffurfio ei Gabinet yw hwn. Mae adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gosod uchafswm o 12 ar nifer Gweinidogion Cymru. Ar hyn o bryd, mae gan y Cabinet ddeg. Er ei bod yn glir mai mater i'r Prif Weinidog yn unig yw hwn, mae gennyn ni gydymdeimlad – o gofio hyd a lled cyfrifoldebau Arweinydd y Tŷ – tuag at yr angen i roi cymorth ychwanegol i'r Llywodraeth, yn enwedig felly wrth reoli materion busnes fel y maen nhw'n effeithio ar Aelodau. Er hynny, dydyn ni ddim yn credu ei bod yn briodol rhoi taliadau am faterion pleidiol pur.

126. Dangosodd y dystiolaeth a ddaeth i law fod elfennau eraill o rôl bresennol prif chwip y Llywodraeth yn ymwneud â threfnu busnes y Cynulliad yn fwy cyffredinol mewn modd

[47] *T51, Addas i'r Diben*

effeithiol. Er enghraifft, mae'r rôl yn sianel effeithiol i Aelodau o blaid y llywodraeth ar y meinciau cefn ddylanwadu ar y Llywodraeth. Mae'r amgylchiadau penodol a geir mewn plaid sy'n rhan o'r Weithrediaeth yn golygu bod sianel o'r fath yn ganolog er mwyn i'r ddeddfwrfa gyfan weithredu mewn modd effeithiol. Yn yr un modd, mae'r sianel yn hwyluso deialog adeiladol ar gynigion y Llywodraeth rhwng y pleidiau i gyd. At hynny, mater i'r grwpiau plaid (gan gynnwys unrhyw grwpiau sy'n rhan o'r Llywodraeth) yn hytrach nag i'r Llywodraeth ei hun yw'r gwaith negodi a'r penderfyniadau ymarferol sy'n sail i drefniadaeth y system bwyllgorau, sydd o bwysigrwydd sylweddol ar gyfer llwyddiant strategol y Cynulliad.

## Talu Cyflogau Ychwanegol

127. Yr egwyddor sy'n sail i dalu cyflogau ychwanegol i ddeiliaid swyddi yw y dylai taliadau adlewyrchu'r cyfrifoldebau hynny sy'n cyfrannu at gyflawni dibenion strategol y Cynulliad. Rolau at ddibenion gwleidyddol yw rolau chwipiaid y gwrthbleidiau a'r Llywodraeth, a dydyn ni ddim yn cytuno y dylen nhw gael eu talu o'r cronfeydd cyhoeddus, yn arbennig mewn deddfwrfa fach o 60 o Aelodau yn unig.

128. Er hynny, rydyn ni'n cydnabod mor bwysig yw cyfrifoldebau rheolwyr busnes yr holl bleidiau a gynrychiolir yn y Cynulliad er mwyn i swyddogaethau'r Cynulliad weithredu'n effeithiol. Penderfynodd y Bwrdd felly y dylai rheolwyr busnes y pleidiau i gyd gael cyflogau ychwanegol.

129. Ar hyn o bryd, nid yw prif chwip y Llywodraeth yn aelod o'r Cabinet ac nid yw'n eistedd ar y Pwyllgor Busnes. Serch hynny, rydyn ni'n cydnabod bod rhai agweddau eraill ar y rôl hon, fel y mae wedi'i threfnu ar hyn o bryd, yn gysylltiedig â rheoli busnes y grŵp Llafur, o'i gyferbynnu â'r Llywodraeth. Penderfynodd y Bwrdd felly, yn yr un modd â rheolwyr busnes y pleidiau eraill, y dylai'r swydd gael ei thalu am yr elfen honno o'r rôl sy'n ymwneud â rheoli busnes y blaid. Er ei bod yn eglur mai mater i'r Prif Weinidog ei ystyried yw hyn, hoffem awgrymu y byddai teitl newydd yn debyg i reolwr busnes y grŵp Llafur yn dynodi'r gwahaniaeth rhwng swyddogaeth y Llywodraeth a swyddogaeth y Cynulliad yn well.

## Cyfrifoldebau Rheolwyr Busnes y Pleidiau

130. Yn unol â'n hegwyddor ni y dylai taliadau adlewyrchu cyfrifoldebau, gofynnodd y Bwrdd am dystiolaeth am gyfrifoldebau rheolwyr busnes y pleidiau. Mae'r dystiolaeth a ddaeth i law wedi'n galluogi i nodi nifer o feysydd cyfrifoldeb allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Rheolwyr busnes yr holl bleidiau**

- hwyluso gwaith i drefnu a chynnal trafodion y Cynulliad yn effeithiol yn y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau; a
- chymryd rhan mewn cyfathrebu a negodi ffurfiol ac anffurfiol.

**Rheolwyr busnes y gwrthbleidiau**

- aelodaeth o'r Pwyllgor Busnes a chyflawni swyddogaethau'r Pwyllgor hwnnw yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

**Rheolwyr busnes y pleidiau yn y llywodraeth**

- bod yn sianel effeithiol i Aelodau o blaid neu bleidiau'r Llywodraeth ddylanwadu ar y Llywodraeth; a
- hwyluso deialog adeiladol rhwng y pleidiau i gyd ar gynigion y Llywodraeth.

131. Mae gwybodaeth am y cyfrifoldebau yr ydyn ni'n deall bod rheolwyr busnes y pleidiau'n eu hysgwyddo i'w gweld yn Atodiad D hefyd.


## Cyflogau Ychwanegol i Reolwyr Busnes

132. Awgrymodd y dystiolaeth a gawsom na fyddai lefel y cyfrifoldeb sy'n rhan annatod o rôl rheolwr busnes plaid drwyddi draw yn fwy na chyfrifoldebau cadeirydd un o'r pwyllgorau strategol arwyddocaol yn y Pedwerydd Cynulliad. Yn sgil y dystiolaeth a ddaeth i law daethom i'r casgliad hefyd fod pwysau rôl rheolwr busnes plaid yn cael eu heffeithio hefyd gan nifer yr Aelodau yng ngrŵp pob plaid. Gan gydnabod y ddwy elfen hyn, daethom i'r casgliad y dylai lefelau cyflog ychwanegol rheolwyr busnes y pleidiau syrthio, yn fras iawn, rywle rhwng lefelau cyflog ychwanegol cadeiryddion y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Deisebau a chadeiryddion yr wyth pwyllgor arall, ac adlewyrchu maint grwpiau'r pleidiau hefyd. Gan hynny, penderfynodd y Bwrdd ddefnyddio methodoleg debyg yn achos rheolwyr busnes y pleidiau i'r un a amlinellwyd ym Mhennod 3 ynglŷn ag arweinwyr y gwrthbleidiau.

133. Gan gymryd hyn i ystyriaeth penderfynwyd y dylai elfen sylfaenol gychwynnol i reolwr busnes pob plaid fod yn hafal i hanner cyflog ychwanegol cadeirydd y pwyllgorau sy'n fwyaf arwyddocaol yn strategol. I adlewyrchu'r cysylltiad rhwng cyfrifioldeb cyffredinol a maint y pleidiau, penderfynodd y Bwrdd y dylid cael elfen gyfrannol o £250 am bob Aelod yn y grŵp. Byddai cyfanswm y cyflog ychwanegol a fyddai'n daladwy yn dod o dan gap cyffredinol o £12,420 — sef lefel y cyflog ychwanegol sy'n daladwy i gadeiryddion y pwyllgorau mwyaf arwyddocaol o safbwynt strategol yn y Pedwerydd Cynulliad.

134. Mae Ffigur 14 yn dangos canlyniad ein model ni ar gyfer pob plaid yn y Pedwerydd Cynulliad, ac yn amlygu'r cyflogau ychwanegol sydd i'w talu i reolwyr busnes y pleidiau o gofio cyfansoddiad gwleidyddol presennol y ddeddfwrfa.

**Ffigur 14: Lefelau Cyflogau Ychwanegol Rheolwyr Busnes y Pleidiau**




## Casgliadau

135. Dydyn ni ddim yn credu ei bod yn briodol talu am weithgareddau gwleidyddol pleidiol chwipiaid o'r cronfeydd cyhoeddus. Er hynny, rydyn ni'n cydnabod bod rhaid i bob plaid yn y Cynulliad, gan gynnwys pleidiau sy'n cael eu cynrychioli yn y Llywodraeth, gymryd rhan yn rheolaeth busnes y Cynulliad. Rydyn ni o'r farn, felly, y dylai'r cyfrifoldebau hynny sydd gan reolwr busnes pob plaid ac sy'n cyfrannu at weithredu a llywodraethu'r Cynulliad yn effeithiol gael eu talu o'r cronfeydd cyhoeddus. Oherwydd hyn mae'n hasesiad ni o lefel gymharol y taliadau heb gynnwys unrhyw weithgareddau gwleidyddol pleidiol gan y chwipiaid, ac o'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen, fydd prif chwipiaid y gwrthbleidiau a'r Llywodraeth ddim yn cael cyflogau ychwanegol deiliaid swyddi mwyach at eu rôl fel chwip.

136. Mae gwaith rheolwyr busnes y pleidiau yn y Cynulliad, yng nghyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Busnes a thrwy negodi a thrafod dwyochrog y tu allan i'r cyfarfodydd hynny, yn cyfrannu at weithredu effeithiol yn y Cynulliad fel deddfwrfa weddol gyfrannol. I gydnabod hyn, rydyn ni wedi penderfynu y bydd rheolwyr busnes y pleidiau'n cael cyflogau ychwanegol sy'n adlewyrchu'r cyfrifoldebau sy'n gyffredin i bob plaid a'r cyfrifoldebau penodol sy'n gysylltiedig â rheoli cyfraniad y pleidiau mwyaf at fusnes y Cynulliad, gyda phwysoliad i adlewyrchu nifer yr Aelodau yng ngrŵp y blaid.

137. Yn y Pedwerydd Cynulliad, bydd rheolwr busnes pob plaid yn cael cyflog ychwanegol, wedi'i ôl-ddyddio i ddyddiad ei benodi ac yn amodol ar gap o £12,420. Bydd y cyflog ychwanegol sy'n daladwy yn cynnwys elfen sylfaenol o £6,210 ac elfen gyfrannol o £250 am bob Aelod yng ngrŵp y blaid.

138. Mae lefelau'r cyflogau ychwanegol sy'n daladwy i reolwyr busnes y pleidiau yn y Pedwerydd Cynulliad, ar sail y cydbwysedd gwleidyddol penodol yn sgil etholiad mis Mai 2011, i'w gweld yn Ffigur 15.

**Ffigur 15: Y Cyflogau Ychwanegol sy'n Daladwy i Reolwyr Busnes y Pedwerydd Cynulliad**

| Y blaid | Nifer yr Aelodau | Y cyflog ychwanegol |
|---|---:|---:|
| Llafur | 30 | £12,420 |
| Ceidwadwyr | 14 | £9,710 |
| Plaid Cymru | 11 | £8,960 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 5 | £7,460 |

139. **Mae cyfuno elfen sylfaenol i adlewyrchu'r cyfrifoldebau sy'n cael eu rhannu gan reolwyr busnes yr holl bleidiau ac elfen gyfrannol ar sail nifer yr Aelodau ym mhob grŵp yn sicrhau bod y cyflogau ychwanegol cymharol sy'n daladwy yn deg. Mae'r model yn briodol i'r Cynulliad fel deddfwrfa weddol gyfrannol, ac mae'n sicrhau bod yna dryloywder ac eglurder petai gan fwy nag un blaid yr un nifer o Aelodau, yn ogystal â gwrthsefyll unrhyw newidiadau yn niferoedd yr Aelodau ym mhob grŵp yn ystod Cynulliadau.**

140. **Mae'r fformiwla ar gyfer cyflogau ychwanegol i reolwyr busnes y pleidiau yn dod o dan yr un penderfyniad i rewi am bedair blynedd â lefelau sylfaenol cyflogau'r Aelodau, fel y nodwyd yn *Addas i'r Diben*.[48] Rydyn ni'n rhag-weld y bydd y fformiwla'n dal yn gymwys yng Nghynulliadau'r dyfodol, ac fel rhan o'n hadolygiad o becyn tâl cyffredinol Aelodau'r Cynulliad, byddwn yn ailasesu lefelau'r elfen sylfaenol a'r cynnydd am bob Aelod.**

[48] *Pennod 5, Addas i'r Diben*

# Comisiynwyr y Cynulliad

*Mae'r bennod hon yn nodi hanes taliadau atodol i Gomisiynwyr y Cynulliad; yn adolygu'r rolau a'r cyfrifoldebau sydd ganddyn nhw yn y Pedwerydd Cynulliad, ac yn amlinellu'n penderfyniadau ar gyflogau ychwanegol.*

## Trosolwg

141. Cafodd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn y Cynulliad) ei greu gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Cylch gwaith y Comisiwn yw sicrhau bod gan y Cynulliad yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau y mae eu hangen er mwyn gwneud ei waith. Cafodd Comisiynwyr cyntaf y Cynulliad eu hethol ar ddechrau'r Trydydd Cynulliad pan ddaeth Deddf 2006 i rym. Cyn hynny, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, roedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gorff corfforaethol a chanddo gyfrifoldeb dros arfer swyddogaethau senedd a swyddogaethau llywodraeth ill dwy. Creodd Deddf 2006 raniad ffurfiol rhwng y ddwy swyddogaeth gan greu endidau cyfreithiol ar wahân i'w cyflawni. Y Cynulliad Cenedlaethol gafodd y cyfrifoldeb dros gyflawni'r swyddogaethau seneddol, gan gynnwys deddfu, dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, a chynrychioli pobl Cymru.

142. Cymdeithas anghorfforedig o 60 o Aelodau Cynulliad yw'r Cynulliad ac mae'n cael ei ddiddymu ychydig wythnosau cyn pob etholiad. Gan hynny, nid yw'n gallu gwneud contractau na bod yn berchennog ar eiddo. Oherwydd hyn, cafodd Comisiwn y Cynulliad ei greu gan Ddeddf 2006 yn endid cyfreithiol parhaol. Comisiynwyr y Cynulliad sy'n gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol y gwasanaethau sy'n cefnogi'r Cynulliad ac sy'n ei alluogi i weithredu; am lywodraethiant y sefydliad; am reoli a defnyddio arian cyhoeddus yn gywir ac yn briodol i gefnogi'r Cynulliad; ac am arfer y swyddogaethau sydd wedi'u rhoi i'r Comisiwn gan Ddeddf 2006.

143. Mae gan y Comisiynwyr ddyletswyddau penodol, sy'n gallu ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw weithredu'n annibynnol ar eu pleidiau gwleidyddol. Er eu bod yn cael cymryd barn cydweithwyr yn eu grwpiau gwleidyddol i ystyriaeth, nid cynrychiolwyr i'r rhain ydyn nhw. Rhaid iddyn nhw weithredu ar y cyd a chymryd cyfrifoldeb ar y cyd dros y dyletswyddau sydd wedi'u rhoi iddyn nhw fel Comisiwn. Mae'n ofynnol i'r Comisiynwyr oruchwylio penderfyniadau strategol sy'n cael eu gwneud gan staff y Comisiwn wrth reoli'r adnoddau sydd wedi'u trefnu i gefnogi gwaith y Cynulliad Cenedlaethol, a dwyn rheolwyr y Cynulliad i gyfrif.

144. Ar ôl i'r Comisiwn ystyried adroddiad y panel annibynnol cyntaf ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad, cytunodd y dylai'r Comisiynwyr gael cyflogau ychwanegol o 1 Ebrill 2008 ymlaen. Cafodd lefel y cyflog ychwanegol a oedd yn daladwy ei phennu ar lefel a oedd yn cyfateb i'r lefel

uwch a oedd yn cael ei thalu i gadeiryddion pwyllgorau.[49] Cafodd y cydraddoldeb hwn â chadeiryddion pwyllgorau ei ategu gan yr ail Banel Annibynnol yn eu hadroddiad nhw ym mis Gorffennaf 2009.[50]

145. Yn ystod rhan gyntaf ein gwaith cydnabu'r Bwrdd y dylai Comisiynwyr y Cynulliad gael cyflogau ychwanegol at y cyfrifoldebau sydd gan eu rolau. Er hynny, fel y nodwyd yn *Addas i'r Diben*, roedd yna ddiffyg eglurder a dealltwriaeth ymhlith Aelodau'r Cynulliad o gyfrifoldebau'r Comisiynwyr.[51] Gan hynny, penderfynwyd y dylai cyflogau Comisiynwyr y Cynulliad barhau'n gydradd, yn y cyfamser, â chyflogau cadeiryddion pwyllgorau, ac y byddem yn casglu rhagor o dystiolaeth i wneud penderfyniad cadarn ar ei sail yng nghyd-destun y Pedwerydd Cynulliad.

## Egwyddorion

146. Er mwyn asesu i ba raddau y mae Comisiynwyr y Cynulliad yn ategu swyddogaethau strategol y Cynulliad, aethon ni ati i ystyried disgwyliadau ynglŷn â'r rôl yng nghyd-destun y Pedwerydd Cynulliad a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r rôl yn sgil hynny. Rydyn ni'n cydnabod bod y Comisiwn wedi arddel ymagwedd fwy strategol a chólegol yn y Pedwerydd Cynulliad, a bod y Comisiynwyr felly yn debycach o arfer mwy o gyfrifoldebau nag yn y gorffennol.

## Methodoleg

147. Fel rhan o gyfnod cyntaf ein gwaith, gofynnwyd i'r Aelodau gyflwyno sylwadau ar rôl Comisiynwyr y Cynulliad. Cafwyd consensws eang y dylai cyflogau ychwanegol gael eu talu i'r Comisiynwyr, ond roedd llawer o'r ymatebwyr yn ansicr ynglŷn â chyfrifoldebau a gofynion y rôl.

148. I fwydo ail ran ein gwaith, gofynnwyd am ragor o dystiolaeth am waith Comisiynwyr y Cynulliad. Awgrymodd y dystiolaeth a ddaeth i law y gallai rôl y Comisiynydd, yn dibynnu ar sut y câi ei chyflawni, fod yn un â chyfrifoldeb mawr. Roedd rhai o'r rhai y siaradwyd â nhw yn cymharu'r rôl â rôl cyfarwyddwr anweithredol, a dywedodd eraill y gallai fod yn debyg i gyflawni rôl ymddiriedolwr elusen.[52] Ein barn ni yw bod llawer o agweddau ar rôl y Comisiynydd, ac yn benodol y cyfrifoldebau ym maes llywodraethiant sydd gan y rôl, yn cyfateb yn fras i gyfrifoldebau cyfarwyddwr anweithredol. O gofio mor bwysig yw goruchwylio llywodraethiant a gwariant y sefydliad, roedden ni'n bryderus ynghylch y diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol ymhlith yr Aelodau o rôl y Comisiynwyr.

### Cyfrifoldebau Comisiynwyr y Cynulliad

149. Clywsom dystiolaeth gan swyddogion y Cynulliad am rôl y Comisiynwyr, a'r dulliau gweithio y cytunodd y Comisiwn arnyn nhw ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad. Awgrymodd y dystiolaeth a gawsom fod cyfrifoldebau allweddol y rôl yn cynnwys:

---

[49] *Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnodion Cyfarfod 6 Mawrth 2008*
[50] *Panel Adolygu Annibynnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Yn Gywir i Gymru, Gorffennaf 2009*
[51] *Pennod 6, Addas i'r Diben*
[52] *Tystiolaeth lafar a gafwyd yn ystod cyfweliadau ag aelodau'r Bwrdd, Mehefin 2011*

- gosod strategaeth gyffredinol a chyllideb flynyddol ddrafft Comisiwn y Cynulliad;
- gosod targedau perfformiad a dwyn y swyddogion i gyfrif ynglŷn â chyrraedd y rheiny;
- awdurdodi trafodion o sylwedd sy'n effeithio ar eiddo'r Comisiwn;
- goruchwylio trafodion sydd wedi'u dirprwyo i'r Prif Weithredwr a staff eraill y Comisiwn; ac
- ateb i'r Cynulliad ac i'r cyhoedd yng Nghymru am waith y Comisiwn.

150. Mae rhagor o fanylion am y cyfrifoldebau o dan sylw ar gael yn Atodiad D.

151. Awgrymodd ystyriaeth ar y dystiolaeth hon, ac ar y dystiolaeth a gasglwyd drwy'n harolygon a'n cyfweliadau ag Aelodau a deiliaid swyddi am gyfrifoldebau a chyfraniadau cymharol y Comisiynwyr a'r deiliaid swyddi eraill at ddibenion strategol y Cynulliad fod y cysylltiad hanesyddol rhwng y cyflogau ychwanegol sy'n daladwy i gadeiryddion y pwyllgorau sy'n arwyddocaol yn strategol a Chomisiynwyr y Cynulliad yn dal yn briodol yn y Pedwerydd Cynulliad. Penderfynwyd felly y dylai Comisiynwyr y Pedwerydd Cynulliad gael cyflogau ychwanegol o £12,420, a'r rheiny wedi'u hôl-ddyddio i ddyddiad eu penodi.

## Casgliadau

152. **Er mwyn i'r Cynulliad weithredu, mae'n rhaid i'r gwasanaethau y mae'n eu cynnal a'r adnoddau y mae arno eu hangen gael eu rheoli'n effeithiol. Comisiwn y Cynulliad sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau hynny ac am reoli cronfeydd cyhoeddus mewn modd doeth a chyfrifol. Rhaid felly i'r Comisiwn bennu cyfeiriad strategol clir i'r Cynulliad fel sefydliad, gan gymryd penderfyniadau effeithiol a phwyllog i sicrhau bod gwasanaethau, eiddo a staff yn cael eu darparu ar ran y Cynulliad er mwyn iddo gyflawni ei ddibenion strategol.**

153. **Mae gan Gomisiynwyr y Cynulliad, sy'n goruchwylio ac yn gwneud y penderfyniadau hyn, lefel sylweddol o gyfrifoldeb felly. Yn unol â'n hegwyddor y dylai taliadau adlewyrchu cyfrifoldebau, rydyn ni wedi penderfynu y dylai Comisiynwyr y Cynulliad gael cyflogau ychwanegol ar lefel o £12,420, gan gadw'r cydraddoldeb â'r lefel uwch o gyflogau i gadeiryddion pwyllgorau. Mae cyflogau ychwanegol Comisiynwyr y Cynulliad yn cael eu rhewi am bedair blynedd yn yr un modd â lefel cyflog sylfaenol yr Aelodau, fel y nodwyd yn *Addas i'r Diben*.[53]**

154. **Mae lefel y cyflogau ychwanegol hyn wedi'i seilio ar ddisgwyliadau ynghylch sut y bydd y Comisiwn yn gweithredu yn y Pedwerydd Cynulliad. Nodwn fod y Comisiwn yn bwriadu cynnal adolygiad o'i effeithiolrwydd ar ôl deuddeng mis, a byddwn yn ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwnnw maes o law.**

[53] *Pennod 5, Addas i'r Diben*

# Amcangyfrif o'r Costau

*Yn y bennod hon rydyn ni'n ymdrin ag effaith ein penderfyniadau ar gyflogau ychwanegol i ddeiliaid swyddi ar yr amcangyfrif o'r costau sy'n codi o'n Penderfyniad ar Dâl a Lwfansau Aelodau'r Cynulliad ar gyfer 2011-12.*

## Amcangyfrif o Gost y Penderfyniad Cychwynnol (Mawrth 2011)

155. Fel y nodwyd yn *Addas i'r Diben* ym mis Mawrth 2011, £12.7 miliwn oedd yr amcangyfrif o gost y system cymorth ariannol yn ein Penderfyniad ni yn 2011-12. Dyna ostyngiad mewn termau real o 7.1 y cant yn llai na'r gyllideb ar gyfer 2010-11, gan arwain at weddill wrth gefn yn y gyllideb gytûn ar gyfer 2011-12 o 2.3 y cant.[54] Roedd hyn yn adlewyrchu'r nifer o newidiadau a wnaethon ni yn y system cymorth ariannol, nad oedd modd ond amcangyfrif eu heffaith, a'r penderfyniadau ynghylch cyflogau ychwanegol i ddeiliaid swyddi a oedd heb eu gwneud y pryd hwnnw.

156. Mae Ffigur 16 yn dangos costau'n Penderfyniad cychwynnol, fel y'u hamcangyfrifwyd ym mis Mawrth 2011, o'u cymharu â chyllideb yr Aelodau ar gyfer 2011-12 a'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2012-13.

**Ffigur 16: Amcangyfrif o Gyfanswm y Costau ym 2011-12 a 2012-13[55]**

| Gwariant refeniw | 2011-12 (£000) | 2012-13 (£000) |
|---|---|---|
| Cyllideb yr Aelodau | 13,034 | 13,041 |
| Ein Penderfyniad ni (amcangyfrif o'r costau) | 12,734 | 12,889 |
| Wrth gefn | 300 | 152 |

## Costau'r Penderfyniadau ar Gyflogau Ychwanegol (Gorffennaf 2011)

157. Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 1, un o'r egwyddorion y seiliwyd ein hystyriaethau ar gyflogau ychwanegol i ddeiliaid swyddi yn y Cynulliad arni oedd y dylai unrhyw drefniadau newydd y byddem yn eu gwneud fod yn niwtral o leiaf o ran costau o'u cymharu â'r trefniadau a oedd ar waith ar ddiwedd y Trydydd Cynulliad.

158. Mae Ffigur 17 yn dangos cyfanswm y deiliaid swyddi sy'n gymwys i gael cyflogau ychwanegol ym mis Gorffennaf 2011, a lefelau'r cyflogau hynny, yng ngoleuni'n Penderfyniad diwygiedig. Mae'r sefyllfa ar ddiwedd y Trydydd Cynulliad ym mis Mawrth 2011 yn cael ei dangos at

[54] *Yn defnyddio rhagdybiaethau Trysorlys EM 2011-12 2.5 y cant, 2012-13 2.2. y cant, a 2013-14 2.7 y cant fel yr oedden nhw ar 29 Tachwedd 2010 (wedi'u cyrchu 9 Mawrth 2011).*

[55] *Yn cynnwys costau'r system lawn o gymorth ariannol a nodwyd ym Mhenderfyniad y Bwrdd, gan gynnwys argostau cyflogau.*

ddibenion darlunio. Cyfanswm y cyflogau ychwanegol sy'n daladwy i'r holl ddeiliaid swyddi ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad yw £889,033 o'i gymharu â £960,203 ar ddiwedd y Trydydd Cynulliad. Dyna ostyngiad yng nghyflogau deiliaid swyddi o £71,170 neu 7.4 y cant.

**Ffigur 17: Cyfanswm Cyflogau Ychwanegol Deiliaid Swyddi[56]**

| Y swydd | Cyflog deiliad y swydd (£) | Deiliaid swyddi (Mawrth 2011) | **Cyfanswm (£)** | Cyflog deiliad y swydd (£) | Deiliaid swyddi (Gorffennaf 2011) | **Cyfanswm (£)** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Prif Weinidog | 80,870 | 1 | **80,870** | 80,870 | 1 | **80,870** |
| Y Dirprwy Brif Weinidog | 41,949 | 1 | **41,949** | 41,949 | 0 | **0** |
| Un o Weinidogion Cymru | 41,949 | 7 | **293,643** | 41,949 | 7[57] | **293,643** |
| Y Cwnsler Cyffredinol | 41,949 | 1 | **41,949** | 41,949 plws 53,852[58] | 1 | **95,801** |
| Y Llywydd | 41,949 | 1 | **41,949** | 41,949 | 1 | **41,949** |
| Dirwy Weinidog | 26,385 | 4 | **105,540** | 26,385 | 3 | **79,155** |
| Y Dirprwy Lywydd | 26,385 | 1 | **26,385** | 26,385 | 1 | **26,385** |
| Arweinydd yr wrthblaid fwyaf | 41,949 | 1 | **41,949** | - | - | **-** |
| Arweinwyr y gwrthbleidiau eraill | 12,168 | 1 | **12,168** | - | - | **-** |
| Arweinydd gwrthblaid (14 o Aelodau) | - | - | **-** | 26,420 | 1 | **26,420** |
| Arweinydd gwrthblaid (11 o Aelodau) | - | - | **-** | 23,240 | 1 | **23,240** |
| Arweinydd gwrthblaid (5 o Aelodau) | - | - | **-** | 17,420 | 1 | **17,420** |
| Comisiynydd Cynulliad | 12,168 | 4 | **48,672** | 12,420 | 4 | **49,680** |
| Cadeiryddion Pwyllgor (uwch) | 12,168 | 12 | **146,016** | 12,420 | 8 | **99,360** |
| Cadeiryddion Pwyllgor (is) | 8,112 | 5 | **40,560** | 8,280 | 2 | **16,560** |
| Prif Chwip y Llywodraeth | 26,385 | 1 | **26,385** | 0 | 1 | **0** |
| Prif Chwip Gwrthblaid | 12,168 | 1 | **12,168** | 0 | 1 | **0** |
| Rheolwr busnes plaid (30 o Aelodau) | - | - | **-** | 12,420 | 1 | **12,420** |
| Rheolwr busnes plaid (14 o Aelodau) | 0 | 1 | **0** | 9,710 | 1 | **9,710** |
| Rheolwr busnes plaid (11 o Aelodau) | 0 | 1 | **0** | 8,960 | 1 | **8,960** |
| Rheolwr busnes plaid (5 o Aelodau) | 0 | 1 | **0** | 7,460 | 1 | **7,460** |
| **Cyfanswm** | | **41** | **£960,203** | | **35** | **£889,033** |

*[56] Nid yw'r ffigurau cyflog a welir yn Ffigur 17 yn cynnwys argostau Yswiriant Gwladol a phensiynau.*

*[57] Mae adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gosod uchafswm o 12 o ran maint Llywodraeth Cymru. Ym mis Gorffennaf 2011, cyfanswm Gweinidogion Cymru a'r Dirprwy Weinidogion yw 10.*

*[58] Nid yw'r Cwnsler Cyffredinol cyfredol yn Aelod o'r Cynulliad, felly mae'n cael cyflog sylfaenol o £53,852 a'r £41,949 yn ychwanegol.*

## Amcangyfrif Diwygiedig o Gyfanswm Cost y Penderfyniad (Gorffennaf 2011)

159. Rydyn ni wedi diweddaru'r Penderfyniad a wnaed gennym ym mis Mawrth 2011 a hynny yng ngoleuni'n penderfyniadau ym mis Gorffennaf 2011 ar gyflogau ychwanegol i ddeiliaid swyddi. Mae costau diwygiedig y system cymorth ariannol rydyn ni wedi'i sefydlu i'w gweld yn Ffigur 18.

**Ffigur 18: Amcangyfrif Diwygiedig o Gyfanswm Costau 2011-12 a 2012-13**[59]

| Gwariant refeniw | 2011-12 (£000) | 2012-13 (£000) |
|---|---|---|
| Cyllideb yr Aelodau | 13,034 | 13,041 |
| Ein Penderfyniad ni (amcangyfrif o'r costau) | 12,803 | 12,994 |
| Wrth gefn | 231 | 47 |

160. Mae amcangyfrif y costau wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu nifer y deiliaid swyddi ym mis Gorffennaf 2011. Mae amcangyfrif y costau ar gyfer 2011-12 a 2012-13 wedi codi uwchlaw'r amcangyfrif a gafwyd yn *Addas i'r Diben* (a welir yn Ffigur 16 uchod) yn rhannol o ganlyniad i'n penderfyniadau ar gyflogau deiliaid swyddi. Er hynny, rydyn ni o'r farn bod y system daliadau rydyn ni wedi'i sefydlu ar gyfer deiliaid swyddi yn dryloyw, yn ategu dibenion strategol y Cynulliad ac yn adlewyrchu'r ffordd y bydd y Pedwerydd Cynulliad yn gweithredu.

## Costau'n Gwaith Ni

161. £8,779 oedd cost uniongyrchol y Bwrdd Taliadau wrth inni lunio'n Penderfyniad diwygiedig. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys taliadau aelodau'r Bwrdd a'r treuliau a gododd yn ystod ein gwaith. Mae'n cynnwys dau gyfarfod ffurfiol, chwe diwrnod ymgynghori a chyfweliadau gan Gadeirydd ac aelodau eraill y Bwrdd, a phedair ar bymtheg a hanner o ddiwrnodau o waith paratoi.

[59] *Yn cynnwys costau'r system lawn o gymorth ariannol a nodwyd ym Mhenderfyniad y Bwrdd; wedi'i ddiwygio i adlewyrchu newidiadau yng nghyflogau ychwanegol deiliaid swyddi a chyflog y Cwnsler Cyffredinol yn unig, gan gynnwys yr holl argostau (pensiynau a chyfraniadau Yswiriant Gwladol).*

# Cylch Gwaith ac Aelodaeth y Bwrdd Taliadau

Sefydlwyd y Bwrdd Taliadau, yn unol ag argymhelliad y Panel Adolygu Annibynnol ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau'r Cynulliad yn ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2009, gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

Mae'r Bwrdd yn gorff statudol annibynnol sy'n gyfrifol am y canlynol:

- darparu lefel o daliadau i Aelodau'r Cynulliad sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y mae disgwyl iddynt eu cyflawni a lefel nad yw'n rhwystro unigolion sy'n meddu ar yr ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag sefyll mewn etholiad ar gyfer y Cynulliad, am resymau ariannol;
- darparu adnoddau digonol i Aelodau'r Cynulliad er mwyn eu galluogi i arfer eu swyddogaethau fel Aelodau; a
- sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn ffordd sy'n sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder.

Wrth ymgymryd â'i gylch gwaith, mae'n rhaid i'r Bwrdd weithredu'n agored ac yn dryloyw a, lle teimla'r Bwrdd fod hynny'n briodol, ymgynghori â'r rheini y mae'n debygol yr effeithir arnynt wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

Penodwyd y Bwrdd ar sail proses recriwtio agored a theg ac mae'n cynnwys Cadeirydd a 4 aelod Bwrdd.



**Y Gwir Anrhydeddus George Reid**
(Cadeirydd)
Gwleidydd, newyddiadurwr ac academydd o'r Alban. Aelod o'r Cyfrin Gyngor, cyn AS, Aelod o Senedd yr Alban, Llywydd Senedd yr Alban a Chadeirydd ei Chorff Corfforaethol. Arglwydd Raglaw Swydd Clackmannan. Bu'n gweithio am 15 mlynedd mewn rhyfeloedd a thrychinebau fel cyfarwyddwr y Groes Goch Ryngwladol/Cilgant Coch. Mae ei benodiadau presennol yn cynnwys: Comisiynydd Etholiadol y DU, Cynghorydd Annibynnol ar God Gweinidogol yr Alban, ac athro gwadd ym Mhrifysgolion Glasgow a Stirling. Yn ddiweddar, bu'n arwain adolygiadau strategol ar lywodraethu yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Alban.



**Sandy Blair CBE**
Cyn gyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, CLlLC (ymddeolodd yn 2004). Bu'n brif weithredwr awdurdod lleol am 16 mlynedd cyn cael ei benodi i CLlLC, ac yn Llywydd SOLACE yn 1999/2000. Mae wedi cael ei gyflogi mewn nifer o swyddi cyhoeddus ac wedi bod yn ymddiriedolwr cyrff cyhoeddus megis cyfarwyddwr anweithredol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cadeirydd Bwrdd Cyllid Esgobaeth Mynwy a swyddi o fewn yr Eglwys yng Nghymru. Mae wedi bod yn aelod o Bwyllgorau Taliadau UWIC a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.



**Mary Carter**
Ymddeolodd fel Partner yn KPMG ym mis Medi 2008 ac ar hyn o bryd mae'n aelod o Gorff Adolygu Cyflogau'r Lluoedd Arfog sy'n gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn ar gyflogau milwrol, lwfansau a thaliadau digolledu, yn ogystal ag ymgynghorydd rhan amser i KPMG. Mae'n gyfreithiwr ac wedi arbenigo ers dros 20 mlynedd ar gynghori cwmnïau yn y DU a thu hwnt ar daliadau a chymhellion i gyfarwyddwyr/uwch reolwyr a materion trethiant a llywodraethu cysylltiedig.



**Stuart Castledine**
Cyfrifydd siartredig sydd wedi dal nifer o swyddi rheoli ariannol a chyffredinol gydag Allied Dunbar, Chartered Trust a Chymdeithas Adeiladu Bristol & West cyn dod yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol cyntaf Tesco. Yn fwy diweddar, mae wedi ymgymryd â nifer o aseiniadau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan helpu i sefydlu cynghreiriau a mentrau ar y cyd, yn ogystal â bod yn gyfarwyddwr sy'n gwyrdroi nifer o sefydliadau gwasanaethau ariannol sy'n methu. Ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr Cyllid Bluestone Resorts Ltd ac yn cyfarwyddwr anweithredol Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.



**Yr Athro Monojit Chatterji**
Ac yntau'n academydd sydd â phrofiad ym maes polisi cyhoeddus, mae wedi cyhoeddi gwaith ymchwil mewn meysydd megis y ffactorau sy'n pennu cyflogau'r sector cyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae'n Athro Bonar mewn Economeg Gymhwysol ym Mhrifysgol Dundee ac yn Gyd-gymrawd a Chyfarwyddwr Astudiaethau Economeg yng Ngholeg Sydney Sussex, Caergrawnt. Ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd Cydgyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achosion Brys y DU (y corff negodi tâl). Cyn hynny bu'n aelod o gorff Adolygu Athrawon Ysgol sy'n gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau ar gyflogau ac amodau, a threfniadau llywodraethu hefyd ar gyfer athrawon ysgol a phenaethiaid ysgol yng Nghymru a Lloegr. Mae hefyd yn gyn aelod o'r Grŵp Economegwyr, Swyddfa Economeg y Gweithlu, yn ystyried materion trawsbleidiol yn ymwneud â thâl yn y sector cyhoeddus.

# Cyfarfodydd y Bwrdd

| Dyddiad | Cyfarfod |
|---|---|
| 26 Mai 2011 | Cyfarfodydd diweddaru anffurfiol rhwng y Cadeirydd ac arweinwyr/cynrychiolwyr y pleidiau; sesiwn galw heibio'r Cadeirydd ar gyfer Aelodau. |
| 27 Mai 2011 | Cyfarfod rhwng y Cadeirydd ac IPSA; briffiadau gan swyddogion y Cynulliad. |
| 22/23 Mehefin 2011 | Cyfarfodydd i gymryd tystiolaeth rhwng aelodau 'r Bwrdd a deiliaid swyddi. |
| 24 Mehefin 2011 | Cyfarfod Bwrdd ffurfiol: canlyniadau'r etholiad a'r goblygiadau ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad; y diweddaraf am roi'r Penderfyniad ar waith; cyflogau ychwanegol i ddeiliaid swyddi; y diweddaraf am y gyllideb; llywodraethiant y Bwrdd Taliadau. |
| 7 Gorffennaf 2011 | Cyfarfod Bwrdd ffurfiol: Penderfyniad diwygiedig, y diweddaraf am y Gyllideb, pensiynau Aelodau. |

Mae agenda a chofnodion holl gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd ar gael ar wefan y Bwrdd: http://www.cynulliadcymru.org/memhome/mem-allow-pay-pensions/members-remunerationboard/meetings-board.htm

# Ymgynghori

Drwy gydol y rhan hon o'n gwaith, ac yn unol ag Adran 2 o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, bu'r Bwrdd yn ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid. Mae'r Bwrdd yn arbennig o ddiolchgar i'r canlynol am gymryd yr amser i roi tystiolaeth i'w gefnogi yn ei waith.

**Aelodau'r Cynulliad:**

Peter Black AC

Angela Burns AC

Rosemary Butler AC

Christine Chapman AC

Jeff Cuthbert AC

Andrew RT Davies AC

Byron Davies AC

Jocelyn Davies AC

Paul Davies AC

Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC

Janice Gregory AC

Mark Isherwood AC

Ann Jones AC

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC

David Melding AC

Sandy Mewies AC

Darren Millar AC

Nick Ramsay AC

Rhodri Glyn Thomas AC

Kirsty Williams AC

Ieuan Wyn Jones AC

**Ymgyngoreion Allanol:**

Mick Bates, *cyn Aelod Cynulliad*
Nick Bourne, *cyn Aelod Cynulliad*
Syr Malcolm Jack KCB, *Clerc y Tŷ, Tŷ'r Cyffredin*
Gareth Jones, *cyn Aelod Cynulliad*
Dai Lloyd, *cyn Aelod Cynulliad*
Y Farwnes Randerson, *cyn Aelod Cynulliad*
Trevor Reaney, *Prif Weithredwr a Chlerc, Cynulliad Gogledd Iwerddon*
Huw Williams, *Pennaeth Gwasanaethau Deiliaid Swyddi a Pholisi Lwfansau, Senedd yr Alban*

# Cyfrifoldebau Deiliaid Swyddi

Nid mater i ni yw darparu disgrifiadau swyddi diffiniol i ddeiliaid swyddi. Er hynny, er mwyn inni wneud ein penderfyniadau ynghylch lefelau priodol o gyflogau ychwanegol i swyddi ar sail cyfrifoldebau, rydyn ni wedi casglu tystiolaeth am elfennau cyffredin sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau pob swydd, y ceir crynodeb ohoni isod. Mae'n bosibl y bydd Comisiwn y Cynulliad a'r Pwyllgor Busnes am gymryd ein canfyddiadau i ystyriaeth ac, os felly, byddem yn croesawu trafodaethau pellach gyda nhw.

## Cyfrifoldebau'r Pwyllgorau

- bwydo a chryfhau gwaith y Cynulliad cyfan drwy gyflwyno adroddiadau iddo ar faterion sydd o fewn portffolio'r pwyllgor;
- craffu ar Filiau ac ar gynigion deddfwriaethol eraill y Cynulliad, y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, gan gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad gydag argymhellion ynghylch gwella'r rhain, ac ystyried a gwneud gwelliannau i Filiau;
- edrych ar gyllid a pherfformiad rhannau perthnasol o Lywodraeth Cymru, y cyrff y mae'n eu noddi a chyrff eraill sy'n berthnasol i Gymru; a
- monitro a chyflwyno adroddiadau ar weithredu polisïau, deddfau ac ymrwymiadau eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys nodi ac ystyried meysydd polisi presennol neu newydd Llywodraeth Cymru, neu feysydd lle mae'r polisi presennol yn ddiffygiol, a gwneud cynigion ar gyfer gwelliannau, polisïau newydd, neu Filiau pwyllgor.

## Cyfrifoldebau Cadeiryddion Pwyllgorau

- pennu cyfeiriad strategol y pwyllgor a sicrhau bod yna flaenoriaethau tryloyw i'w weithgareddau er mwyn gwireddu rhaglen gytbwys, gynhwysfawr ac effeithiol o waith craffu ar ddeddfau, polisïau a chyllid;
- codi perthnasedd a dylanwad y pwyllgor i'r eithaf gan gadw ei annibyniaeth bendant oddi wrth Lywodraeth Cymru;
- gweithredu'n ddiduedd bob amser, yn bendant, yn deg ac mewn modd sy'n cadw ennyn y pwyllgor;
- ennyn hyder Aelodau, tystion a'r cyhoedd yn gyffredinol drwy feistroli'r pwnc sydd o dan sylw yng nghylch gwaith y pwyllgor; dangos technegau effeithiol mewn gwaith craffu ar

ddeddfau, polisïau a chyllid; cadw trefn; a chymhwyso'r holl ofynion cyfreithiol a gweithdrefnol sy'n berthnasol i'r pwyllgor;

- sicrhau ymroddiad ac ymrwymiad pob aelod o'r pwyllgor ac adeiladau consensws ar draws y pleidiau pryd bynnag y bo modd;
- adeiladu'r cymysgedd o ddiwylliant a medrau yn y pwyllgor sy'n angenrheidiol i'w wneud mor effeithiol â phosibl fel corff sy'n gwneud gwaith craffu;
- sicrhau bod y pwyllgor yn cael y cyngor arbenigol, yr wybodaeth a'r cymorth arall y mae arno ei angen i gyflawni ei amcanion yn effeithiol;
- rhoi hwb i gyflawni pob agwedd ar waith y pwyllgor gyda chyflymder ac ansawdd;
- cynrychioli'r pwyllgor yn gyhoeddus, yn y cyfryngau ac ym musnes ffurfiol y Cynulliad; a
- sicrhau bod gwaith y pwyllgor yn cael ei ddadansoddi a'i gloriannu'n feirniadol gan sbarduno arloesed yn ei waith er mwyn cynyddu ei effeithiolrwydd, ei ymgysylltiad cyhoeddus a'i effaith.

## Cyfrifoldebau Arweinwyr y Gwrthbleidiau

- pennu cyfeiriad strategol y grŵp wrth ddwyn y Llywodraeth i gyfrif ac wrth ddylanwadu ar ddeddfwriaeth;
- cynnig gwrthwynebiad adeiladol i'r llywodraeth a gwybod pa bryd i weithio mewn consensws neu gefnogi'r llywodraeth a pha bryd i'w herio;
- dyfeisio strategaethau i ddylanwadu ar y polisïau a'r ddeddfwriaeth;
- gosod y blaenoriaethau i ran y materion i herio'r Weithrediaeth yn eu cylch;
- cynrychioli'r Cynulliad fel arweinydd un o'r gwrthbleidiau;
- gweithredu fel prif lefarydd y blaid a'i pholisïau;
- datblygu polisïau'r blaid a chynnig dewisiadau polisi amgen; a
- chyfrifoldeb dros reoli Aelodau grŵp y blaid.

## Cyfrifoldebau Rheolwyr Busnes y Pleidiau

Pob rheolwr busnes plaid:

- hwyluso gwaith i drefnu a chynnal trafodion y Cynullid yn y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau; a
- chymryd rhan mewn cyfathrebu a negodi ffurfiol ac anffurfiol.

Rheolwyr busnes y gwrthbleidiau:

- aelodaeth o’r Pwyllgor Busnes a chyflawni swyddogaethau’r pwyllgor hwnnw fel y maen nhw wedi’u nodi yn y Rheolau Sefydlog.

Rheolwyr busnes pleidiau sy’n rhan o’r llywodraeth:

- cynnig sianel effeithiol i Aelodau o’r blaid neu’r pleidiau yn y Llywodraeth ddylanwadu ar y Llywodraeth; a

- hwyluso deialog adeiladol ynghylch cynigion y Llywodraeth rhwng y pleidiau i gyd.

## Cyfrifoldebau Comisiynwyr y Cynulliad

Corff corfforaethol yw Comisiwn y Cynulliad ac mae ganddo statws cyfreithiol neilltuol ar wahân i’r Cynulliad a’r Comisiwn sy’n gyfreithiol gyfrifol am ddarparu’r eiddo, y staff a’r gwasanaethau y mae eu hangen at ddibenion y Cynulliad. Mae’r Comisiynwyr yn gyfrifol am y canlynol:

- gosod y strategaeth gyffredinol;

- gosod targedau perfformiad clir a dwyn y swyddogion i gyfrif ynghylch cyflawni’r rhain;

- gosod cyllideb flynyddol ddrafft y Comisiwn i’w gymeradwyo gan y Cynulliad;

- rhoi awdurdod yn uniongyrchol i ‘r trafodion pwysicaf sy’n effeithio ar eiddo’r Comisiwn;

- goruchwylio’n gyffredinol y trafodion a ddirprwyir i’r Prif Weithredwr a’r staff eraill; ac

- ateb i’r Cynulliad ac i’r cyhoedd yng Nghymru am waith y Comisiwn.

Mae’n ofynnol i Gomisiynwyr y Cynulliad gyflawni’r cyfrifoldebau hyn drwy wneud y canlynol:

- bod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Comisiwn;

- ceisio deall ac adlewyrchu barn Aelodau’r Cynulliad, yn eu grwpiau plaid a’r tu hwnt i’r rheiny, i helpu’r swyddogion i ddarparu gwasanaethau sy’n addas at y diben;

- rhoi adborth clir, rheolaidd am fusnes a chynlluniau’r Comisiwn i’w grwpiau plaid;

- esbonio ac, os bydd angen, amddiffyn penderfyniadau’r Comisiwn gerbron Aelodau’r Cynulliad;

- datblygu dealltwriaeth gadarn o feysydd eu portffolio a gweithio’n uniongyrchol gyda’r swyddogion ar bolisïau a chyflawni, a bod yn ffynhonnell arbenigrwydd i Aelodau’r Cynulliad;

- mynd i bwyllgorau i ateb am waith a chynlluniau’r Comisiwn (enghreifftiau o’r Trydydd Cynulliad - Cyfle Cyfartal, Cyfrifon Cyhoeddus, Cyllid);

- llunio a chefnogi cynigion deddfu ynglŷn â’r Comisiwn (enghraifft o’r Trydydd Cynulliad – Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau));

- llofnodi Adroddiadau Blynyddol y Comisiwn;
- cynrychioli ‘r Comisiwn a’r Cynulliad yn ffurfiol mewn digwyddiadau neu yn y cyfryngau;
- ateb Cwestiynau llafar ac ysgrifenedig yn y Cynulliad;
- ateb gohebiaeth ar faterion y Comisiwn a chyfarfod â’r rhanddeiliaid;
- penodi’r Prif Weithredwr, cytuno ar strwythur uwch y sefydliad a phennu tâl y Prif Weithredwr a’r Cyfarwyddwyr (ar sail cyngor gan Bwyllgor Taliadau annibynnol);
- cadeirio sesiynau’r Cyfarfod Llawn a gweithredu fel Dirwy Lywydd dros dro; a
- gweithredu er lles y Cynulliad cyfan ac ysgwyddo cyfrifoldeb ar y cyd dros sicrhau bod y sefydliad yn cyflawni ei ddiben.

Mae un Comisiynydd hefyd yn aelod o Bwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad.

# Dogfennau Cefndir

### *Dofgennau Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru: *Penderfyniad ar Dâl a Lwfansau'r Aelodau 2011-12*

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: *Addas i'r Diben: Adroddiad Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2011*

### *Dogfennau Perthnasol Comisiwn y Cynulliad*

Cynulliad Cenedlaethol Cymru*: Cyllideb Comisiwn y Cynulliad 2011-12*

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: *Penderfyniad ar Dâl a Lwfansau'r Aelodau 2010*

### Taliadau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad SSRB Rhif 42: *Initial Pay, Allowances, Pensions and Severance Arrangements for: Members of the Scottish Parliament, National Assembly for Wales, Northern Ireland Assembly*, 1999

Adroddiad SSRB Rhif 49: *National Assembly for Wales: Review of Pay and Allowances*, 2001

Adroddiad SSRB Rhif 58: *National Assembly for Wales: Review of Pay and Allowances*, 2004

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: *Adroddiad y Panel Annibynnol ar Gymorth Ariannol i Aelodau'r Cynulliad*, 2008

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: *Yn Gywir i Gymru: Adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol ar Dâl a Lwfansau'r Aelodau*, 2009

### Taliadau yn Neddfwrfeydd Eraill y Deyrnas Unedig

Senedd yr Alban, SPCB: *Report to the Scottish Parliamentary Corporate Body on the Reimbursement of Expenses for Members of the Scottish Parliament*, Syr Alan Langlands, 2008

Senedd yr Alban, SPCB: *A Report on the Scheme for the Reimbursement of Mmbers' Expenses*, Syr Neil McIntosh, Corff Corfforaethol, 2009

Senedd yr Alban, SPICe: *The Edinburgh Accommodation Allowance – An International Comparison*, D Oag ac S Wakefield, 2007

Senedd yr Alban, SPICe: *Parliamentary Pay and Expenses*, Murray Earle, 2007

Adroddiad SSRB Rhif 48: *Review of Parliamentary Pay and Allowances*, Cyfrol I, 2001

Adroddiad SSRB Rhif 48: *Review of Parliamentary Pay and Allowances*, Cyfrol II, 2001

Adroddiad SSRB Rhif 50: *Scottish Parliament: Review of Pay and Allowances*, 2001

Adroddiad SSRB Rhif 57: *Review of Parliamentary Pay and Allowances,* Cyfrol 1, 2004

Adroddiad SSRB Rhif 57: *Review of Parliamentary Pay and Allowances*, Cyfrol 2, 2004

Adroddiad SSRB Rhif 67: *Northern Ireland Assembly: Review of Pay, Pensions and Allowances*, 2008

SSRB: *Review of Parliamentary Pay and Pensions*, Syr John Baker, 2008

SSRB: *Determinationof MPs' Salary Increases for 2009*

SSRB: *Determinationof MPs' Salary Increases for 2010*

SSRB: *Determination of MPs' Salary Increases for 2011*

## Deddfwriaeth

*Deddf Llywodraeth Cymru 1998,* http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/38/contents

*Deddf Llywodraeth Cymru 2006,* http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/contents

*Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010*, http://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/4/contents/enacted/welsh

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Archwilio'r Comisiwn y Cynulliad

# Adroddiad Blynyddol i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

Gorffennaf 2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Archwilio'r Comisiwn y Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Archwilio'r Comisiwn y Cynulliad

# Adroddiad Blynyddol i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

Gorffennaf 2011

## Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad

# Adroddiad Blynyddol i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011

**1. Cyflwyniad a rôl y Pwyllgor**

Mae'n bleser gan Bwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad gyflwyno'r adroddiad hwn ar ei waith am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011, sef blwyddyn olaf y Trydydd Cynulliad.

Rôl y Pwyllgor yw rhoi cyngor adeiladol, herio a chefnogi'r Prif Weithredwr mewn cysylltiad â'i chyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys y gofyniad i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn modd rheolaidd a phriodol a bod sicrhau gwerth am arian yn bwysig wrth ddefnyddio adnoddau. Mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu hefyd sicrhau bod trefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn a dulliau rheoli mewnol effeithiol ar waith i sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi a'u rheoli'n briodol.

Felly, mae gwaith y Pwyllgor yn cynnwys archwilio a rhoi sicrhad i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu ar:

- yr adroddiad blynyddol a chyfrifon;
- y gweithgarwch a gynlluniwyd a chanlyniadau prosesau archwilio mewnol ac allanol;
- pa mor ddigonol yw ymateb rheolwyr i faterion a nodir gan brosesau archwilio mewnol ac allanol;
- trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg y Comisiwn yn cynnwys y Datganiad Rheolaeth Fewnol blynyddol; a
- polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.

**2. Cylch gorchwyl**

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu mewn rôl gynghori ac nid oes ganddo bwerau gweithredol. Mae ei delerau fel y'u nodwyd gan y Comisiwn yn gyson â chanllawiau y Trysorlys ac fe'u hadolygir gan y Pwyllgor o bryd i'w gilydd. Mae copi yn amgaeedig yn Atodiad A.

## 3. Aelodaeth y Pwyllgor a'r rhai sy'n bresennol

Nid yw aelodaeth y Pwyllgor wedi newid yn ystod y flwyddyn ac roedd yn cynnwys:

**Richard Calvert**, (Cadeirydd a Chynghorydd Annibynnol)
**Tim Knighton**, (Cynghorydd Annibynnol)
**Yr Athro Robert Pickard**, (Cynghorydd Annibynnol)
**William Graham AC**, Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad

Y rhai a oedd yn bresennol yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor oedd y Prif Weithredwr yn ei rôl fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, y Prif Swyddog Gweithredu, a'r Pennaeth Cyllid a chynrychiolwyr o'r adrannau archwilio mewnol ac allanol. Bu rheolwyr eraill y Cynulliad yn mynychu yn ôl y gofyn. Darparwyd gwasanaethau ysgrifenyddol gan dîm Llywodraethu ac Archwilio Comisiwn y Cynulliad.

## 4. Gweithgaredd ac ystyriaethau'r Pwyllgor

Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn ystod y flwyddyn ac arweiniwyd ei waith gan y flaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn. Yr eitemau rheolaidd ar yr agenda oedd:

- Cynlluniau ac adroddiadau archwilio mewnol;
- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cynnwys Datganiad Rheolaeth Fewnol;
- Cynlluniau ac adroddiadau archwilio allanol;
- Ystyried adroddiadau rheoli risg a thrafodaethau rheolaidd am risgiau allweddol;
- Trefniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol; a
- Gwybodaeth ddiweddaraf am faterion allweddol.
- Yn ychwanegol at hyn, ystyriodd y Pwyllgor:
- Strategaeth Rheoli Gwybodaeth y Comisiwn;
- Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Swyddog Gweithredu am y cynnydd a wnaed o ran argymhellion Adroddiadau Archwilio Mewnol ar Gaffael a rheoli contractau; a,
- Y wybodaeth ddiweddaraf am gyllideb y Comisiwn ar gyfer 2011-12.

## 5. Darganfyddiadau a sylwadau'r Pwyllgor

Prif ddarganfyddiadau a sylwadau'r Pwyllgor oedd:

**Archwiliad Allanol a Chyfrifon Blynyddol**

Croesawodd y Pwyllgor y ffaith bod y cyfrifon drafft ar gyfer 2009-10 wedi'u cyflwyno i'w harchwilio yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni ac y cawsant farn archwilio ddiamwys.

Canmolodd y Pwyllgor y Pennaeth Cyllid a'i thîm am y modd rhwydd y cynhyrchwyd y cyfrifon ar gyfer 2009-10, a bod llai o faterion archwilio o bwys wedi'u nodi nag a fu mewn blynyddoedd blaenorol.
Nid oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi codi unrhyw faterion arwyddocaol o'i archwiliad interim. Fodd bynnag, nododd y Llythyr Rheolaeth 2009-10 gyfleoedd i wella dulliau rheolaeth ariannol y sefydliad ac roedd yn cynnwys pum argymhelliad. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi nad oedd dim materion penodol i bryderu yn eu cylch a bod y pum argymhelliad wedi cael sylw prydlon. Yn fwy cyffredinol, roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod y berthynas weithiol ragorol rhwng y Comisiwn a Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau ac wedi'i chadarnhau yn ystod y flwyddyn a bod diwylliant o her adeiladol yn parhau i fodoli.

Yn ogystal â'i waith ar y cyfrifon blynyddol, cafodd y Pwyllgor hefyd adroddiadau gan Swyddfa Archwilio Cymru a oedd yn nodi canlyniadau ei ymchwiliadau i hawliadau lwfans Aelodau'r Cynulliad. Nododd Swyddfa Archwilio Cymru bod eu darganfyddiadau'n foddhaol heb unrhyw faterion arwyddocaol i bryderu yn eu cylch; er bod prosesau gweinyddol wedi'u cryfhau ymhellach o ganlyniad i'r gwaith hwn, mewn ymateb i argymhellion penodol. Mae'r rhaglen archwilio dros y blynyddoedd diwethaf wedi sicrhau bod taliadau i bob Aelod Cynulliad wedi cael eu harchwilio erbyn diwedd y Trydydd Cynulliad, gan felly roi sicrhad cadarn iawn yn y maes hwn, sy'n gallu bod yn un sensitif.

**Datganiad Rheolaeth Fewnol**

Yn gysylltiedig â'r adolygiad o'r cyfrifon blynyddol yn fuan, ystyriodd y Pwyllgor y Datganiad drafft ar gyfer 2010-11 yn ei gyfarfod diwethaf a nododd nifer o fannau lle y byddai modd ei ymestyn. Roedd hyn yn cynnwys asesu risgiau y gallai'r Comisiwn eu hwynebu yn y flwyddyn nesaf ac ychwanegu paragraff am berygl twyll. Rhoddodd un o aelodau'r Pwyllgor her allanol ar gam y datganiad interim ac roedd hwn yn arbennig o ddefnyddiol i ddatblygu'r datganiad terfynol.

**Archwilio Mewnol**

Mae prosesau archwilio mewnol yn darparu un o'r adnoddau allweddol ar gyfer gwaith y Pwyllgor. Yn dilyn pryderon cynharach am ansawdd a thrylwyredd trefniadau archwilio mewnol, dyfarnwyd contract newydd i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol eleni. Rhoddwyd y contract i KPMG, ac roedd yn dechrau ym mis Gorffennaf 2011. Rheolir y gwasanaeth gan ein Pennaeth Archwilio Mewnol yn y Comisiwn ac ef sy'n gyfrifol am ein holl allbwn archwilio. Roedd yr adolygiadau yn 2010-11 yn cynnwys:

- Adolygu'r Contract Darlledu;
- Rheoli Contractau;
- Dulliau rheolaeth ariannol craidd;
- Adolygiad o UNO ar ôl ei roi ar waith;
- Y gyflogres.

Roedd yr adroddiad ar y dulliau rheolaeth ariannol craidd yn rhoi sicrhad boddhaol i'r Pwyllgor am yr arferion rheoli cyffredinol o fewn Comisiwn y Cynulliad. Sylweddolai'r Pwyllgor fodd bynnag bod cyfyngiadau ar y system TGCh cyllid gyfredol yn effeithio ar effeithiolrwydd yr arferion rheoli, a phwysleisiodd yr angen i edrych ar yr opsiynau i ddiweddaru'r system ar gyfer y dyfodol.

Nododd yr archwiliad o'r gyflogres lefel sicrwydd cadarn o ran rheolaethau'r gyflogres, er bod ffactorau proses gwerth am arian yn cyfyngu hyn i lefel sicrwydd boddhaol. Nododd y Pwyllgor bod cynlluniau ar droed i ymdrin â'r materion gwerth am arian hyn.

Hefyd croesawodd y Pwyllgor y dadansoddiad cynhwysfawr a ddaeth yn sgil yr adolygiadau o'r Contract Darlledu, Rheoli Contractau ac UNO. Nododd y rhain wersi pwysig i'w dysgu ac argymhellion i'w dilyn ar gyfer datblygu dulliau rheoli ac arbenigedd ym maes caffael, rheoli contractau a rheoli prosiectau. Roedd y Pwyllgor yn fodlon yn gyffredinol â'r cynnydd a wnaed i wireddu argymhellion adroddiadau archwilio mewnol, er y bydd am weld cynnydd pellach i sicrhau bod y newidiadau a gynlluniwyd ym maes caffael a rheoli contractau yn dod yn rhan annatod o'n gwaith dros y flwyddyn nesaf.

**Rheoli risg**

Wrth gyflawni ei rôl o sicrhau rheolaeth risg yn y sefydliad, ystyriodd y Pwyllgor y cofrestrau Risgiau Strategol a Risgiau Gweithredol Mawr drwy gydol y flwyddyn. Hefyd ystyriodd y Pwyllgor risg strategol penodol yn fanwl mewn dau o'r cyfarfodydd.

Ystyria'r Pwyllgor bod camau breision wedi'u cymryd i sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o weithrediadau'r Comisiwn a bod y prosesau'n gweithio'n dda'n gyffredinol. Bydd y Pwyllgor yn adolygu canlyniadau archwiliad mewnol yn hyn o beth yn ei gyfarfod nesaf.

**Strategaeth Rheoli Gwybodaeth**

Cymeradwyodd y Pwyllgor y Strategaeth Rheoli Gwybodaeth newydd a oedd yn ddatblygiad allweddol yn dilyn Adroddiad Archwilio Mewnol ar Reoli Cofnodion yn 2009-10. Pwysleisiodd y Pwyllgor yr angen i sicrhau nad oedd y strategaeth yn cael ei gwanhau pan fyddai ar waith a'r angen i dynnu sylw staff at bwysigrwydd y strategaeth.

## 6. Edrych tua'r dyfodol

Mae gan y Pwyllgor raglen waith a gytunwyd ar gyfer 2011-12. Yn ogystal â'r eitemau rheolaidd, bydd y Pwyllgor hefyd yn cymryd diddordeb brwd yn natblygiad a gweithrediad y gwasanaeth archwilio mewnol newydd ac mewn ymestyn y cynllun archwilio. Bydd y Pwyllgor hefyd am gymryd diddordeb manwl yn rheolaeth ariannol y Comisiwn o gofio'r sefyllfa ariannol anodd y bydd y sector cyhoeddus yn gyffredinol yn ei hwynebu. Bydd y Pwyllgor yn monitro'n ofalus y dasg o weithredu gwelliannau o ran Caffael a Rheoli Contractau, yn ogystal â gweithredu'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth. Hefyd bydd y Pwyllgor yn ystyried y trosglwyddiad i'r Pedwerydd Cynulliad ac unrhyw ddull gweithredu strategol newydd y bydd y Comisiwn yn penderfynu arno.

## 7. Casgliad

Rydym o'r farn bod gan y Pwyllgor raglen waith gadarn ac effeithiol a all ddarparu'r sicrwydd sy'n ofynnol gan y Swyddog Cyfrifyddu, a bod lefelau sicrwydd cyffredinol dda yn y Comisiwn. Wedi dweud hynny, mae lle i wella mewn rhai meysydd a lle i well effeithiolrwydd wrth arfer a defnyddio dulliau rheoli. Byddwn yn rhoi sylw arbennig i'r meysydd hyn yn 2011-12 ac yn sicrhau bod y rhaglen archwilio mewnol yn cefnogi hyn. Byddwn yn adolygu'r rhaglen waith hon yng ngholeuni unrhyw flaenoriaethau newydd a nodir gan y Pedwerydd Cynulliad.

Mae'r Pwyllgor am ddiolch i'r Prif Weithredwr a staff y Cynulliad am eu dulliau cadarnhaol o ymdrin â'u gwaith. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar hefyd i'r archwilwyr mewnol ac allanol am wneud eu gwaith mewn modd adeiladol a chefnogol ac i'r Ysgrifenyddiaeth am sicrhau bod y Pwyllgor yn cyflawni ei waith yn rhwydd.

**Richard Calvert, Cadeirydd, Cynghorydd Annibynnol**
**Tim Knighton, Cynghorydd Annibynnol**
**Yr Athro Robert Pickard, Cynghorydd Annibynnol**
**William Graham AC, Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad**

# Comisiwn y Cynulliad
# Assembly Commission

**NAFWC 2011 (Papur 8 Rhan 1)**
**Rhestr o gontractau**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Dyddiad:** Dydd Mercher 14 Gorfennaf 2011
**Amser:** 12:30–14:00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw'r awdur a'i rif ffôn:** John Grimes, estyniad 8225

## Rhestr o gontractau

### 1.0 Diben a chrynodeb o'r materion

1.1 Yn eu cyfarfod anffurfiol yn ddiweddar gofynnodd y Comisiynwyr am ragor o wybodaeth am restr o gontractau'r Cynulliad.

### 2.0 Argymhelliad

2.1 Gwahoddir y Comisiynwyr i nodi'r rhestr aqtodedig ac i ystyried sut y gallai'r Comisiwn gymryd rôl fwy weithredol yn null y Cynulliad o gaffael. Nodir rhai dewisiadau posibl ar ddiwedd y papur hwn.

### 3.0 Rhestr o gontractau'r Cynulliad

3.1 Mae crynodeb o restr o gontractau'r Cynulliad i'w gweld yn Atodiad A.

3.2 Mae'r rhestr yn dangos y contractau gwerth mwy na £25,000 sy'n cael eu hadnewyddu bob blwyddyn. Mae'n rhoi manylion cryno am bob contract, ac, yn benodol, mae'n nodi'r dyddiadau dechrau a gorffen. Dengys y golofn dan y teitl 'Fframwaith' y contractau hynny a gaiff eu rhoi o dan 'fframwaith' y sector cyhoeddus ac ar gyfer pa rai y mae trefniadau tendro mwy syml ar waith.

3.3 Mae'r rhestr yn cynorthwyo gyda gwaith cynllunio caffael ymlaen llaw ar gyfer y dyfodol.

## 4.0 Materion ehangach o ran caffael

4.1 Cyhoeddir y rhestr hefyd ar safle'r Cynulliad ar y rhyngrwyd, fel y gall cyflenwyr posibl fod yn ymwybodol o'r busnes y mae'r Cynulliad yn ei gontractio i ddarparwyr allanol. O wneud hyn, rydym yn rhoi arwydd o'r contractau sy'n debygol o gael eu cynnig i dendr yn y dyfodol er nad oes modd gwarantu y bydd contract penodol yn cael ei adnewyddu ar ei ffurf bresennol neu, yn wir, ei adnewyddu o gwbl. Mae hyn yn cyfrannu at bolisi'r Cynulliad o annog a chefnogi busnesau bach a chanolig drwy ei bolisi caffael ac yn darparu gwybodaeth i gyflenwyr a fydd o bosibl am dendro am y contractau hyn a gwybodaeth i fusnesau bach a chanolig a fydd am ddatblygu eu busnes o bosibl drwy weithredu fel is-gontractwr i'r prif gyflenwr.

4.2 Mae'r broses gaffael yn un gymhleth ac yn elfen o fusnes y Cynulliad a reolir yn fanwl. Yn ogystal â'r angen sylfaenol i ddiwallu anghenion busnes yn effeithiol ac effeithlon, dylanwadir ar gaffael gan ofynion cyfreithiol a pholisïau'r Cynulliad mewn cysylltiad â:

- hybu busnesau bach a chanolig;
- cynaliadwyedd;
- cyfrifoldeb cymdeithasol;
- cystadleuaeth agored a theg;
- Cyfraith Ewropeaidd (y farchnad sengl); a
- sicrhau gwerth am arian.

4.3 Mae'n werth nodi y gall y ffactorau hyn ar brydiau weithio'n groes i'w gilydd. Er enghraifft, mae ffactorau sy'n ymdrechu i leihau costau trwy gydweithio a chydweithredu rhwng awdurdodau yn annog gosod contractau mawr. I'r gwrthwyneb, gall polisïau sy'n annog busnesau bach a chanolig gyfeirio tuag at gontractau llai. Un ffordd o wneud iawn am hyn yw trwy greu cyfleoedd i isgontractwyr ddod i mewn i gontractau mwy ac mae'r rhestr o gontractau yn helpu yn hyn o beth.

4.4 Mae'n werth nodi hefyd bod polisïau sydd wedi'u cyfeirio at annog cwmnïau lleol yn unig yn anghyfreithlon o dan

ddarpariaethau marchnad sengl yr UE. Mae'r Undeb Ewropeaidd yn annog polisïau ar gyfer datblygu busnesau bach a chanolig sydd, o ran natur, yn tueddu i fod yn 'lleol' i'r awdurdod sy'n contractio ond rhaid i arferion caffael sicrhau nad yw cyfleoedd yn gyfyngedig yn ddaearyddol.

4.5 Mae caffael yn faes cyfreithgar iawn ac mae'r gyfraith yn darparu cyfleoedd i gyflenwyr posibl sy'n teimlo eu bod wedi'u trin yn annheg i geisio unioni hyn drwy'r llysoedd. Ehangwyd y pwerau hyn yn ddiweddar gan Gyfarwyddeb Unioni Cam yr UE sydd wedi cryfhau pwerau'r llysoedd a chynyddu'r gosb am beidio â chydymffurfio â'r gyfraith.

4.6 Gyda chontract o unrhyw fath, dim ond dechrau'r broses yw caffael. Os yw gwasanaethau a gontractiwyd i gael eu darparu'n llwyddiannus, mae angen cynnal cysylltiadau gweithio effeithiol gyda'r contractwr i sicrhau ymlyniad o'r ddwy ochr i ofynion y contract, wrth fod yn hyblyg i anghenion ac amgylchiadau sy'n newid. Mae gwella rheolaeth contractau yn un o'n blaenoriaethau datblygu.

4.7 Mae Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad wedi ystyried nifer o adroddiadau archwilio mewnol ar gaffael a rheoli contractau, sydd wedi nodi gwersi pwysig i'w dysgu ac argymhellion ar gyfer datblygu ein dulliau rheoli a'n harbenigedd. Bu'r Pwyllgor yn fodlon yn gyffredinol gyda'r cynnydd a wnaed i weithredu argymhellion yr adroddiadau archwilio mewnol, ond mae am weld rhagor o dystiolaeth ein bod yn gwneud y newidiadau a gynlluniwyd yn rhan annatod o'n gwaith dros y flwyddyn nesaf. Bwriada'r Pwyllgor arolygu'n drylwyr y cynnydd a wneir i weithredu'r gwelliannau.

4.8 Efallai y bydd Comisiwn y Cynulliad am drafod ac ymchwilio ymhellach i agweddau ar gaffael a pholisi caffael. Ymhlith yr opsiynau ar gyfer rhagor o ymwneud gan Gomisiynwyr:

- Efallai y bydd Comisiynwyr am gymryd diddordeb mewn contractau mwy arwyddocaol sydd yn arbennig o berthnasol i'w portffolio, drwy gael eu cynnwys ym manyleb y gwasanaeth, drwy ymgynghori â hwy ynghylch y broses gaffael a thrwy gymryd trosolwg o safonau'r gwasanaeth fel rhan o'r contract. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth TGCh cyfredol gan Siemens (ein contract

allanol mwyaf) yn dod i ben yn 2014, ac rydym wedi dechrau cynllunio'r ffordd ymlaen eisoes. Bydd hon yn broses gymhleth ac mae'n allweddol i wasanaethau'r Cynulliad;

- gallai Comisiynydd arwain ar ran y Comisiwn yn ein gwaith cyfredol o adolygu prosesau a pholisïau caffael, er mwyn iddo neu iddi allu adrodd ar unrhyw newidiadau a gwelliannau yn yr hydref;
- gellid cynnal adolygiad polisi cynhwysfawr o ran dull y Comisiwn o drefnu gwasanaethau drwy gontractau mewnol a chontractau allanol, gyda Chomisiynydd yn goruchwylio ac yn arwain y broses ymgynghori. Mae'n bosibl y byddai goblygiadau ehangach i hyn o ran y modd y darperir gwasanaethau'r Cynulliad a faint y maent yn ei gostio.

# Comisiwn y Cynulliad
# Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2011 (Papur 9)**
**Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad**

**Dyddiad:** Dydd Iau 14 Gorffennaf 2011
**Amser:** 12.00 – 14.00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn, estyniad 8705

## Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad

| Dyddiad y cyfarfod | Eitem ar yr Agenda | Deiliad y portffolio / swyddog arwain |
|---|---|---|
| **22 Medi 11 (wythnos gyntaf y tymor)** | Cyllideb ddrafft y Comisiwn 2012-13 | Angela Burns/Steve O'Donoghue |
| **20 Hydref 11** | Atborth am yr ymgyrch Pleidleisiwch 2011 | Rhodri Glyn Thomas/Non Gwilym |
| | Adolygu effeithiolrwydd y Comisiwn | Y Llywydd/Ian Summers |
| | Is-osod Tŷ Hywel | Peter Black/Dianne Bevan |
| | Adolygiad chwe misol o fuddiannau ac arbedion UNO | Peter Black/Dianne Bevan |
| | Trafodaeth am yr Agoriad Brenhinol | Rhodri Glyn Thomas/Non Gwilym |
| | Adroddiad terfynol Rhaglen y Pedwerydd Cynulliad | Y Llywydd/Dianne Bevan |
| | Gwasanaethau dwyieithog | Rhodri Glyn Thomas/Non Gwilym |
| | Y wybodaeth ddiweddaraf gan y deiliaid portffolio | Deiliaid portffolio |
| | Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn | Claire Clancy |
| | Rhaglen dreigl | Yr Ysgrifenyddiaeth |
| **24 Tachwedd 11** | Gwasanaethau dwyieithog | Rhodri Glyn Thomas/Non Gwilym |

NAFWC 2011 (Papur 9)
**Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad**

| Dyddiad y cyfarfod | Eitem ar yr Agenda | Deiliad y portffolio / swyddog arwain |
|---|---|---|
| | Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft y Comisiwn | Angela Burns/Steve O'Donoghue |
| | Adroddiad blynyddol ar y strategaeth rheoli carbon | Peter Black/Connie Cockburn |
| | Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn | Claire Clancy |
| | Rhaglen dreigl | Yr Ysgrifenyddiaeth |
| **2 Chwefror 12** | Taliadau staff y Cynulliad? | Peter Black/Steve O'Donoghue |
| | Cynllun cydraddoldeb 2012-16 | Sandy Mewies/Steve O'Donoghue |
| | Adolygiad o'r prosesau Rhyddid Gwybodaeth? | Sandy Mewies/Non Gwilym |
| | Y wybodaeth ddiweddaraf gan y deiliaid portffolio | Deiliaid portffolio |
| | Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn | Claire Clancy |
| | Rhaglen dreigl | Yr Ysgrifenyddiaeth |
| **8 Mawrth 12** | Taliadau staff y Cynulliad? | Peter Black/Steve O'Donoghue |
| | Adolygiad chwe misol o fuddiannau ac arbedion UNO | Peter Black/Connie Cockburn |
| | Fframwaith ar gyfer yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon 2011-12 | Angela Burns/Rhodri Glyn Thomas/Non Gwilym/Steve O'Donoghue |
| | Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn | Claire Clancy |
| | Rhaglen dreigl | Yr Ysgrifenyddiaeth |
| **Mai 12** | Strategaeth y gyllideb ddrafft 2013-14 | Angela Burns/Steve O'Donoghue |
| | Adolygiad o effeithiolrwydd Comisiwn y Cynulliad | Y Llywydd/Claire Clancy |
| | Y wybodaeth ddiweddaraf gan y deiliaid portffolio | Deiliaid portffolio |
| | Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn | Claire Clancy |
| | Rhaglen dreigl | Yr Ysgrifenyddiaeth |
| **Gorffennaf 12** | Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar gyfer 2011-12 | Y Llywydd/Claire Clancy |

**NAFWC 2011 (Papur 9)**
**Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad**

| Dyddiad y cyfarfod | Eitem ar yr Agenda | Deiliad y portffolio / swyddog arwain |
|---|---|---|
| | Strategaeth y gyllideb ddrafft 2013-14 | Angela Burns/Steve O'Donoghue |
| | Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn | Claire Clancy |
| | Rhaglen dreigl | Yr Ysgrifenyddiaeth |